Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>18 MEHEFIN 2018<br>10.00 o'r gloch** | **MONDAY<br>18 JUNE 2018<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2018.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **ADRODDIAD CYNNYDD AR Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 23 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

**6** **MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 4, 2017/18** (Tudalennau 77 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**7** **DOGFEN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2018/19** (Tudalennau 103 - 112)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**8** **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2017/18** (Tudalennau 113 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **MODERNEIDDIO YSGOLION AR YNYS MÔN –SYMUD DYDDIAD GWEITHREDU'R RHYBUDDION STATUDOL AR GYFER YSGOL SANTES DWYNWEN, YSGOL PARC Y BONT AC YSGOL BRYNSIENCYN** (Tudalennau 125 - 128)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**10** **STRATEGAETH RHANBARTHOL DIGARTREFEDD** (Tudalennau 129 - 140)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 141 - 144)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**12** **AILSEFYDLU FFOADURIAID O SYRIA** (Tudalennau 145 - 148)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS , Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 4)<br>Prif Swyddog Datblygu (Rheoleiddio ac Economaidd) (THJ) (Ar gyfer eitem 10) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Aled M. Jones, Eric Jones, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dylan Rees, John Arwel Roberts. |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith ac estynnodd groeso penodol i'r Cynghorydd Robin Williams i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwaith fel yr Aelod Portffolio Cyllid.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

Gwnaeth y Cynghorydd Dylan Rees (nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddatganiad o ddiddordeb personol, ond nid un a oedd yn rhagfarnu, mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda ac fe aeth ymlaen i siarad mewn perthynas ag eitem 10 yn ei gapasiti fel Aelod Lleol.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO.

Dim i'w adrodd

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2018 i'w cymeradwyo.

DRAFT

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2018 fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin 2018 a mis Ionawr 2019, ar gyfer cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel a ganlyn –

**Eitemau sy'n Newydd i'r Flaen Raglen Waith**

Eitem 17 – Protocol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i raglennu i'w ystyried yn ei gyfarfod 16 Gorffennaf, 2018
Eitem 34 – Polisi Gamblo sydd wedi'i raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 26 Tachwedd, 2018.

**Eitemau sydd wedi eu hail amserlennu o'u dyddiadau gwreiddiol**

Eitem 4 – 2017/18 Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf Chwarter 4 wedi'i ail raglennu o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mai, 2018 i'w gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018.
Eitem 8 – Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol, wedi'i ail ragflennu o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mai, 2018 i'w gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018.
Eitem 24 – Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn wedi'i hail raglennu o gyfarfod 18 Mehefin, 2018 y Pwyllgor Gwaith i'w gyfarfod ar 17 Medi, 2018.

Adroddodd y Swyddog ymhellach, yn ychwanegol at yr uchod ac ers cyhoeddi'r Blaen Raglen Waith, bod y Gwasanaeth Trawsnewid wedi gofyn bod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol (y Cynllun Gwella) 2018/19 yn cael ei chynnwys yn y Blaen Raglen Waith ar gyfer cyfarfod 18 Mehefin, 2018 y Pwyllgor Gwaith.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini y mae hi fel Arweinwyr yn cael cyfarfodydd â nhw er mwyn trafod y Blaen Raglen Waith ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cyfeirio at y Fforwm hwn o fewn y Rhaglen Waith fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniad at y gwaith o lunio'r rhaglen.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Mehefin 2018 i Ionawr 2019 wedi ei diweddaru yn amodol ar y newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. MABWYSIADU PWERAU GAN Y CYNGOR A DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor Gwaith i newid Cyfansoddiad y Cyngor cyn cyflwyno'r newidiadau hynny i'w cymeradwyo'n llawn gan y Cyngor Sir llawn. Roedd y newidiadau i'w gweld yn Atodiad 1 Adran A, deddfwriaeth ychwanegol i'w hychwanegu i'r Cynllun Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd) ac yn Adran B i ddeddfwriaeth gael ei thynnu o'r Cynllun Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad bod rhai newidiadau cyfansoddiadol a oedd yn codi o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig neu ddeddfwriaeth a ddiddymwyd yn gallu cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro heb yr angen i'w cyfeirio at y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y bydd mabwysiadu a dirprwyo'r pwerau yn Adran A o Atodiad 1 yn galluogi'r Cyngor i weithredu amrywiaeth ehangach o ddatrysiadau tra bod tynnu'r ddeddfwriaeth yn Atodiad B yn ymarfer cadw tŷ da. Ar hyn o bryd, mae unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn. Gofynnir am i rai newidiadau cyfansoddiadol megis y rhai a nodir yn yr adroddiad, gael eu dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro. Dywedodd yr Aelod Portffolio y bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad sydd o bwys gwleidyddol sylweddol a newidiadau o ran dewisiadau lleol yn parhau i fod yn fater i'r Cyngor Llawn ond y bydd deddfwriaeth newydd, ddiwygiedig neu ddeddfwriaeth a ddiddymir yn cael ei dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ac y bydd hyn yn cynnwys ychwanegu neu ddileu cyfeiriad at y deddfwriaethau hynny o restrau pwerau dirprwyedig y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Byddai hyn yn cynorthwyo gyda llwyth gwaith y Swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor Llawn. Gwyddys bod manylion o'r fath yn cael eu cynnwys yng nghyfansoddiadau cynghorau eraill at ddibenion symleiddio prosesau a sicrhau bod newidiadau technegol yn cael eu gweithredu mewn modd sydd mor hwylus a chyflym â phosibl.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn bod –**

- **Ei fod yn mabwysiadu'r pwerau a restrir yn Adran A o Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Ei fod yn diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo ymarfer y pwerau a nodir yn Adran A o Atodiad 1 i'r adroddiad, i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd).**
- **Ei fod yn tynnu'r pwerau a restrir yn Adran B o Atodiad 1 i'r adroddiad o'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad sy'n dirprwyo'r pwerau hyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd).**
- **Ei fod yn awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo, ac unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i adlewyrchu mabwysiadu, dirprwyo a dileu'r cyfryw bwerau.**
- **Ei fod yn awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn y dyfodol, heb orfod cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Llawn, lle bo'r newidadau hynny o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol pan fo angen ychwanegu/newid y ddirprwyaeth i swyddogion er mwyn gweithredu'r pwer neu'r hawliau ychwanegol a roddwyd i'r Cyngor dan y ddeddfwriaeth ddiwygiedig neu newydd.**
- **Ei fod yn diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo i Bennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yr hawl i "Adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd i gynnwys unrhyw newidiadau achlysurol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, deddfwriaeth sy'n cymryd lle un arall neu ddeddfwriaeth newydd; unrhyw ailstrwythro o'r sefydliad sydd eisoes wedi ei awdurdodi fel bo'r angen ac i gynnwys dirprwyaethau newydd i swyddogion, sef y Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol i gael awdurdod dirprwyedig llawn i gyflawni'r swyddogaeth ar ran y Cyngor oni bai ei bod yn fater sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor, Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor."**

**6. GOFYN AM GANIATÂD I RECRIWTIO STAFF ASIANTAETH YCHWANEGOL YN Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD**

DRAFT

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a oedd yn ceisio cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith i recriwtio staff asiantaeth ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ystyriaeth y panel.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd-destun i'r cais gan mai elfen hanfodol o'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant, a oedd wedi'i ffurfio mewn ymateb i arolwg CIW o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2016, oedd y gwaith o recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol cymwys. Er bod llawer eisoes wedi'i gyflawni fel sydd wedi'i nodi o fewn yr adroddiad, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod ar daith o welliant ac fel rhan o'r daith hon mae'r gwasanaeth bellach yn edrych i benodi 7 Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso (mae 3 eisoes wedi'u penodi); 2 Weithiwr Cymdeithasol asiantaeth ac Arweinydd Ymarfer er mwyn ffurfio Grŵp Ymarfer i adolygu achosion hanesyddol ynghyd â chapasiti cyfreithiol ychwanegol er mwyn gallu cwrdd â'r gofyn sy'n codi o'r adolygiad hwn o ran yr achosion a allai fynd yn eu blaenau i Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus neu i weithdrefnau gofal.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod nifer y plant sy'n dod i ofal wedi dyblu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y gwaith sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi'r lleoliadau hyn. Er bod nifer y plant yng ngofal yr Awdurdod wedi sefydlogi ers hynny mae'n fater o fod yn ymwybodol o'r pwysau parhaus ar y gwasanaeth o ganlyniad i'r cynnydd hwn ac o ganlyniad y nifer o staff sydd eu hangen er mwyn darparu cymorth priodol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn. Cyfeiriodd y Swyddog at y cais a oedd yn cael ei wneud gan ddweud bod tair elfen iddo sef -

- Cadw'r 7 Gweithiwr Cymdeithasol Asiantaeth sydd ar hyn o bryd yn llenwi'r 7 swydd wag o fewn yr adran am gyfnod pellach tan ddiwedd mis Hydref pan fydd 3 Gweithiwr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso (NQSWs) yn gallu ymdopi â'r llwyth achosion **(Cost £56,658)**
- Penodi 7 NQSW i'r Timau Gwaith Maes yn Hydref, 2018 (3 ohonynt sydd eisoes wedi eu penodi fel y nodwyd uchod) ac er mwyn cefnogi'r rhain drwy sefydlu 4 gweithiwr asiantaeth am 12 mis **(cost £123,686)**. Mae'r gwasanaeth yn parhau i hysbysebu am weithwyr cymdeithasol parhaol a chafwyd peth llwyddiant yn y cyd-destun hwn er nad yw'r penodiadau sydd wedi'u gwneud yn niferus. Fodd bynnag, yn ystod y rownd ddiweddaraf hon o recriwtio fe benododd y gwasanaeth 3 myfyriwr Gwaith Cymdeithasol, sydd eisoes wedi'u cyfeirio atynt, a fydd yn cymhwyso ym mis Hydref, 2018 fel NQSW. Roedd pedwar ymgeisydd arall y gellid fod wedi eu penodi yn ystod y broses ond ni fyddant yn gymwys am chwe mis arall. O ystyried yr anawsterau i recriwtio gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru a Lloegr, mae'n annhebygol y bydd y gwasanaeth yn gallu recriwtio digon o weithwyr cymdeithasol er mwyn gallu llenwi'r swyddi gwag presennol. Bydd y gwasanaeth felly'n mynd ati i geisio meithrin a datblygu ei weithwyr cymdeithasol ei hun ond gan eu bod yn NQSW bydd eu llwythi achosion wedi eu cyfyngu i ddechrau ac ni fydd modd iddynt gymryd cyfrifoldeb am nac arwain ar achosion difrifol ac o ganlyniad mae angen cadw staff asiantaeth arbenigol er mwyn darparu cymorth ac arweiniad tan y bydd yr NQSW yn cael digon o brofiad.
- Yn ddiweddar, mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi ei wneud yn ymwybodol o achosion hanesyddol, rhai'n dyddio'n ôl nifer o flynyddoedd sydd, am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad, yn rhai a allai fod wedi cael sylw mewn modd gwahanol a mwy priodol; cyfeirir at y rhain fel achosion Hanesyddol. Bydd yn rhaid i'r achosion hyn gael eu hail asesu ac fe argymhellir recriwtio 3 Gweithiwr Cymdeithasol Asiantaeth ac 1 Arweinydd Ymarfer ychwanegol er mwyn ffurfio Tîm Ymarfer dros dro sydd i'w reoli yn uniongyrchol gan y Pennaeth Gwasanaeth er mwyn archwilio, asesu a datblygu'r achosion hyn yn unol â'r cynllun hwn neu i'r Llysoedd **(Cost £177,874)**. Gan ei bod yn



DRAFT

anodd darparu ffigwr manwl gywir ar gyfer nifer yr achosion a fydd yn mynd yn eu blaenau i Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus neu i weithdrefnau gofal, byddai angen i'r Gwasanaeth amcangyfrif a darparu capasiti ychwanegol o fewn ei wasanaeth cyfreithiol (dros y 1.5 Cyfreithiwr cyfwerth ag amser llawn sy'n cefnogi'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar hyn o bryd) er mwyn bodloni'r galw hwn. Yr argymhelliad yw bod y capasiti ychwanegol yn cael ei ymestyn i 2.5 Cyfreithiwr cyfwerth ag amser llawn am gyfnod o 12 mis ar gost o **£54,527.**

- Gan ystyried yr arian wrth gefn o £144,737 o fewn y Gwasanaeth ar gyfer costau staffio, y cyllid ychwanegol y gofynnir amdano yw **£268,008.**

Mewn perthynas ag ychwanegu capasiti cyfreithiol i'r Gwasanaeth, cynghorodd y Pennaeth Gwasanaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, yn dilyn trafod y mater o gapasiti cyfreithiol ychwanegol gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, bod y costau a amcangyfrifir ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn fel y nodir yn yr adroddiad yn gywir petai'r gwasanaeth yn llwyddo i recriwtio gweithiwr proffesiynol i weithio'n fewnol yn y maes hwn am gyfnod o 12 mis. Fodd bynnag, mae profiad yn awgrymu ei bod hi'n annhebygol, o ystyried yr anawsterau hanesyddol, y gellid recriwtio am gyfnod dros dro i faes arbenigol. Y dewis arall yw defnyddio cyfreithiwr asiantaeth i wneud y gwaith hwn ond byddai'n costio llawer mwy. Y gost o benodi asiantaeth yn flaenorol i faes o arbenigedd tebyg oedd £130k y flwyddyn a oedd yn llawer drutach na'r ffigwr a ddyfynnwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y byddai'r costau ychwanegol a geir o ganlyniad i ddiwallu'r cais a amlinellir uchod yn disgyn ar Arian wrth gefn y Cyngor; mae'r rhain wedi gostwng i £6.232 miliwn ers mis Mawrth, 2018 yn dilyn gorfod eu defnyddio ar gyfer Cyllideb Refeniw 2017/18 a oedd wedi gorwario £1.7 miliwn. Bydd defnydd pellach o'r arian wrth gefn cyffredinol er mwyn darparu'r cyllid y mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gofyn amdano yn mynd â'r arian wrth gefn o dan £6 miliwn sef yr isafswm o arian wrth gefn cyffredinol y mae'r Swyddog Adran 151 wedi'i asesu sydd angen i'r Cyngor ei gael o ganlyniad i'r cyd-destun ariannol. Fodd bynnag, dywedodd y Swyddog bod arian wrth gefn y Cyngor yno ar gyfer sefyllfaoedd tebyg i hyn lle mae angen swm o arian er mwyn talu am rywbeth nad oedd modd ei ragweld.

Nodwyd y wybodaeth gan y Pwyllgor Gwaith a chodwyd y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor wedi cefnogi cynlluniau hyfforddeion mewn nifer o feysydd gwasanaeth yn y gorffennol. Nododd y Pwyllgor Gwaith y gallai sefydlu cynllun cyfreithwyr dan hyfforddiant fod yn syniad gwerth ei ystyried yn dilyn yr anhawster i recriwtio gweithiwr proffesiynol am gyfnod penodol a'r costau uchel o gaffael capasiti cyfreithiol ychwanegol gan asiantaeth pan fydd angen.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith bod achosion hanesyddol wedi codi o fewn Gwasanaethau Plant yr ystyrir bod angen eu harchwilio a'u hadolygu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth wedi'i fethu o ran ymddygiad a rheolaeth. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach bod cynllun strategol yn cael ei argymell er mwyn ail asesu'r achosion hanesyddol hyn. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gytûn wrth nodi y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r gwasanaeth gadarnhau amserlen ar gyfer datrys a mynd i'r afael â'r achosion hanesyddol perthnasol.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod Llyfr Cyllideb 2018/19 yn dangos fod yr incwm ar ffurf grantiau a chyfraniadau eraill i'r Gwasnaethau Plant yn £1.26 miliwn (bellach yn agosáu at £1.5 miliwn os yw'r cais uchod yn cael ei gytuno). O ganlyniad i hyn ac hefyd o ganlyniad i'r pwysau parhaus ar y Gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal, er nad yw'n broblem sy'n unigryw i Ynys Môn, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am

DRAFT

gadarnhad a ddylai'r rhagdybiaethau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) gael eu hadolygu er mwyn ystyried y gwariant ychwanegol hwn a'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd eto yn y blynyddoedd sydd i ddod, ac a yw cyllideb sefydlog o £8.224m ar gyfer y Gwasanaethau Plant ar gyfer 2018/19 yn realistig ac yn adlewyrchiad teg o'r gwir sefyllfa.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y MTFP yn cynnwys 3 senario ar gyfer Gwasanaethau Plant sef dim cyllid ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant; 10% o gyllid ychwanegol a 20% o gyllid ychwanegol. Felly, pan fydd y MTFP yn cyfeirio at angen i arbed £10m posibl, bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant wedi'i gyfrif amdano o fewn y swm hwnnw.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **I'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd recriwtio 7 Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso (NQSW) i'r timau gwaith maes o fis Hydref, 2018 (3 wedi'u penodi eisoes) a chefnogi'r rhain trwy gyflogi 4 o weithwyr cymdeithasol asiantaeth ychwanegol ar y sefydliad am 12 mis.**
- **I'r Gwasanaeth ymestyn y capasiti cyfreithiol o fewn y gwasanaeth I 2.5 cyfwerth ag amser llawn am gyfnod o 12 mis.**
- **I £268,008 o gyllid ychwanegol gael ei ryddhau o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i ariannu'r gofynion ychwanegol a amlinellir yn yr adroddiad.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 4 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi'r alldro dros dro ar gyfer y Gyllideb Refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei fod yn siomedig adrodd mai'r alldro ar gyfer 2017/18 yw gorwariant o £1.762k yn erbyn cyllideb o £126.647 miliwn (1.39% o gyllideb net y Cyngor). Mae hyn er gwaethaf y ffaith i'r Awdurdod gyflawni arbedion o £1.55 miliwn dros yr un cyfnod ac mae felly'n golygu bod £1.77 miliwn wedi'i dynnu o'r Arian wrth gefn Cyffredinol er mwyn cydbwyso'r gyllideb sydd yn ei dro, yn golygu bod lefel yr arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio wedi gostwng yn agos i'r trothwy o £6 miliwn a argymhellir gan y Swyddog Adran 151 ac a gymeradwyir gan y Cyngor. Petai'r gorwariant yn digwydd eto yn 2018/19 yna gallai hynny arwain at ostyngiad pellach yn lefelau arian wrth gefn y Cyngor. Gwelwyd y galw mwyaf sylweddol ar wasanaethau mewn Addysg a Gwasanaethau Plant fel sydd wedi'i adrodd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cynnydd yn y pwysau ar gyllidebau penodol yn y maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion dros y chwarter diwethaf wedi arwain at orwariant uwch yn y Gwasanaethau Oedolion na gafodd ei ragweld ar ddiwedd Chwarter 3. Mae Busnes y Cyngor hefyd wedi gweld gorwariant o £181k ar alldro sy'n well na'r rhagamcaniad ar ddiwedd Chwarter 3 ac sydd i'w briodoli yn bennaf i ffioedd asiantaeth oherwydd cyfnodau mamolaeth ac absenoldebau salwch tymor hir. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod hefyd yn dymuno tynnu sylw at y crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn yn Atodiad C ac yn benodol at y gorwariant ar y gyllideb wrth gefn ar gyfer tâl a graddfeydd o ganlyniad i fodloni cytundebau diswyddo gwirfoddol; fodd bynnag, bydd y rhain yn arwain at arbedion tymor hir i'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mai'r prif feysydd lle mae gorwariant ar ei uchaf yw'r rhai hynny sydd wedi'u hamlygu drwy gydol y flwyddyn. Risgiau eraill sy'n codi yn Chwarter 4, ac a allai barhau yn 2018/19 yw costau digartrefedd cynyddol a'r adran Hamdden sy'n ei chael hi'n anodd cyflawni targedau incwm. I liniaru yn erbyn hynny, mae Cyllid Corfforaethol wedi tanwario £655k ar gyfer y flwyddyn; mae hyn yn

DRAFT

cynnwys tanwariant o £258k ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a thanwariant o £449k ar gostau cyllid cyfalaf. O ran arian wrth gefn y Cyngor, dywedodd y Swyddog bod y pwynt yn cyrraedd lle bydd angen rhoi ystyriaeth i ddatblygu strategaeth fel rhan o'r MTFP er mwyn cynyddu'r arian wrth gefn yn ôl i'r lefel o £6 miliwn; gan ddibynnu ar faint, os o gwbl, y bydd yr Awdurdod yn gorwario yn 2018/19 a faint o dan y trothwy o £6 miliwn y bydd arian wrth gefn yn gostwng ac o ganlyniad bydd angen ystyried dros ba gyfnod o amser y mae'n bwriadu cynyddu'r arian wrth gefn yn ôl i lefel dderbyniol ac yna adeiladu hyn i mewn i gyllidebau dilynol. Mae ymagwedd y Cyngor yn y gorffennol o roi arian i un ochr yn y cronfeydd wrth gefn wedi ei gynorthwyo i ymdopi â phwysau ariannol nad oedd modd ei ragweld yn 2017/18 ac mae'n debyg y bydd hynny hefyd yn wir yn 2018/19.

Rhoddodd yr Aelodau Portffolio ar y Pwyllgor Gwaith grynodeb o'r sefyllfa diwedd blwyddyn mewn perthynas â'u meysydd portffolio unigol, gan gynnwys unrhyw amrywiadau ac, lle'r oedd gorwariant fe amlinellwyd sut roedd y pwysau ar y gwasanaethau yn cael ei liniaru. Rhoddwyd pwyslais penodol ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fel y gwasanaeth sy'n gorwario fwyaf a lle mae'r pwysau ariannol ar ei waethaf ac yn parhau. Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cynnydd o 72% yn nifer y plant mewn gofal yn dangos maint yr her yn lleol ac yn genedlaethol - fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith, fel rhan o gynigion cyllideb 2018/19 argymell y dylid clustnodi rhan o'r codiad yn y Dreth Gyngor i liniaru'r pwysau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol lle mae'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion yn gorwario. Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn monitro'r sefyllfa yn agos ac yn benodol, cynlluniau'r Gwasanaethau Plant er mwyn lleihau gwariant o fewn y Gwasanaeth. Dywedodd y deilydd portffolio y bydd yn rhaid rhoi sylw cynyddol i drawsnewid y ffordd y darperir y gwasanaethau ac, o ganlyniad i'r gorwariant yn 2017/18 a'r heriau ariannol parhaus y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu, rhaid i'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau ddigwydd yn gyflym. Mae'r Awdurdod yn gorfod gweithio mewn hinsawdd o gynni ariannol wrth geisio amddiffyn gwasanaethau ar gyfer y rhai hynny sy'n fregus ac mewn angen. Mae llawer iawn wedi'i wneud o wariant yr Awdurdod ar staff asiantaeth - mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn wedi bod er mwyn llenwi swyddi gwag ac i gael gweithwyr yn lle pobl sydd ar absenoldeb salwch lle mae'n hanfodol cael parhad o'r gwasanaeth hwnnw. Lle mae staff asiantaeth wedi'u defnyddio gan wasanaethau eraill, mae hynny er mwyn llenwi bwlch o ganlyniad i absenoldebau staff er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal. Dywedodd yr Arweinydd bod y gwariant diwedd blwyddyn yn siomedig ond gellid ei gymryd i ddangos bod yr Awdurdod o dan bwysau aruthrol o ganlyniad i'r wasgfa ar gyllid llywodraeth leol.

Gan gyfeirio at y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, tynnodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Plant sylw at y ffaith fod y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf a gellir dangos tystiolaeth o lwyddiant ym maes recriwtio, lleihau absenoldebau salwch ac mewn darparu amrywiaeth ehangach o gefnogaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r gorwariant yn y gwasanaeth yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth parhaus ac ar unwaith – mae gan y gwasanaeth gynlluniau i ddod o hyd i leoliadau fwy cost effeithiol ac addas ond bydd hyn yn cymryd amser. Er bod defnydd y gwasanaeth o staff asiantaeth yn fesur dros dro, nid yw o reidrwydd yn fesur tymor byr, mae ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud o ran mentora, cefnogi a datblygu staff gyda'u gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth, er ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol, yn parhau i fod ar daith o welliant.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa fel y caiff ei nodi yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2017/18.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2017/18 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**



DRAFT

- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni Buddsoddi i Arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18 yn Atodiad D yr adroddiad.**
- **Nodi monitro'r costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn 2017/18 yn Atodiadau DD ac E yr adroddiad.**
- **Nodi bod yr alldro a nodir yn yr adroddiad yn parhau'n amodol hyd nes y cwblheir yr archwiliad**

## 8. MONITRO CYLLIDEB CRT – CHWARTER 4 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2017 a 31 Mawrth, 2108 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid for y sefyllfa refeniw ar gyfer 2017/8 yn dangos tanwariant o £933k a hynny'n bennaf o ganlyniad i gostau ariannu cyfalaf is. Roedd y gwariant alldro cyfalaf yn £3,607k yn is na'r gyllideb a hynny'n bennaf oherwydd oedi nad oedd modd ei ragweld yn rhaglen datblygu tai'r Cyngor. Mae unrhyw danwariant ar gael i'w wario yn 2018/19. Mae'r Cyfrif Refeniw tai wedi'i glustnodi ac ni ellir trosglwyddo ei arian wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 4 2017/18 a,**
- **Nodi hefyd bod y canlyniadau'n amodol ar y broses archwilio arferol ar ddiwedd y flwyddyn sy'n golygu mai rhai dros dro yw'r ffigyrau ar hyn o bryd.**

## 9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.

## 10. CYTUNDEB CWRS GOLFF LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr mewn perthynas â Chwrs Golff Llangefni a'r Llain Ymarfer ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith. Cyfeiriodd yr adroddiad at y sefyllfa bresennol o ran y trefniadau o redeg a rheoli'r Cwrs Golff; roedd yn crynhoi canlyniad ymarfer gwerthuso opsiynau mewn perthynas â dyfodol y Cwrs Golff ac yn nodi'r argymhellion ar gyfer camau gweithredu.

Siaradodd y Cynghorydd Dylan Rees ar y mater fel Aelod Lleol a siaradodd i'r perwyl bod angen i unrhyw gynlluniau ar gyfer yr ardal ystyried anghenion adfywio tref Llangefni.

**Penderfynwyd symud ymlaen yn unol ag argymhellion yr adroddiad.**

**Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Mehefin 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2018 - Chwefror 2019;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Gorffennaf 2018 - Chwefror 2019. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018



| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gorffennaf 2018** | | | | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |
| 2 | **Cyfrifon Terfynol Drafft ar gyfer 2017/18** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |
| 3 | **Strategaeth Gwrthdlodi**<br><br>Cymeradwyaeth ar y ddogfen yn dilyn cyfnod o ymgynghori | O fewn rhaglen weithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Mehefin/ Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018<br>(I'w gadarnhau) | |
| 4 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn)**<br><br>Ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol newydd | | Dysgu | Dr Gwynne Jones<br>Prif Weithredwr /<br>Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau<br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 5 Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18 (S)**<br><br>Derbyn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir. | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Caroline Turner<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 5 Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | 25 Medi 2018 |
| | | | | | | | |
| 6 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol**<br><br>Ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol newydd | | Dysgu | Dr Gwynne Jones<br>Prif Weithredwr /<br>Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 13 Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2018 | |
| | | | | **Medi 2018** | | | |
| 7 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |

Tudalen 16

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 9 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid –<br>3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 10 | **Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 11 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 13 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi, 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 14 | **Safonau Ansawdd Tai Cymru – methiannau Derbyniol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 15 | **Polisi ymdrin â gwaith a safonau Cynnal a Chadw Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Protocol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Caroline Turner<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | 25 Medi 2018 |
| | | | | **Hydref 2018** | | | |
| 17 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |
| 18 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18)**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | 30 Hydref 2018 |
| 19 | **Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd 2018** | | | | | | | |
| 20 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 24 Hydref 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018 | |
| | | | | | | | |
| 21 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 22 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 23 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Polisi Gamblo**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y dylid cymeradwyo'r polisi**.** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | 11 Rhagfyr 2018 |
| | | | | **Rhagfyr 2018** | | | |
| 25 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 26 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>5 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| | | | | **Ionawr 2019** | | | |
| 27 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Ionawr 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Gorffennaf 2018 – Chwefror 2019

Diweddarwyd 8 Mehefin 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Chwefror 2019** | | | | | | |
| 28 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Chwefror 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| | | | | | | | |
| 29 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

Tudalen 22

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 18 Mehefin 2018 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Fôn Roberts<br>01248 752708<br>fonroberts@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Dros y cyfnod ers yr arolygiad, rydym wedi bod yn brysur yn sefydlu cyfres o newidiadau pwysig a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau ein bod yn cyflawni mewn modd sy'n cydymffurfio'n well â'r ddeddfwriaeth. Yn benodol, byddem yn tynnu sylw at y canlynol: -

Ailstrwythuro'r gwasanaeth fel ei fod yn canolbwyntio ei egni ar ymyrraeth gynnar ac atal ac ymyrraeth ddwys gyda rheolwyr gwasanaeth sy'n arwain pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn ac yn gyfrifol am yr adnoddau sy'n berthnasol i'r maes gwasanaeth hwnnw h.y. gwaith maes a darpariaeth gwasanaeth. Mae wedi golygu cynnydd sylweddol o ran lefel yr adnoddau goruchwylio, trosolwg gan reolwyr, cyfeiriad yr achosion a dulliau gwell o gynllunio gofal gyda grwpiau ymarfer bach dan arweiniad arweinwyr ymarfer, sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd ymarfer proffesiynol. Buom yn arbennig o lwyddiannus o ran denu gweithwyr cymdeithasol profiadol i ymgymryd â'r rôl hon. Mae'r model hefyd yn rhoi'r hyb Cyngor, Cymorth a Gwybodaeth, sef Teulu Môn, wrth galon y gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Dechreuodd yr holl arweinwyr ymarfer yn eu swyddi ym mis Medi, a'r ffocws ar hyn o bryd yw datblygu eu dealltwriaeth o'u rôl a dechrau'r broses o weithredu ffyrdd newydd o weithio ar draws ein holl wasanaethau. Bydd angen newid diwylliannol sylweddol yn hyn o beth a bydd yn cymryd amser ac egni i ymestyn hyn i'n holl wasanaethau.

Rydym wedi datblygu strategaeth atal sy'n canolbwyntio ar leihau'r gofal sydd ei angen ar bob lefel, a gostwng yr angen am ymgysylltiad dwys. Rydym wrthi'n ymgynghori ar ei chynnwys ar hyn o bryd gyda rhanddeiliaid perthnasol. Rydym yn defnyddio adnoddau Teuluoedd yn Gyntaf i wella ein hymateb drwy Teulu Môn a'r Tîm o Amgylch y Teulu ac i sicrhau bod buddsoddiad Teuluoedd yn Gyntaf arall yn gydnaws â'r amcan hwnnw. Mae'r cyngor wedi buddsoddi adnoddau i sefydlu tîm

teuluoedd gwydn ymyrraeth ddwys fel y gallwn ymateb yn rhagweithiol i blant ag anghenion lefel uchel / sydd ar drothwy gofal. Mae'r tîm teuluoedd gwydn hefyd yn cael effaith wrth weithio gyda'r gweithiwr cymdeithasol a gyflogwyd i gynorthwyo i ddychwelyd plant a phobl ifanc sydd mewn gofal naill ai at ffrindiau neu deulu neu'n agosach at eu cartrefi. Mae'r mentrau hyn bellach yn weithredol ac yn dechrau cyflawni yn unol â'r disgwyliadau hyn, ac rydym wrthi'n cynyddu'r adnoddau i wella'r ddarpariaeth hon ymhellach.

Rydym wedi bod yn rhoi sylw sylweddol i'r systemau sydd ar waith i gefnogi ymyrraeth ddwys y tu allan i'r agweddau proffesiynol gan ddefnyddio gwybodaeth er mwyn sicrhau bod yr achosion cywir yn cael eu trin ar y lefel hon, a bod ein prosesau mor effeithiol â phosib. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn ailystyried ein dull strategol o ymdrin â phlant sy'n derbyn gofal i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ddarparu parhad, gwella darpariaeth leol a hwyluso ar gyfer plant sydd yn parhau i dderbyn gofal yn unig ar gyfer yr hyd amser priodol.

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ansawdd a chysondeb ymarfer fod wrth wraidd yr hyn a wnawn ac rydym wedi cymryd camau i wella'r swyddogaeth sicrhau ansawdd / gwella. Datblygwyd prosesau ac arweiniad newydd ac mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu hymrwymo i'r swyddogaeth. Mae hyn yn golygu datblygu perthynas waith agos rhwng y rheolwr sicrwydd ansawdd a gwella a'r tri rheolwr gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb gweithredol a bydd rhyngweithio uniongyrchol a rheolaidd rhyngddynt yn anelu at sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar unwaith o ran y modd y mae gwasanaethau'n perfformio. Yn ogystal, bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar nodi a sicrhau'r gwelliant angenrheidiol hwn yn y maes ymarfer. Bydd yr holl drefniadau strwythurol newydd hyn yn cael eu datblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Rydym yn cydnabod mai dim ond yn ddiweddar y cafodd y camau hyn eu gweithredu a bod y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu sefydlu ers i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017 a'u bod yn dibynnu ar weithrediad llwyddiannus y rôl arweinydd ymarfer. Bydd yn cymryd amser i gyflawni'r hyn sy'n ddisgwyliedig a bydd y manteision o wneud hynny'n effeithiol yn amlygu eu hunain yn ansawdd da yr ymarfer ar draws ein holl wasanaethau.

Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn canolbwyntio ei sylw ar sicrhau bod yr ymgyrch i wella ymarfer yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r gwasanaeth.

Ers yr adroddiad diwethaf ffocws y gwaith oedd:

**<u>Recriwtio a Chadw</u>**

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn hysbysebu ar gyfer " Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol", ond o ystyried prinder gweithwyr o'r fath ar lefel genedlaethol, mae'n rhaid i'r gwasanaeth fod yn realistig o ran ei allu i recriwtio i'r swyddi hyn. O ystyried hyn mae gan y gwasanaeth gynllun wrth gefn, sef recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso (NQSW) i'r swyddi hyn ac yna cyflogi gweithwyr cymdeithasol

profiadol ychwanegol am gyfnod o 1 flwyddyn. Mae hyn er mwyn cefnogi'r NQSW drwy gydol eu blwyddyn gyntaf yn y fframwaith Ymarfer tair blynedd sy'n fframwaith statudol.

**Cynllun Gwella Gwasanaeth**

Crëwyd y Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) yn dilyn archwiliad AGC ym mis Hydref a Tachwedd 2016. Mae'r CGG wedi'i strwythuro i gwmpasu'r meysydd canlynol:

- CAMAU I'W GWEITHREDU Â'U CYSYLLTIAD AG ARGYMHELLION AGC
- CAMAU GWEITHREDU I SICRHAU GWELLIANT
- CAMAU GWEITHREDU Y MAE EU HANGEN I SICRHAU GWELLIANT
- CANLYNIAD DISGWYLIEDIG / GWELLA A THYSTIOLAETH
- SWYDDOG ARWEINIOL
- CYCHWYN (dyddiad)
- STATWS CAG

Mae yna 21 o gamau gweithredu sydd â chysylltiadau ag argymhellion AGC ac fe'u rhestrir yn y CGG sydd ynghlwm.

Mae'r CGG yn cael ei gadw a'i ddiweddaru gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Caiff ei fonitro a'i archwilio gan Banel Gwella'r Gwasanaethau Plant, y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn parhau i gyfarfod yn fisol, ac yn ystyried y CGG ym mhob cyfarfod. Er bod gan y Panel raglen y cytunwyd arni, mae'r cynnwys a'r ffocws bob mis yn amrywio o ran y "Thema" a ddewiswyd a hefyd mewn perthynas â'r mater y fydd yn cael ei archwilio'n fanwl y mis hwnnw.

Mae presenoldeb yn y cyfarfod wedi bod yn gyson a chryf gyda gwybodaeth yr aelodau etholedig yn datblygu fis ar ôl mis. Mae'r CGG yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar yr agenda ac mae hyn yn caniatáu i aelodau holi, herio a deall y materion a godir yn y gwasanaeth. Mae'n bwysig cofio bod y gwasanaeth hwn yn wasanaeth statudol ac yn ymdrin bob dydd â phlant a theuluoedd ag anghenion cymhleth ac ychwanegol a'r rheini yn rhai o'r teuluoedd mwyaf bregus yn Ynys Môn. Felly, mae'r pwnc nid yn unig yn anodd ar adegau o ran ei gymhlethdod, ond hefyd o ran deddfwriaeth, canllawiau, pwerau statudol, y gyfraith, ymarfer a pherfformiad.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, yn dilyn dros 12 mis o weithio ar y CGG, wedi rhoi statws CAG i'w waith (gan bennu statws Coch, Ambr, Melyn a Gwyrdd i bob gweithgaredd / elfen).

Mae'r tabl canlynol yn rhoi barn yr Gwasanaeth ar gynnydd y CGG:

| CAG / RAG | |
|---|---|
| COCH / RED | **0** |
| AMBR / AMBER | **5** |
| MELYN / YELLOW | **10** |

| GWYRDD / GREEN | 6 |
|---|---|

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd gyda'r 21 maes a restrir yn y CGG sy'n anarferol o ystyried yr ymrwymiad a'r ymdrech sydd eu hangen ar gyfer pob un ohonynt. Fodd bynnag, fel y dengys y tabl uchod, mae 6 maes wedi'u datblygu, mae 10 maes bron yn gyflawn ac mae'r 5 maes sy'n Ambr yn ddarnau o waith sy'n mynd rhagddynt ac sy'n ymwneud yn bennaf ag arfer Gwaith Cymdeithasol. Nid oes unrhyw feysydd lle nad yw'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd.

Mae'r cyflymder y gwelliant yn y Gwasanaeth wedi bod yn arwyddocaol, yn enwedig o ran ailstrwythuro, recriwtio trwy'r gwasanaeth, hyfforddiant a sicrhau ansawdd.

Bydd y Gwasanaeth yn blaenoriaethu'r elfennau sy'n cael eu graddio'n Ambr drwy gydol 2018. Gwnaed llawer iawn o waith ar y 5 maes a restrir isod; fodd bynnag, nid oedd y Gwasanaeth yn gallu rhoi statws Melyn i'r rhain oherwydd y byddant yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau, ac i'w sefydlu'n gadarn mewn ymarfer Gwaith Cymdeithasol.

- Gwelliant yn ansawdd yr ymarfer.
- Bydd uwch arweinwyr y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant.
- Adolygu'r holl blant y gofelir amdanynt i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau sefydlogrwydd.
- Datblygu'r fframwaith perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth i sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall y trothwyon o ran asesu ar gyfer y gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu defnyddio'n gyson.

Mae'r gwaith yn parhau i ddod â heriau a chymhlethdodau gydag ef, fodd bynnag, gyda gweithlu sefydlog a'r ymrwymiad a'r ymgyrch gref gan Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor a'r Aelodau Etholedig, mae'r daith welliant yn mynd rhagddi yn Ynys Môn.

**<u>Goblygiadau Ariannol</u>**
Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n Derbyn Gofal dros y pedair blynedd diwethaf, wedi arwain at gynnydd yng nghostau'r Gwasanaethau Plant o safbwynt staffio a'r angen i drefnu lleoliadau gyda Gofalwyr Maeth neu Leoliadau Preswyl.

Roedd y gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Plant yn 2016/17 (wedi'i haddasu ar gyfer trosglwyddiadau, grantiau a chyflogau a chwyddiant prisiau, h.y. i ddod â hi i fyny i brisiau 2018/19) yn £7.625m o gymharu â £8.668m ar gyfer 2018/19. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae £803k o gyllid parhaol wedi cael ei ychwanegu at y gyllideb gyda £240k pellach (am gyfnod o 2 flynedd) ar gyfer tîm ymyrraeth gynnar.

Yn ogystal, cymeradwywyd swm unwaith ac am byth pellach o £268k gan y Pwyllgor

Gwaith ym mis Mai 2018 i gyllido costau staff asiantaeth i lenwi’r swyddi gweigion cyfredol, er mwyn cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ac i ddelio gydag “Achosion Etifeddiaeth” lle nad yw’r Awdurdod o bosib, wedi ymateb yn briodol i achosion hanesyddol. Gall adolygiad o’r Achosion Etifeddiaeth hyn hefyd arwain at gostau cyfreithiol ychwanegol, a chaniatawyd swm ar gyfer hyn yn y £268k o gyllid ychwanegol.

Yn 2017/18, roedd gorwariant o £1.78m ar gyllideb y Gwasanaeth, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn nifer y Plant sy’n Derbyn Gofal lle gall lleoliadau unigol gostio’n sylweddol. Mae’r Gwasanaeth, drwy waith y Tîm Ymyrraeth Gynnar, yn ceisio gostwng nifer y plant sy’n cyrraedd y sefyllfa hon ac mae’r Tîm Teuluoedd Gwydn yn ceisio cynyddu’r nifer o leoliadau sydd ar gael ar yr Ynys er mwyn lleihau’r costau hyn ond mae risg sylweddol y bydd y Gwasanaeth yn gorwario eto yn 2018/19. Efallai y bydd angen cynnydd ychwanegol yn y gyllideb barhaol ar gyfer 2019/20.

**Argymhellion**

- I gadarnhau os mae’r Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyda chyflymder y cynnydd.
- I gadarnhau os yw'r Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
| --- |
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Mae’r Gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith eu bod yn fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Ydi. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 29 Mai 2018. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Craffu** | Mi gafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 4 Mehefin 2018:<br><br>1. <u>Adroddiad Chwarterol ar Gynnydd y Gwasanaethau Plant</u><br><br>Yn dilyn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a'r sicrwydd a dderbyniwyd, penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon â'r camau a gymerwyd hyd yma er mwyn datblygu gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant a'u bod yn hapus â chyflymder y datblygiadau.<br><br>Gweithred Ychwanegol a Gynigir:<br>Rheolwr Sgriwtini i ddarganfod a chylchredeg gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â nifer y gweithwyr cymdeithasol yn yr adran gwasanaethau plant sydd wedi gadael dros y ddwy flynedd diwethaf a'r nifer sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd, os oes newid wedi bod yn y tuedd yn dilyn yr ail werthusiad o swyddi Gweithwyr Cymdeithasol fel rhan o'r broses Gwerthuso Swyddi ac argaeledd data meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. <u>Adroddiad Cynnydd ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant</u><br><br>Yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor nodi:<br><br>• Y cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>• Mae'r holl ffrydiau gwaith sy'n berthnasol i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn ymddangos fel eu bod ar amser hyd yma a dyma adroddwyd wrth yr Awdurdod Lleol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) yn dilyn ei asesiad o hunanwerthusiad y Cyngor hyd yma.<br>• Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer Aelodau Panel, llawer ohoni a ddarperir yn fewnol.<br>• Bod y Panel wedi uwch gyfeirio ar gyfer ei sylw, y ffaith, er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu'r strwythur staffio sydd wedi'i adolygu, mae rhai swyddi yn parhau i gael eu llenwi gan weithwyr asiantaeth. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach bod hyn yn cael ei ddelio ag ef drwy ddatblygu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain drwy gefnogi gweithwyr cymorth profiadol i gymhwyso a drwy recriwtio gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Amherthnasol |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| 3 | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 - Cynllun Gwella'r Gwasanaeth |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

CC-016749-LB / 229501

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Gweithlu hyderus a chymwys gyda chapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol** | | | | | | |
| 1.1 | Datblygu'r **Strategaeth Gweithlu** i gynnwys:<br><br>• Arfer dda o ran recriwtio<br>• Cadw a chefnogi staff<br>• Trefniadau cynefino clir<br>• Cyfeillio<br>• Hyfforddi a mentora<br>• Cysgodi<br>• Cyfleoedd gwell i hyfforddi a datblygu ar ôl cymhwyso<br>• Canllawiau blwyddyn gyntaf o ymarfer (nid oes angen hwn gan ein bod yn dilyn Canllawiau y Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer a luniwyd ar gyfer Cyngor Gofal Cymru)<br><br>Dolen Argymhelliad rhif 5 yr AGC:<br>Dylid datblygu strategaeth gweithlu gadarn ar frys a fydd yn cynnwys amcanion ar gyfer y tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. | Tachwedd 2017 – Ionawr 2018<br>• Mae enghreifftiau o Arweinwyr Ymarfer yn hyfforddi/mentora Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso<br>• Mwy o gyfleoedd hyfforddi a datbygu ar ôl cymhwyso – bydd yr anghenion hyn yn cael eu nodi mewn Gwerthusiadau a Goruchwyliaeth<br>• Mae 2 Weithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant wedi cychwyn yn eu swyddi<br>• Gwaith wedi parhau ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gweithlu<br>• Arsylwi ymarfer – Mae'r Grŵp Ymarfer Da wedi bod yn trafod sut orau i wneud hyn<br>• Llysgenhadon Gofal Cymdeithasol<br>• Denu Talent – rydym yn symud ymlaen efo hyn a mae ebost wedi mynd allan i Benaethiaid Gwasanaethau i ofyn am gyfleon profiad gwaith.<br><br>Medi a Hydref 2017<br>• Mae 2 aelod o staff wedi llwyddo i ennill hyfforddeiaeth 2 flynedd i hyfforddi i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys, nod y strategaeth hon yw meithrin ein gweithwyr ein hunain ('Grow our Own'), gan sicrhau bod gennym Weithwyr Cymdeithasol a fydd yn gweithio i'r Gwasanaeth am o leiaf 2 flynedd ar ôl iddynt gymhwyso.<br>• Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu yn cael ei yrru yn ei flaen i fonitro cynnydd yn erbyn y camau tymor byr hyd ar Ragfyr 2017. Cynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i fonitro cynnydd.<br>• Rhoddwyd ailstrwythuro'r Gwasanaeth ar waith ar 4ydd Hydref. Cymerodd 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb dros eu Grwpiau Ymarfer, yn rheoli grwpiau llai ar draws Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys gyda phob Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am 3 neu 4 o Weithwyr Cymdeithasol. Bydd hyn yn golygu y bydd gan Weithwyr Cymdeithasol well mynediad i'w Harweinwyr Ymarfer, gan eu galluogi i gael cyngor buan ar gyfer delio ag achosion unigol ynghyd ag i gael cymorth a goruchwyliaeth ddigonol.<br><br>**Awst 2017**<br>• Mae cynllun hyfforddeiaeth wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag AD sy'n cynnig y cyfle i un aelod staff hyfforddi | • Sesiwn Gynefino Gorfforaethol ar gael yn fisol ar gyfer staff newydd.<br>• Sicrhau cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu. Cynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i fonitro cynnydd ynghyd â monitro materion eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu<br>• Ymgymerir â gwaith pellach i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i roi cymorth i deuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod cymorth gweinyddol yn briodol er mwyn i Grwpiau Ymarfer gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.<br>• Adolygu'r Strategaeth Gweithlu tuag at ddiwedd haf 2018 | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn adrodd eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd a disgwyliadau clir, cefnogaeth, ac adborth adeiladol ynghylch eu hymarfer ac ar ansawdd eu gwaith.<br><br>Staff yn nodi'n gadarnhaol eu bod yn fodlon yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Archwiliad o waith sy'n darparu tystiolaeth o weithlu hyderus a chymwys.<br><br>Gwelliant amlwg mewn cyfraddau recriwtio a chadw gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio i swyddi parhaol a gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael.<br><br>Cynefino - pob aelod newydd o staff yn cael cyfnod cynefino cynhwysfawr ac yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.<br><br>Tystiolaeth bod cyfarfodydd cynefino yn cael eu cynnal a bod staff newydd o'r farn eu bod yn ddefnyddiol mewn perthynas â chanllawiau a disgwyliadau, cymorth, llywio eu hymarfer ac ansawdd y gwaith. | Melanie Jones a Margaret Peters | Ion 2017 | Gwaith sy'n parhau |

Tudalen 31

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 32 | | i fod yn Weithiwr Cymdeithasol dros ddwy flynedd drwy Brifysgol Bangor, gyda'r posibilrwydd o ddiogelu swydd barhaol yn y gwasanaeth ar ôl cymhwyso.<br>• Rhaglen Gynefino'r Gwasanaeth wedi'i llunio ar gyfer staff newydd.<br>• Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu yn cael ei yrru yn ei flaen i fonitro cynnydd yn erbyn y camau tymor byr hyd at Ragfyr 2017.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Strategaeth Gweithlu wedi'i gwblhau.<br>• Cynllun Gweithredu'n cael ei baratoi.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Strategaeth Gweithlu Drafft wedi'i lunio ar y cyd ag AD sy'n cynnwys rhannau perthnasol ar recriwtio, cadw a chymorth, trefniadau cynefino, cyfeillio, hyfforddi a mentora, cysgodi, cyfleoedd hyfforddi a datblygu estynedig ar ôl cymhwyso, canllawiau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o ymarfer.<br>• Y strategaeth wedi'i rhannu â staff am eu sylwadau.<br>• Disgwyliadau ar Reolwyr o ran cynefino wedi'u hamlygu – mae hyn yn gysylltiedig â manteision strwythur newydd a nifer uwch o arweinwyr ymarfer.<br>• Materion yng nghyswllt AD – cyfarfodydd wythnosol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r holl faterion perthnasol gan gynnwys recriwtio.<br>• 4 gweithiwr cymdeithasol dwyieithog newydd gymhwyso wedi'u recriwtio.<br>• Pob swydd gweithiwr cymdeithasol wedi'u llenwi gyda staff dros dro/parhaol/trefniadau recriwtio ar waith.<br>• Hysbyseb agored ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol.<br>• Sesiwn i Reolwr ar ganllawiau Cynefino wedi ei gynnal ym mis Mawrth.<br>• Canllawiau ar flwyddyn gyntaf ymarfer wrthi'n cael eu hadolygu gan y Cydlynydd Dysgu Ymarfer. | | | | | |
| 1.2 | **Materion o ran Datrys Staffio** i gynnwys:<br>• Recriwtio i swyddi parhaol<br>• Strategaeth ymadael ar gyfer staff asiantaeth | **<u>Tachwedd 2017 – Ionawr 2018</u>**<br>• Un Gweithiwr Cymdeithasol parhaol wedi ei b/phenodi ddechrau mis Ionawr<br>• Fôn Roberts wedi bod yn ei swydd fel Pennaeth Gwasanaeth ers dechrau mis Rhagfyr<br>• Rydym yn parhau i ostwng nifer y staff Asiantaeth, 7 yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ar sail dros dro i wneud gwaith 5 o swyddi Gwaith Cymdeithasol sy'n | • Lleihau nifer y staff Asiantaeth.<br>• Bydd 3 o Weithwyr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso yn cychwyn yn y Gwasanaeth ddiwedd mis Medi gan ddod â nifer y swyddi parhaol sy'n wag i lawr i 3. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gweithlu sefydlog a pharhaol sy'n arwain at:<br>• Gysondeb ymarfer ar draws y gwasanaeth.<br>• Cymorth o ansawdd gwell i blant a theuluoedd.<br>• Sefydlu gwell perthnasau rhwng teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol yn | Uwch Dîm Rheoli ac AD | Tach 2016 | Gwaith sy'n parhau |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 33 | | wag. Caiff swydd un o'r staff Asiantaeth ei chyllido drwy'r Grant Trothwy Gofal.<br>• 2 aelod o staff wedi cychwyn eu cwrs fel hyfforddeion<br>• Sefydlwyd ymgyrch recriwtio newydd ym mis Tachwedd i geisio denu Gweithwyr Cymdeithasol profiadol a pharhaol. Caiff hysbysebion eu cynnwys yn y Guardian am flwyddyn.<br>• 4 o Weithwyr Cymorth ychwanegol wedi cael eu recriwtio i TAT a'u hariannu o Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Ymgynghorydd Personol ychwanegol wedi cael ei recriwtio a'i gyllido gyda Grant Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru i roi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br>• Mae Pennaeth Gwasanaeth wedi'i benodi a bydd yn cychwyn yn ei swydd ddechrau mis Rhagfyr.<br>• Rydym wedi recriwtio 8 Gweithiwr Cymdeithasol newydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf, y mae pob un ohonynt yn lleol, ac ar wahân i un gweithiwr cymdeithasol, maent i gyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl.<br>• Mae 7 o aelodau staff Asiantaeth yn cael eu cyflogi dros dro i wneud gwaith swyddi Gwaith Cymdeithasol a Rheolwr Tîm sy'n wag ar hyn o bryd<br>• Rydym wedi datblygu trefniadau Hyfforddeiaeth Gwaith Cymdeithasol yn fewnol a bydd 2 o'n staff yn hyfforddi i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys dros y 2 flynedd nesaf.<br>• Rydym wedi methu ag apwyntio i swydd y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd sydd wedi arafu ein cynnydd o ran cyflawni'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd.<br><br>**Awst 2017**<br>• Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu yn symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion.<br>• Wedi penodi'r Tîm Teuluoedd Gwydn.<br>• Wedi penodi 2.5 Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn.<br>• 8 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi erbyn hyn, yn dechrau ar y 4ydd o Fedi. | • Bydd yr hysbyseb barhaol i ddenu Gweithwyr Cymdeithasol profiadol a pharhaol yn cael ei hysbysebu 3 gwaith yn ystod y 6 mis nesaf. | arwain at well canlyniadau i blant a theuluoedd.<br><br>Partneriaid yn adrodd bod gwelliant o ran y trefniadau cydweithio â'r Gwasanaethau Plant o ganlyniad i ostyngiad mewn trosiant staff. | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 34 | | • Byddir yn cynnal trafodaethau ynghylch ymestyn cytundebau Staff Asiantaeth hyd at ddiwedd mis Rhagfyr.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Cytundebau staff asiantaeth wedi'u hymestyn tan ddiwedd Medi 2017 i sicrhau gweithlu digonol o ran niferoedd a phrofiad. Nod i leihau nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn ystod mis Medi.<br>• 1 gweithiwr cymdeithasol cymwys a 3 myfyriwr gwaith cymdeithasol wedi'u penodi i swyddi. 1 cymwys ac 1 myfyriwr yn dechrau ym mis Gorffennaf. 5 swydd wag yn cael eu hysbysebu ar sail treigl.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi. Swydd wag arall yn cael ei hysbysebu.<br>• Wedi penodi i swydd IRO wag gyda dyddiad dechrau y 10th o Orffennaf.<br>• Wedi penodi Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Yn dechrau ganol Awst.<br>• Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi'i benodi. Rheolwr Gwasanaeth Asiantaeth yn cyflawni'r swydd dros dro.<br>• Mae cadw Gweithwyr Cymdeithasol dros dro a pharhaol yn parhau i fod yn sialens i'r Gwasanaeth.<br>• Mae darparu cefnogaeth ac arweiniad digonol i'r staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Cyfarfodydd misol wedi'u sefydlu rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu'n symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion.<br>• Rydym yn parhau i hysbysebu swyddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol ar sail treigl.<br>• AD wedi cynnal sesiynau briffio ar recriwtio i Reolwyr.<br>• AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau'r Gwasanaeth o ran recriwtio a chadw staff.<br>• Arweiniad parhaus gan yr Adran Gyllid ar oblygiadau cost cyflogi staff asiantaeth.<br>• Strategaeth ymadael yn ei lle ar gyfer staff asiantaeth lle mae swyddi wedi cael eu llenwi gan weithwyr parhaol. | | | | | |
| 1.3 | Adolygu'r **Polisi Goruchwylio**. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br>• Cod Ymarfer | **<u>Chwefror – Mawrth 2018</u>**<br>• Uwch Reolwyr wedi arsylwi sesiynau goruchwyliaeth ar draws y gwasanaeth: mae'r | | **Wedi Cychwyn**<br>Adroddiadau cadarnhaol gan staff fod ansawss eu hasesiadau a chynlluniau wedi gwella drwy | | Rhag 2016 | Tracio a monitro parhaus |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 35 | • Goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol neu ad-hoc<br>• Pwrpas Goruchwylio<br>• Manteision Goruchwylio<br>• Rolau a Chyfrifoldebau<br>• Isafswm y Sesiynau a Gynhelir a threfniadau Canslo<br>• Cynllunio ar gyfer Sesiwn Goruchwylio<br>• Cofnodi Goruchwyliaeth<br>• Anghydfodau<br>• Cyfrinachedd a Mynediad<br>• Cysylltiadau â Pholisiau a Gweithdrefnau Eraill<br><br>Dolenni i Argymhelliad rhif 7 AGC:<br>Dylai uwch arweinwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd y goruchwylio ar gyfer staff rheng flaen; rhaid sefydlu mecanwaith sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. | pecynnau cymorth archwilio unigol hyn eto i gael eu dadansoddi fel y gallwn adrodd ar y canfyddiadau. Gwneir hyn unwaith y bydd yr holl archwiliadau unigol wedi cael eu cyflwyno.<br><br>**<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Cychwynnodd Archwiliad o drefniadau goruchwylio ym mis Hydref 2017 ar draws y Gwasanaethau Plant. Nid yw'r archwiliad hwn wedi mynd rhagddo yn ôl y disgwyl – nid oedd y rheolwyr perthnasol wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cofnodiadau goruchwyliaeth ar draws y timau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod problem o ran cofnodi goruchwyliaeth. Mae arolwg staff wedi'i gwblhau ac mae'n dangos rhai canlyniadau positif.<br>• Cynhaliwyd gweithdai mentora ym mis Rhagfyr i Arweinwyr Ymarfer ar oruchwyliaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn datblygu ymarfer adlewyrcho.<br>• Cyngor a chanllawiau'n parhau i gael eu darparu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol unigol mewn perthynas â chwblhau asesiadau, cofnodi ac asesu risg.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Mae ffurflen adborth wedi'i datblygu gan gydweithwyr ym maes Hyfforddiant i ofyn beth y maent wedi ei ddysgu o'r hyfforddiant a dderbyniwyd ganddynt, p'un a ydynt wedi rhoi'r hyn a ddysgwyd ganddynt ar waith, beth fyddent yn ei newid am y cwrs os oes unrhyw beth. Cwblhawyd y ffurflenni hyn gan staff yn ystod y Gynhadledd Staff ym mis Hydref. Rydym wrthi'n dadansoddi'r wybodaeth ar hyn o bryd.<br>• Cynhaliwyd gweithdy cynllunio ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli gyda Rhonwyn Dobbing i baratoi am y 3 gweithdy ar oruchwyliaeth sy'n rhoi sylw i ganlyniadau ('outcome focused supervision').<br>• Rydym wedi parhau i atgoffa staff bod goruchwyliaeth yn flaenoriaeth a bod ar bob aelod staff angen eu goruchwylio'n rheolaidd yn unol â'r Polisi. Mae goruchwyliaeth yn parhau i gael ei olrhain gan y Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd Rheolwyr/Arweinwyr Ymarfer yn atebol am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio.<br>• Roedd Archwiliad o drefniadau goruchwylio wedi dechrau ym mis Hydref 2017 ar draws y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys canfyddiad staff o oruchwyliaeth drwy holiaduron a grwpiau ffocws. Yr adborth cychwynnol gan yr archwilydd yw bod cynnydd gyda'r | | oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd. Mae'r ymatebion i'r Arolwg Goruchwyliaeth yn dangos diffyg consensws ar draws y gwasanaeth ynghylch hyn ac mae angen gwneud gwaith pellach ar effaith goruchwyliaeth ar ansawdd ymarfer;<br><br>Mae'r ymateb i effaith y strwythur newydd o ran y capasiti i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu drwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn dangos bod angen gwneud mwy o waith yn hyn o beth.<br><br>Arweiniad clir ar safonau ac arfer dda yn cael ei gyfleu'n glir ac ar gael i bawb trwy Oruchwyliaeth reolaidd. 67% o ymatebwyr yn cytuno bod goruchwyliaeth yn eu helpu i ddeall yn well yr hyn y mae angen iddynt fod yn ei wneud. Mae angen adeiladu ar hyn.<br><br>Rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwylio a'r Model Risg wedi ei ymgorffori yn y sesiynau Goruchwylio gyda staff. 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod modd iddynt wneud hyn. Bydd angen rhoi prawf pellach ar hyn yn ystod gwerthusiad o Fodel Risg yr hyfforddiant/mentora diweddar.<br><br>Mae archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos goruchwyliaeth gyson o ansawdd da. Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod gwelliant o ran trosolwg a goruchwyliaeth rheolwyr yn parhau i fod yn anghyson.<br><br>Mecanwaith sicrwydd wedi ei sefydlu'n ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Goruchwylio.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn cael cymorth effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau. Oddeutu 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf yn yr arolwg goruchwylio eu bod yn cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau. 79% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael eu goruchwylio'n ddigon aml. | | | SA Mehefin 2017<br><br>Gwaith tracio ac archwilio yn parhau<br><br>SA Mehefin 2017<br><br>Mae'r Polisi Goruchwyliaeth wedi cael ei gwblhau ond mae'n rhy fuan i ddod i gasgliadau |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 36 | | gwaith yn araf gan nad yw rheolwyr yn gallu darparu'r holl gofnodion goruchwylio a oedd i fod wedi digwydd o fewn y cyfnod dynodedig. Mae'n annhebygol y bydd yr adolygiad hwn yn darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth systematig a chyson gyda'r polisi.<br>• Mae'r Arweinwyr Ymarfer yn newydd iawn i'w swyddi ac nid ydynt ond wedi bod yn goruchwylio eu staff ers dechrau mis Hydref. Byddwn yn cynnal ail archwiliad yn Chwefror 2018.<br>• Mae'r mentora gan Bruce Thornton wedi dechrau gweithio gyda phob Arweinydd Ymarfer yn nhermau sut y maent yn ymwreiddio'r Model Risg yn eu gwaith, gan gynnwys yn ystod goruchwylio.<br>• Mae canfyddiadau o archwiliadau o ffeiliau achosion yn dangos yn gyson bod diffyg tystiolaeth o drosolwg a goruchwyliaeth gan reolwyr ar y ffeiliau achosion. Ychydig iawn o dystiolaeth ar hyn o bryd i gefnogi bod y canlyniadau a nodir yn cael eu cyflawni yn nhermau:<br>• Mae ansawdd eu hasesiadau wedi gwella drwy oruchwyliaeth reolaidd o safon dda.<br>• Mae rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwyliaeth a'r Model Risg yn cael ei ymgorffori o fewn sesiynau goruchwyliaeth gyda staff.<br>• Mae archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos ansawdd da a goruchwyliaeth gyson.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Gwnaed trefniadau gyda Rhonwyn Dobbing o ran ymgymryd â hyfforddiant ar oruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer. Cynhelir tri gweithdy a'u pwrpas fydd rhoi cymorth i oruchwylwyr archwilio eu rôl o ran goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd ag ystyried gwerth goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr, ymarfer gwaith cymdeithasol ynghyd ag ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal, dylai gryfhau rôl y goruchwyliwr, rhoi sylw i sgiliau craidd a'r heriau ar gyfer gwahanol grwpiau ymarfer.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Hyfforddiant ar y polisi Goruchwyliaeth wedi'i gynnal, ynghyd â hyfforddiant ar y model risg ym mis Mehefin.<br>• Tracio a monitro trefniadau goruchwylio'n barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth o ran y Polisi. | | Rheolwyr yn dweud eu bod yn gallu cefnogi staff i'r safonau gofynnol – 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn gallu gwneud hyn. | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mai 2017**<br>• Polisi Goruchwyliaeth wedi'i adolygu a'i rannu gyda staff.<br>• Trefniadau tracio yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth lwyr â'r polisi Goruchwyliaeth.<br>• Polisi Goruchwyliaeth wedi'i gwblhau.<br>• Hyfforddiant ar y Model Risg a'i gyswllt â Goruchwylio staff wedi'i ddarparu ar gyfer yr holl staff ym mis Mehefin.<br>• Hyfforddiant Goruchwyliaeth wedi'i ddarparu i bob aelod staff a'r Rheolwyr. | | | | | |
| 1.4 | Darparu **cyfleoedd datblygu ar gyfer Arweinwyr Ymarfer** i **gefnogi'r gweithlu** i gyflawni eu dyletswyddau. Meysydd i ganolbwyntio arnynt:-<br>• Egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau cywir a diogel o ran rheoli achosion (rheolwyr â throsolwg o'r drefn gwneud penderfyniadau)<br>• Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad gan gynnwys darparu her a chyfarwyddyd adeiladol i staff<br>• Rheoli sgyrsiau anodd<br>• Darparu goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd<br>• Datblygu arweinwyr ymarfer mewn sgiliau hyfforddi a mentora<br><br>Dolen i argymhelliad rhif 6 AGC:<br>Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod capasiti ymysg rheolwyr i gadw golwg yn effeithiol ac yn gyson ar y drefn gwneud penderfyniadau, darparu her a chyfeiriad ar gyfer staff ar draws y gwasanaeth; dylai rhaglen arweinyddiaeth a datblygu fod ar gael i adeiladu gwytnwch. | **Chwefror-Mawrth 2018**<br>• Mae'r Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys yn cynnal cyfarfodydd misol gydag Arweinwyr Ymarferol er mwyn canolbwyntio ar ansawdd yr ymarfer Gwaith Cymdeithasol a'r gwelliant sydd ei angen. Caiff trefniadau ar gyfer AY eu hadolygu'r rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y capasiti i oruchwylio a chefnogi eu staff.<br><br>**Tachwedd – Ionawr 2018**<br>• Mae'r swyddfa wedi cael ei hailstrwythuro ac mae'r Arweinwyr Ymarfer wedi cael eu lleoli gyda'u Grwpiau Ymarfer.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br>• Mae Rhaglen Gynefino'r Gwasanaeth yn parhau (gweler isod).<br>• Cymerodd yr Arweinwyr Ymarfer gyfrifoldeb am eu Grwpiau Ymarfer ddechrau mis Hydref. Fe gafodd y mwyafrif ohonynt gyfnod cynefino o 3 wythnos heb gyfrifoldeb rheoli dros staff.<br><br>**Awst 2017**<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 a gadarnhaodd bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu.<br>**Dyma'r Themau Allweddol:**<br>Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella<br>Defnydd wedi cynyddu o ran yr offeryn Risk 2<br>Cyfarfodydd Strategaeth amserol<br>Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg<br>Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau | • AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â chyfraddau recriwtio a chadw ar gyfer y Gwasanaeth. (Gallai hyn fod yn rhan o'r trafodaethau a gynhelir yn y cyfarfodydd a gynhelir bob 6-8 wythnos gydag AD). | **Wedi cychwyn**<br>Rheolwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn eu sgiliau o ran gwneud penderfyniadau rheoli achos cywir a diogel. 83% o'r Staff a gwblhaodd yr Holiadur Staff ym mis Tachwedd 2017 yn cytuno.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth gan eu rheolwyr llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau gyda hynny'n arwain at ostyngiad o ran trosiant staff, cyfraddau gwell o ran cadw staff a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu. 74% o'r staff a gwblhaodd yr Holiadur Staff ym mis Tachwedd 2017 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.<br><br>Adborth gan bartneriaid yn dangos mwy o hyder yn y gweithlu ac enw da'r sefydliad.<br><br>Archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion yn dangos gwelliant yn ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaeth sy'n dangos fod Rheolwyr yn gwneud penderfyniadau rheoli cywir a diogel. | Uwch Dîm Rheoli | Ionawr 2017 | Mawrth 2018<br><br>Rhy fuan i fod â thystiolaeth o'r canlyniad, cyfleoedd datblygu wedi cael eu rhoi i Arweinwyr Ymarfer |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 38 | | Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio). Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn<br>• Cynhaliwyd Bore Cwrdd i Ffwrdd o'r gwaith ar y 28ain o Orffennaf ar gyfer Uwch Aelodau Staff i gytuno ar drefniadau ar gyfer ailstrwythuro'r gwasanaeth ac i ddechrau trafod trefniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer.<br>• Llwyddwyd i benodi 8 Arweinydd Ymarfer.<br>• Mae rhaglen gynefino'r gwasanaeth yn ei lle ar gyfer mis Medi, i gynnwys sesiynau hyfforddiant ar:<br>Y Weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth, sefydliad trosfwaol, CGG, rheoli absenoldeb salwch a Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith<br>Cwynion a'r system Fflecsi<br>Cyfathrebu ar y Cyd<br>Gweithdai Goruchwylio -3 x gweithdy diwrnod llawn ar oruchwyliaeth yn seiliedig ar ganlyniadau<br>PLO a gwaith Llys<br>Rheoli Amser a Rheoli Dyddiadur, Blaenoriaethu Gwaith a Disgwyliadau<br>Cyflwyno Sesiynau Gwaith Grŵp ACE i Rieni<br>Perfformiad<br>Galluogrwydd<br>Cwrs Dull Rheoli<br>Sicrwydd Ansawdd ac Archwiliadau<br>Trothwyon a gwneud penderfyniadau cywir ynghyd â staff yn cyflawni camau gweithredu<br>Cynllunio Gofal ac Adolygu Gofal a Chymorth, Amddiffyn Plant a LAC<br>Cofnodi achosion<br>Asesiadau a'r Model Risg<br>Rheoli Llwyth Achosion – Neilltuo achosion, camu i lawr i TAF a pheidio â chau achosion i'r Gwasanaethau Plant, llwyth achosion llai ar gyfer rhai sydd newydd gymhwyso – uchafswm o 12 achos<br>Cynadleddau Grŵp Teulu, Cyfranogi a Gwaith Datblygu Rhiantu<br>Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gogledd Cymru<br>CAFCASS<br>Cyfweld Ysgogiadol<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: archwiliadau o ffeiliau achosion, archwiliadau | | | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiadau ar gael ddiwedd Gorffennaf.<br>• Hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer Rheolwyr ar reoli sgyrsiau anodd.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi, 4 staff mewnol a 3 allanol.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i Reolwyr ar ddarparu Goruchwyliaeth reolaidd o safon.<br>• Mae 4 o reolwyr ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant achrededig ym maes Arweinyddiaeth a Datblygu.<br>• Bydd ailstrwythuro gwasanaethau a sefydlu timau gweithredol llai yn cael eu gyrru yn eu blaenau a bydd yn sicrhau mwy o gapasiti ymysg Rheolwyr i roi arweiniad, goruchwyliaeth a chefnogaeth gyson i staff.<br>• Gwnaed trefniadau i Reolwyr Gwasanaethau Oedolion roi cymorth i Reolwyr Gwasanaethau Plant gyda'u datblygiad proffesiynol. | | | | | |
| 1.5 | Argymhelliad 4 AGC:<br>Parhau i gefnogi uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant er mwyn bodloni eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r lefel orau bosib.<br><br>**AGC Argymhelliad 8 AGC:** Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gryf ar gyfer gwasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal | **Chwefror-Mawrth 2018**<br>• Ymweliadau Laming wedi cael eu cynnal<br><br>**Tachwedd – Ionawr 2018**<br>• Mae'r Panel Aelodau'n parhau i gyfarfod yn fisol. Cafwyd 7 cyfarfod hyd yma.<br>• 3 o ymweliadau Laming wedi cael eu cynnal ers Hydref 2017, gydag ymweliadau â'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, y Tîm Teuluoedd Gwydn a'r Gwasanaethau Arbenigol Plant<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br>• Mae'r Panel Aelodau wedi parhau i ganolbwyntio ar fonitro a herio gweithrediad Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant, gan ddal Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod ers yr etholiadau lleol ym mis Mai.<br>• Mae pwrpas y cyfarfodydd Laming wedi cael ei adolygu a chwestiynau wedi'u gofyn yn ystod ymweliadau, ac fe'u cysylltir â chanlyniadau perthnasol yn y CGG.<br>• Mae cyfarfodydd Laming ar gyfer Aelodau wedi'u trefnu hyd at fis Mai 2018. Ymgymerwyd ag ymweliad Laming y ddiweddar â'r Tîm Lleoli Plant ar 27.10.17 gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, y Cadeirydd Sgriwtini ac aelod etholedig o'r Panel. | • Parhau i roi cymorth i uwch arweinwyr wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau plant. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod eu cyfranogiad yn y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r materion sylfaenol allweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a'u gallu i sgriwtineiddio effeithiolrwydd y gwasanaeth.<br><br>Uwch reolwyr yn y gwasanaeth yn dweud bod y cymorth a'r her a ddarperir gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi parhau i wella.<br><br>Partneriaid proffesiynol a chymunedau yn dweud bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn unol â'r Ddeddf GC a Llesiant.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn adrodd bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n unol â'r amserlen ac i'r safon gofynnol. | Prif Weithredwr Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Ionawr 2017 | Parhaus<br><br>Nifer o Gynghorwyr wedi mynychu 'r Ŵyl Gynhwysiant |

Tudalen 39

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 40 | | • Arweinydd y Cyngor yw'r Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Plant hefyd, mae'n gefnogol iawn ac mae ganddi gysylltiad agos â'r gwaith o fonitro'r Cynllun Gwella Gwasanaeth drwy gyfarfodydd misol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth i drafod cynnydd a datblygiadau.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Mae rhestr o ymweliadau Laming misol rhwng Gorffennaf 2017 a Mai 2018 wedi cael eu cyflwyno a'u cytuno gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ar 21/08/17. Mae ymweliadau Laming wedi cychwyn.<br>• Cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol gydag Andrew Bennett, Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research', am y posibilrwydd o redeg sesiwn fyddai ar gael i'r holl Aelodau/Uwch Arweinyddion ynghylch Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod.<br>• Cynhaliwyd yr ail Banel Aelodau ar 21ain o Awst a lluniwyd dogfen dracio ar gyfer gwaith y panel.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Mae Arweinydd newydd y Cyngor/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant a'r Rheolwr Sgriwtini Dros Dro wedi adolygu rôl y panel Aelodau GC a Llesiant o ran creu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Plant.<br>• Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>• Grŵp Gwella'r Gwasanaethau Plant yn cael ei gynnal yn fisol, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i yrru ymlaen y gwelliannau a'r newidiadau a fynnir.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Panel GC a Llesiant i barhau i fonitro'r broses o gwblhau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.<br>• Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>• Gwaith Rhianta Corfforaethol i gael ei ddatblygu ymhellach (gweler 5.3).<br>• Angen adnoddau ychwanegol i gael gwell dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant. | | | | | |

**2. Asesiadau, ymyriadau a phenderfyniadau amserol o safon uchel yn cael eu gwneud i ddiogelu, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a phecynnau cymorth ymchwil o ansawdd da**

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1<br><br>Tudalen 41 | Gwelliant o ran ansawdd ymarfer.<br><br>Meysydd i ganolbwyntio arnynt:<br>1. Amddiffyn plant, amddiffyn plant ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC<br>2. Model Risg – gwella'r dadansoddiad o risg<br>3. Asesu – Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu.<br>4. Cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>5. Cwblhau cynlluniau Gofal a Chymorth o dan y Ddeddf GC a Llesiant.<br>6. Sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>7. Cadw cofnodion<br>8. Cwrs Cyfathrebu ar y Cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br><br>**Argymhelliad 10:**<br>Dylid gwella ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson o ansawdd da, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau a ddymunir, amserlenni ac atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu yn glir. | **Chwefror - Mawrth 2018**<br>Cwblhawyd y dadansoddiad o ansawdd ymarfer ar gyfer Ch3. Dangosodd adroddiadau blaenorol nad oedd y broses fisol o archwilio ffeiliau achos wedi ymwreiddio yn y gwasanaeth ond roedd digon o fanylion ar gael i lunio casgliadau thematig. Yn Ch3, nid oedd y manylion a gafwyd yn ôl yn ddigonol i lunio sylfaen gadarn ar gyfer dadansoddiad. Roedd natur y gwerthusiadau eraill yn benodol i achosion ar y cyfan ac yn cynnwys dau adolygiad rheoli a oedd yn cyffwrdd ar rai cyfnodau ymarfer cynharach.<br>O ganlyniad, nifer gyfyngedig o faterion a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth yn gyffredinol gafwyd yn ystod y chwarter hwn. Lliniarwyd hyn yn rhannol drwy:<br><br>• Ddadansoddiad thematig o ymarfer gan y swyddogion diogelu annibynnol<br>• Trosolwg chwarterol ac adborth gan y swyddogion diogelu annibynnol<br>• Dadansoddiad o gwynion a chanmoliaethau yn ystod Ch3<br><br>Dangosodd y canfyddiadau fod<br>• Ansawdd yr asesiadau yn anghyson.<br>• Roedd ansawdd y cynlluniau gofal a chefnogaeth gan gynnwys cyflymder cwblhau asesiadau a gweithredu a chynnal lefel y gwaith yn wael.<br>• Roedd goruchwyliaeth er mwyn cefnogi ymarfer gwell a gwneud penderfyniadau gwell a throsolwg y rheolwyr yn anghyson.<br>• Roedd ansawdd a chysondeb cadw cofnodiadau yn anghyson ond roedd tystiolaeth fod pethau'n gwella..<br>• Roedd ansawdd, cysondeb ac amseriad ymholiadau diogelu plant a gwelliant yn lefel y ddealltwriaeth a'r defnydd o drothwyon ar gyfer cyfeiriadau, asesiadau a diogelu plant yn anghyson.<br><br>Dangosodd archwiliad thematig o Leoliadau gyda Rhieni nad oedd yr achosion yn cwrdd â'r gofynion statudol.<br><br>Yn dilyn o archwiliad cynharach a nododd nad oedd gan yr holl achosion gynlluniau diogelu plant – | Mae angen i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar<br>• Weithio i sicrhau Llwythi Achosion y gellir ymdopi â nhw – raid i Arweinwyr Ymarfer weithio gyda'u hymarferwyr i leihau step down cases<br>• Canolbwyntio ar wella asesiadau – sesiynau dysgu mewn grwpiau bychan ar ddatblygu arferion asesu a sut i ddefnyddio'r teclyn cymhwyster.<br>• Paratoi'n well ar gyfer Adolygiadau Statudol a Chynadleddau Achos Adolygiadau.<br>• Camau cywirol o ran achosion Lleoliadau gyda Rhieni<br>• Rhaid i Gynlluniau Gofal LAC neu Gynlluniau Gofal a Chymorth LAC gael eu sefydlu ar gyfer achosion perthnasol o fewn y mis nesaf<br>• Rhaid i Arweinwyr Ymarfer a'r Rheolwyr sicrhau bod cofnod o'u trosolwg rheoli<br>• Canolbwyntio'n ddwys ar Gynllunio Sefydlogrwydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn gostwng nifer y plant mewn gofal. Cwblhau'r achosion y mae angen eu diddymu a nodi'r holl achosion lle gall SGO fod yn briodol a chanolbwyntio ar fwrw ymlaen gyda'r achosion hynny.<br>• Parhau i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd i gyflawni ffordd newydd o weithio<br>• Adolygu'r Broses Cynadleddau Achos – canolbwyntio ar adolygu'r trefniadau ymarferol, adrodd, cynlluniau amddiffyn plant a rôl y grŵp craidd hwn<br>• Mae genogramau a chronolegau yn arbennig yn parhau i fod yn | **Eto i'w wneud**<br>Adolygu'r trothwyon sy'n gysylltiedig â phlentyn yn dod i ofal o ganlyniad i'r gwerthusiadau bod y trothwyon ar gyfer cofrestru plant ar y Gofrestr Amddiffyn a chyfarfodydd rhan 4 wedi cael eu nodi fel ymarfer gwael.<br><br>Tystiolaeth o 'atal' a 'chefnogi' gyda mwy o blant yn aros yn eu cartrefi.<br><br>Archwiliadau rheolaidd yn digwydd; fodd bynnag nid ydynt yn adrodd ar welliannau cyson yn ansawdd yr ymarfer, asesu risg a chadw cofnodion.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd; fodd bynnag nid ydynt yn adrodd ar welliannau cyson sy'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion a'u bod yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Cynnydd mewn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar y cynnydd a gyflawnwyd ganddynt gyda chymorth y Gwasanaethau Plant. Cafwyd llai o gwynion yn Ch3. Fodd bynnag, mae angen tracio hyn ar sail tymor hwy.<br><br>**Wedi dechrau**<br>Cynnydd gyda chynllun gweithredu a'r broses ar gyfer gwella cynadleddau amddiffyn plant yn digwydd yn gyflymach.<br><br>**Wedi'u cwblhau**<br>Sicrhau bod templedi rhanbarthol ar gyfer 'asesu' / cynllunio gofal a chefnogaeth' sy'n cofnodi glir anghenion, risgiau, cryfderau, canlyniadau, atebolrwydd am weithredoedd a'u hamserlenni cysylltiedig ar gael i'w defnyddio o fewn y gwasanaeth. | Uwch Dîm Rheoli<br><br>Hyfforddiant | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 42 | | dangosodd archwiliad dilyn i fyny bod y rhain bellach yn eu lle ac mai dim ond rhyw un neu ddau o achosion unigol oedd yn parhau i fod angen sylw. Gwnaed yr un gwaith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – fodd bynnag, ychydig o gynnydd a wnaed o ran sicrhau bod gan bob plentyn gynllun cyfredol.<br><br>Ar nodyn cadarnhaol, dangosodd y dadansoddiad o archwiliad mis Rhagfyr o'r ffeiliau achosion (a gwblhawyd ym mis Chwefror) bod peth gwaith da iawn yn cael ei wneud a hynny o safbwynt nifer yr achosion (6 wedi eu graddio'n 'dda') a hefyd y gwaith a wnaed gan yr archwilwyr gyda nifer ohonynt wedi darparu sylwadau da a threiddgar. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar ymarfer ers Hydref 2017. Canfu'r archwiliad arfer dda yn y meysydd canlynol<br>• At ei gilydd, roedd y cofnodiadau achos yn gyfredol.<br>• Roedd rheolwyr yn gwneud penderfyniadau mewn ymateb i gyfeiriadau o fewn 2-4 awr. Roeddynt yn glir ac yn briodol.<br>• Lle yr oedd angen gwneud penderfyniadau ynghylch strategaeth, roedd yn ymddangos bod y rhain hefyd yn cael eu cynnal yn amserol ac yn arwain at benderfyniadau clir a oedd yn cael eu cofnodi'n gryno Ymddengys bod hyn yn wir am benderfyniadau rheoli yn gyffredinol drwy'r archwiliad hwn.<br>• Mae'n ddyddiau cynnar yn achos nifer o'r achosion a archwiliwyd y mis hwn ond yn gyffredinol, roedd yr archwilwyr yn canmol safon yr asesu a'r dadansoddi ynghyd â'r penderfyniad clir a wnaed mewn un achos o ran cau'r achos.<br>• Yn y mwyafrif llethol o achosion perthnasol (8 allan o 11), roedd cyfrifoldebau statudol yn cael eu diwallu, megis cynnal trafodaethau strategaeth, cwblhau asesiadau ac ymchwiliadau A47 o fewn yr amserlen.<br>• Mewn 7 allan o 10 o'r achosion perthnasol, cafodd y gwaith a wnaed o ran trosglwyddo achosion a chau achosion ei ddyfarnu'n 'dda'; yn gyffredinol, roedd tystiolaeth ar ffeil fod cau achosion yn cael ei drafod gyda phlant, rhieni ac asiantaethau partner a bod eu sylwadau'n cael eu mofyn ac roedd rhai crynodebau da ar ffeil o'r rhesymau dros gau achosion. | feysydd y mae angen eu gwella, yn enwedig fel arf i helpu gyda asesiadau neu os cafwyd nifer o gyfeiriadau blaenorol.<br>• Sylw i fanylion mewn cofnodiadau gwybodaeth gyffredinol ar WCCIS – yn enwedig gwybodaeth gan ysgolion, Meddygon Teulu a rhieni / PR.<br>• Goruchwyliaeth rheoli. Er yr ymddengys bod trosolwg o achosion yn cael ei rheoli'n dda a bod penderfyniadau'n glir, ychydig o dystiolaeth welwyd o oruchwyliaeth ffurfiol ac adlewyrchol ddiweddar yn y sampl hwn o achosion.<br>• Cofnodion achosion pwrpasol sy'n rhoi trosolwg clir o'r achos a dealltwriaeth o'r rhesymau pam y cymerwyd camau gweithredu penodol.<br>• Dealltwriaeth o arwyddocâd cleisiau heb eglurhad mewn babanod na fedrant symud eto.<br>• Sefydlu'n ehangach Fodel Risg Gwynedd/Thornton.<br><br>• Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 – Rhaid i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sylfaenol i wella data perfformiad. Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw gwella ymarfer asesu. Darperir hyfforddiant gan Bruce Thornton ar weithredu'r model risg mewn asesiadau. Mae gwaith ar fynd o ran ymgysylltu â staff i ddiffinio safonau ar gyfer asesiadau.<br>• Ymarfer Myfyriol mewn Gwaith Cymdeithasol:<br>1. Amddiffyn plant<br>2. Sut i sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>3. Cadw cofnodion. | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 43 | | Cynhaliwyd hyfforddiant yn Ch4 ar Gyfweld Cymhellol a Therapi'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau Byr. Mae'n rhy fuan i asesu'r effaith y mae hyn wedi ei gael ar ymarfer.<br><br>• Mae disgwyliad clir bod angen i asesiadau gofal a chymorth fod yn gyfredol gyda dadansoddiad mewn perthynas â'r risg o niwed sylweddol. Mae staff Gwaith Cymdeithasol wedi cael arweiniad clir bod angen cynlluniau gofal ar gyfer yr holl blant sydd ar y gofrestr Amddiffyn Plant, Plant sy'n Derbyn Gofal a gadawyr gofal ac y dylid cynnal ymweliadau gwaith cymdeithasol yn unol â'r amserlenni statudol.<br><br>• Bu gostyngiad parhaus yn nifer y plant ar y gofrestr AP lle mae Cynhadledd amlasiantaethol wedi asesu bod y risg o niwed sylweddol wedi gostwng yn ddigonol. Ar ddiwedd Mawrth 2018, roedd 46 o blant ar y gofrestr o gymharu â 48 ar ddiwedd Rhagfyr 2017.<br><br>• Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod hwn gyda 144 o blant mewn gofal ym Mawrth 208 o gymharu â 139 yn Rhagfyr 2017.<br><br>**<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Nid yw dadansoddiad Ch3 o ansawdd ymarfer wedi cael ei gwblhau eto. Cynhaliwyd nifer o werthusiadau o ymarfer yn ystod y cyfnod – ac mae'r hyn a ddysgwyd wedi cael ei rannu gydag arweinwyr ymarfer/rheolwyr. I grynhoi, deuir i'r casgliad bod ymarfer yn anghyson mewn sawl maes: nid yw rhai o'r gofynion sylfaenol yn cael eu diwallu, e.e. cynlluniau diogelu plant, Cynlluniau Gofal a Chymorth. Dengys archwiliadau bod safon y cofnodi wedi gwella; mae hyn er clod i'r staff er gwaethaf yr anawsterau a gawsant o ran cyfarwyddo eu hunain gyda system newydd. Mae rhai enghreifftiau o Arweinwyr Ymarfer yn ceisio gweithio mewn ffordd wahanol – sefydlu dulliau newydd o weithio: ond nid yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y Gwasanaeth. Mae ymarfer yn parhau i fod yn anghyson ac mae'r gwasanaeth eto i wireddu nifer o'i amcanion gwella o ran ansawdd ymarfer, asesiad, dadansoddiad, rheoli risg a chynllunio gofal a chymorth. | 4. Datblygu canllawiau ar ymarfer da mewn perthynas â chadw cofnodion. Comisiynwyd Bruce Thornton i sefydlu model gweithredol o fewn y system newydd - WCCIS.<br>5. Canllawiau ymarfer i gael eu datblygu mewn perthynas ag AP ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC. | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 44 | | • Penodwyd Rheolwr Dros Dro i geisio gyrru'r gwelliannau i ymarfer drwy hyfforddi/mentora, datblygu prosesau a gweithdrefnau a sefydlu safonau ymarfer. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae'r sesiynau hyfforddi a mentora gan Bruce Thornton ar Fodel Risg Gwynedd/Thornton yn parhau ac mae gwerthusiad ar y gweill. Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol.<br><br>• Cafwyd llai o gwynion i'r gwasanaeth yn Ch3 o gymharu â Ch2 – 12 lawr i dri a'r sylwadau positif wedi codi o 24 i 31.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Cynhaliwyd cwrs Cyfathrebu Cydweithredol ar 28ain a'r 29ain o Fedi ac mae'r symud i weithio o dan y Ddeddf GCaLl yn parhau.<br>• Mae'r crynodeb o berfformiad chwarter 2 yn rhoi tystiolaeth o ystod o ffynonellau gwerthuso - adolygiadau rheoli, cwynion, archwiliadau thematig, archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion. Y prif ganfyddiadau yw bod ymarfer yn parhau i fod yn anghyson: a bod y gwasanaeth yn dal heb wireddu sawl un o'i amcanion gwella yn nhermau ansawdd ymarfer, asesu, dadansoddi, rheoli risg a chynllunio gofal a chymorth. Ceir arwyddion o beth gwelliant ym maes gwneud penderfyniadau cychwynnol a chofnodi.<br>• Mae ymyriadau sydd wedi'u targedu'n parhau i gael eu gwneud gyda Gweithwyr Cymdeithasol unigol nad ydynt wedi gwella ansawdd eu hymarfer.<br>• Datblygwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Llys i ganolbwyntio ar wella ansawdd a'r dadansoddiadau o'r holl asesiadau a wneir i lywio ein penderfyniadau, a bydd yn cefnogi trefniadau ar gyfer gweithredu dwys yn gynnar ('front loading') o fewn achosion cyfraith gyhoeddus. Mae gan Arweinwyr Ymarfer bellach drosolwg o amserlen y Llys ar gyfer achosion o fewn eu Grwpiau Ymarfer a byddant yn cefnogi ac yn arwain Gweithwyr Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn paratoi'n well ar gyfer y Llys a bod dogfennau'n cael eu ffeilio mewn pryd.<br>• Mae'r Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu Model Risg Thornton/Gwynedd er mwyn parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i weithio mewn modd rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg - gan | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 45 | | dreulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â hwy yn eu helpu i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant. Bellach, mae angen ymwreiddio'r model risg o fewn ymarfer a chefnogi ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer i ddatblygu ymhellach eu sgiliau o ran plannu'r model i gefnogi penderfyniadau effeithiol o ran risgiau.<br>• Mae Bruce Thornton, cyd-awdur y model, yn ymgymryd â rôl Hyfforddwr Ymarfer/Datblygu Mentora am gyfnod o 7 mis i ganolbwyntio ar:<br>• Ddarparu hyfforddiant a mentora i helpu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a chymhwyster ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer.<br>• Cefnogi Rheolwyr Gwasanaeth i weithredu, prosesu, systemau a gweithdrefnau i sicrhau bod y Model Risg yn cael ei weithredu o fewn prosesau gwasanaeth.<br>• Cefnogi datblygiad y Model Risg o fewn goruchwyliaeth feirniadol a myfyriol.<br>• Er gwaethaf yr anghysondeb o ran ymarfer, mae gennym dystiolaeth gadarnhaol o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd gan arwain at well canlyniadau. Gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o 102 ym Mawrth 2017 i 56 ar y gofrestr ar 31ain Awst, 2017, sef gostyngiad o 55%.<br>• Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i fod yn gyson yn ystod yr 8 mis diwethaf oherwydd ein bod yn ceisio rhoi cymorth i blant barhau i fyw adref pan fo'n ddiogel i wneud hynny.<br>• Trafodaethau parhaus ynghylch y gofynion ar gyfer Adroddiadau Monitro Perfformiad o'r System Gofal Cymdeithasol newydd - WCCIS a gyflwynwyd ym mis Awst. Ni fu modd i ni ond adrodd ar 4 o'r 6 dangosydd cerdyn sgorio corfforaethol oherwydd bod angen gwneud rhagor o waith i gael darlun cywir o berfformiad presennol. Bu'r gwaith hwn yn parhau ac mae gan y Gwasanaeth gynllun gweithredu yn ei le i wella'r sefyllfa ac i ddarparu data cywir a chyfredol i'w ystyried.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Archwiliadau – ffeiliau achosion a thematig – fesul gwasanaeth ac amlasiantaethol – wedi'u cynnal yn ystod y mis. Mae'r llwythi achosion ar gyfer y tîm rheng flaen yn parhau i fod yn uwch nag y byddai'r tîm rheoli gwasanaeth yn ei ddymuno, mae | | | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 46 | | tystiolaeth o archwiliadau'n awgrymu fod ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Fframwaith Drafft ar gyfer Gwella Ansawdd Ymarfer wedi'i ddatblygu ar gyfer ymgynghori.<br>• Mae'r UDRh yn ystyried canfyddiadau adroddiad ansawd Ch1 – yn argymell blaenoriaethu gwelliannau o ran arferion asesu.<br>• Wedi herio a chefnogi gweithwyr unigol i wella eu hymarfer<br>• Dogfen Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 Gwaith archwilio ffeiliau achos wedi'i gwblhau ar y meysydd ymarfer a ganlyn: archwiliad camu i lawr LAC, adroddiad ar gyfer y panel lleoli, archwiliadau ffeiliau achos misol wedi'u cynllunio gan Reolwyr Timau, archwilio ymatebol (cwynion Cam 2) a phenderfynu cychwynnol, sgrinio, trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth ac asesu syml. Barnau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso adolygiadau rheoli a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod ymarfer yn dal i fod yn anghyson, fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arfer dda y mae AGC wedi cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r canlyniad a fynnir ar gyfer y plentyn/plant a'u teuluoedd.<br>• Roedd AGC wedi tracio dau achos – 'Darllenwyd ffeiliau achos, cyfwelwyd gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr a theuluoedd. Darparodd yr achosion dystiolaeth o ganlyniadau da i deuluoedd. Defnyddiwyd ystod dda o wasanaethau yn effeithiol. Roedd y gweithwyr cymdeithasol a gyfwelwyd yn llawn cymhelliad ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roeddynt yn cyflawni lefel uchel iawn o ymgysylltu gyda'r teuluoedd. Roedd y teuluoedd yn frwdfrydig ac yn cael cymorth i fynd i'r afael â phatrymau ymddygiad a oedd wedi gwreiddio'n ddwfn o ran camddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cefnogi'n dda ond nid bob amser drwy oruchwyliaeth ffurfiol'.<br>**Roedd Achos 2 yn darparu tystiolaeth o:**<br>'Ddefnydd da o systemau a gwasanaethau. Ystod dda o wasanaethau - LAC, Trais Domestig, FGC mewn cynllunio, asesiad therapiwtig gwasanaeth arbenigol. Mae anghenion plant a theuluoedd wedi'u diwallu. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn fedrus, yn gallu cynnal ei pherthynas gyda'r fam a'r plant a gwneud gwaith uniongyrchol gyda'r plant. O'r trafodaethau | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 47 | | a'r ffeil, roedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran newid disgwyliadau'r fam, ei meddyliau a'i hymddygiad.'<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu.<br>**Dyma'r Themau Allweddol:**<br>Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella<br>Defnydd wedi cynyddu o ran offeryn Risk 2<br>Cyfarfodydd Strategaeth amserol<br>Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg<br>Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau<br>Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio).<br>Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn.<br>• Mae canllawiau ymarfer Teulu Môn yn cael eu datblygu gan y Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar.<br>• Comisiynwyd Bruce Thornton i lunio Arweiniad ar Gadw Cofnodion a Gwneud Penderfyniadau.<br>• Mae ansawdd yr ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Mae canllawiau ymarfer amlasiantaethol wedi'u cwblhau a fydd yn cael eu cadarnhau yn y Grŵp Diogelu Cyflawni Lleol ym mis Hydref, meysydd a gynhwysir yw:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru.<br>Rhan 4 AWCPP2008<br>Gwneud Atgyfeiriadau<br>• Lluniwyd dogfen ddrafft sy'n nodi'r dull gweithio ar gyfer y gwasanaeth (cyfathrebu ar y cyd, cyd-gynhyrchu ac asesu risg). Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae'r gwasanaeth wedi ystyried yr angen i wella ymarfer o ran ffurfio asesiadau o ansawdd da ynghyd ag ymateb i'r gofynion o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weithio ar y cyd gyda phlant a theuluoedd. Mae'r ddogfen hon yn | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 48 | | nodi gweledigaeth y gwasanaeth o ran sut y byddwn yn asesu risg, yn cyd-gynhyrchu ac yn cynnal cyfathrebu ar y cyd gyda phlant a theuluoedd ym Môn.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: Archwilio ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiad ar gael ddiwedd Gorffennaf.<br>• Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br>• Mae ansawdd ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Sesiwn ar gyfer staff wedi'i gynnal ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol i drafod safonau ymarfer, ynghyd â gofyn i staff am syniadau o ran beth fyddai'n eu helpu i wella eu dulliau gweithio.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Yr Uned Hyfforddi wedi trefnu hyfforddiant i'r holl staff gofal cymdeithasol ar:<br>Asesu Gofalwyr yn y tymor hir<br>Gweithredu'r Fframwaith Cynefino ar gyfer Gofalwyr Maeth<br>Newid Diwylliant a Mesur Perfformiad yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant<br>Cyfathrebu Cydweithredol / sgyrsiau sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau<br>Templedi rhanbarthol – gan gynnwys Asesu, Beth sy'n Bwysig, 5 maes asesu, cynluniau Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer Rheolwyr<br>Darparu Adborth Adeiladol a Rheoli Sgyrsiau Anodd<br>Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer staff<br>Hyfforddiant Teuluoedd Gwydn GICD (gan gynnwys Therapi Byr sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau a Chyfweld Ysgogiadol<br>Cyfathrebu Cydweithredol – dilyn i fyny<br>Diogelu Cyffredinol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol<br>Model Risg<br>Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chyfweliadau ar gyfer Dychwelyd Adref<br>Cyfweld Ysgogiadol | | | | | |
| 2.2 | Argymhelliad 3 AGC: | **<u>Chwefror - Mawrth 2018</u>**<br>**Gweler 2.1** | Dengys archwiliadau bod angen i ni wella ein trefniadau ar gyfer: | **Heb eu gwneud hyd yma** | Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Parhau |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 49 | Bydd uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran:<br>1. ansawdd,<br>2. cysondeb, ac<br>3. amseroldeb<br>ymholiadau amddiffyn plant.<br><br>Datblygu Canllaw Ymarfer rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau. | • Ni chafodd y canllawiau Amlasiantaethol eu cymeradwyo gan LDG Gwynedd a Môn ac o'r herwydd cânt eu defnyddio fel dogfen ar gyfer CSYM yn unig. Maent wedi cael eu cyfieithu a byddant yn cael eu lansio yn ystod ch1 2018/19. Mae'r canllawiau o ran y trothwyon ar gyfer ymchwiliadau wedi cael eu hanfon at Grŵp Polisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Hyd yma, nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol.<br><br>• Rydym wedi gweithio gydag is-grŵp o BDPGC i ddatblygu ymagwedd ranbarthol tuag at hyfforddiant JIT.<br><br>• Bydd Is-grŵp Polisi a Protocol Gogledd Cymru yn trafod y protocol ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant ar ddiwedd Ebrill er mwyn penderfynu a fydd yn cael ei gymeradwyo ar draws y rhanbarth.<br><br>• Bydd trefniadau hyfforddiant yn awr yn cael eu trefnu ar sail amlasiantaethol.<br><br>• Mae'r ddau Reolwr Gwasanaeth ar gyfer Ymyrraeth Gynnar a Dwys wedi sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda'r Heddlu sy'n caniatáu ar gyfer trafodaethau agored a gonest er mwyn datrys unrhyw faterion gweithredol<br><br>**<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Yn dilyn dadansoddi atgyfeiriadau CID 16, mae gwaith yn parhau rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.<br>• Trafodaeth ynghylch arbrofi gyda threfniadau ar gyfer nifer o fesurau i wella llif ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng y naill asiantaeth a'r llall.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod tystiolaeth anghyson yn nhermau'r gwelliant o ran ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant. Daeth archwiliad o'r 'pellter a deithiwyd' i'r casgliad y cafwyd gwelliant o ran presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth a bod y cyfarfodydd strategaeth yn amserol. Fodd bynnag, daeth Archwiliad o Ffeil Achosion | - Cofnodion Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth<br>- Sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn rhan o'r Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth<br>- Sicrhau gwell trosolwg o ymchwiliadau a47<br>- Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae ymchwiliadau a47 yn ei olygu<br>- Darparu hyfforddiant a thempled adrodd diwygeidig sy'n ymgorffori Model Risg Gwynedd/Thornton. | Archwiliadau rheolaidd yn yn digwydd, fodd bynnag, nid ydynt yn adrodd ar gwelliant yn ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant gan arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn cael arweiniad cliriach a bod ganddynt well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau oherwydd gweithrediad y Canllawiau Ymarfer. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 50 | | (Gorffennaf) ac adolygiad rheoli i'r casgliad, mewn sawl achos, bod archwilwyr wedi mynegi pryder am drafodaethau neu gyfarfodydd strategaeth o ran:<br>• Nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal mewn modd amserol – e.e. ni chynhaliwyd un tan 3 wythnos ar ôl gwneud penderfyniad i'w gynnal.<br>• Mae cofnodion o'r trafodaethau'n annigonol – h.y. yn rhy gryno.<br>• Ceir cyfeiriadau at yr angen am gyfarfodydd strategaeth dilynol ond heb dystiolaeth o'u cynnal.<br>• Adlewyrchir hyn yn Archwiliad Thematig Rhan 4, ynghyd ag adolygiad o blant sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Plant – mae prosesau penderfynu, oediadau a diffyg cynlluniau clir a'u dilyn trwodd yn faterion a nodwyd.<br>• Cynhaliwyd trafodaethau lefel uchel rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaethau Plant ynghylch peilota hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Amlasiantaethol. Bydd hyn yn cael ei yrru yn ei flaen ymhellach ym mis Tachwedd.<br>• Mae'r Heddlu yn gwneud cynnydd gyda'u dadansoddiad o CID 16's, ac yn awgrymu mai'r cam nesaf fydd i'r ddau dîm gyfarfod i gymharu eu casgliadau.<br>• Mae canllawiau ymarfer amlasiantaethol drafft wedi'u cwblhau gan gynnwys:<br>• Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>• Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>• Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>• Rhan 4 AWCPP2008<br>• Gwneud Atgyfeiriadau<br>• Bydd y canllawiau amlasiantaethol yn cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ym mis Rhagfyr, ac yn cael eu defnyddio gan yr adrannau Tai ac Addysg a gan asiantaethau sy'n bartneriaid mewn perthynas â'r broses ddiogelu. Yn ogystal, trafodir y canllawiau yn yr Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol er mwyn eu defnyddio ar lefel ranbarthol. Datblygir cynllun hyfforddiant i sicrhau bod trefniadau yn eu lle i staff ddefnyddio'r Canllawiau Ymarfer | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 51 | | **Awst 2017**<br>• Rydym wedi cyfarfod â'r hyb IAA cyfatebol yng Nghynghorau Sir Conwy a Sir y Fflint er mwyn archwilio opsiynau a rhannu eu profiadau. Mae'r ymweliad â Chonwy a Sir y Fflint wedi ein cynorthwyo i ffurfio cenhadaeth gliriach ar gyfer ein IAA ein hunain.<br>• Wedi datblygu cwmpas y gwaith gyda'r heddlu ar yr archwiliad ar y cyd a gwelliant o ran atgyfeiriadau, cyfarfodydd Strategaeth ac archwiliadau Adran 47.<br>• Cynhaliwyd archwiliad ar bob un o'r 81 atgyfeiriad a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant oddi wrth Uned Diogelu'r Cyhoedd yn ffurf CID 16's rhwng y 1[af] a'r 14[eg] o Fehefin 2017. Ystyriwyd nad oedd 20 o'r atgyfeiriadau'n glir o ran y rheswm dros rannu'r wybodaeth. O'r 81, dim ond saith oedd yn nodi beth fyddai'r canlyniad disgwyliedig ar gyfer yr atgyfeiriad. Dim ond 15 atgyfeiriad oedd yn cynnwys llais y plentyn. Rhaid i Uned Diogelu'r Cyhoedd sicrhau eu bod yn fwy penodol o ran pam maent yn atgyfeirio'r wybodaeth ac ni ddylent atgyfeirio dim ond oherwydd bod plant yn gysylltiedig â'r oedolion dan sylw.<br>• CSE a Chyfweliadau Dychwelyd Adref ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae gwaith yn cael ei wneud i wella perfformiad yn y meysydd hyn gyda phartneriaid – yr Heddlu a 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu. Gweler 2.1<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae protocolau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>  • Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>  • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>  • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o brotocolau'n debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br>• Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 mewn perthynas â phob CID16 a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r | | | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyngor a deall y data ac archwilio rhannu gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod ar 26ain Mehefin.<br>• Trefnir cyfarfodydd misol rhwng y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â materion gweithredol ac i ddatblygu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, trafodaethau /cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau.<br>• PG yn cael gwybod am unrhyw anawsterau gweithredol mewn perthynas â chydweithio gyda'r Heddlu i sicrhau eu bod yn cael sylw brys ac nad yw plant yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed.<br>• Cynnal archwiliad i fonitro ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Cynhaliwyd trafodaeth gadarnhaol gyda'r Heddlu ynghylch cydweithredu. | | | | | |
| 2 | **Argymhelliad 9 AGC:**<br>Dylid sefydlu trefniadau amlasiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydlyniad effeithiol er mwyn sicrhau bod partneriaid statudol yn cwblhau 'Fframweithiau Asesu ar y Cyd'.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol – cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | **<u>Chwefror-Mawrth 2018</u>**<br>• Mae cyfarfodydd amlasiantaethol yn parhau i gael eu cynnal rhwng y Gwasanaethau Plant, Heddlu, Addysg, Iechyd a CAMHS i gytuno ar faterion gweithredol. Trafodwyd Cynllun Gweithredu i wella trefniadau Cynadleddau Achos Plant ym mis Mawrth a chytunwyd ar y modd y byddir yn symud ymlaen â hyn.<br><br>**<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Rydym wedi derbyn caniatâd gan Lywodraeth Cymru i gyfuno'r Fframwaith Asesu ar y Cyd (JAF) gyfredol efo'r ffurflen asesu gofal a chefnogaeth. Mae gwaith wedi cychwyn ar gynnwys y mesuriadau sy'n cael eu casglu yn y Fframwaith Asesu ar y Cyd. Bydd angen defnyddio'r Asesiad a'r Cynllun Gofal a Chymorth yn lle'r JAF.<br>• Mae cyfarfodydd gweithredol Aml-asiantaethol yn cael eu cynnal yn fisol gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, CAMHS, Pediatregydd ac Addysg i drafod trefniadau cydweithio i wella a chryfhau trefniadau cyfredol, e.e ansawdd y cyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Gwnaed cynned o ran gwella ansawdd a'n dealltwriaeth o'r asesiadau gofal a chymorth (Rhan 1,2,3). Mae hyn yn cynnwys y set ddata graidd, y sgwrs | | **Wedi cychwyn**<br>Gwell trefniadau diogelu amlasiantaethol sy'n arwain at well canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc<br><br>**Wedi eu cwblhau**<br>Canllaw Ymarfer amlasiantaethol sydd yn rhoi diffiniad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau lleol a threfniadau diogelu. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar | Ionawr 2017 | Parhaus o ran trefniadau aml-asiantaethol |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 53 | | 'beth sy'n bwysig' a'r asesiad gofal a chymorth. Buom yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwyster cenedlaethol ac i gael cysondeb o ran cofnodi'r meini prawf cymhwyster yn ein hasesiadau. Rydym wedi canfod dulliau cyfathrebu addas, awgrymiadau ac offerynnau i wella ansawdd y sgyrsiau 'beth sy'n bwysig', y broses benderfynu a chofnodi.<br><br>**Awst 2017**<br>• Canllawiau ymarfer wedi'u cwblhau, gweler 2.2<br>• Cyfarfodydd wedi eu cynnal efo CAFCASS a CAMHS<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Gwnaed trefniadau i gynnal grŵp tasg a gorffen amlasiantaethol o dan y grŵp cyflawni diogelu lleol i ddatblygu y canllawiau ymarfer.<br><br>**Mai 2017**<br>• Y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol wedi cytuno ar 16.2.17 y dylid cynnal cyfarfod amlasiantaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn i drafod trefniadau gwaith ac anawsterau presennol a'u dwyn i sylw'r BRhDP.<br><br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth, gweler. 3.3 (4) | | | | | |

**3. Fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Adolygu'r holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir. | **Chwefror - Mawrth 2018**<br>Mae tystiolaeth nad oes gennym gynlluniau LAC cyfredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn nifer o achosion. Nid yw'r rhain wedi cael eu sefydlu'n dilyn archwiliad cynharach ac yn dilyn cyfarwyddyd i gymryd camau i gywiro'r sefyllfa. | Sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun cyfredol<br><br>Caiff argymhellion adolygiadau LAC eu blaenoriaethu gan Weithwyr Cymdeithasol ac mae'r cyfnod o amser a gymer i gwblhau asesiadau a | Heb ei wneud eto<br>Archwiliad o ffeiliau achos yn dangos bod cynlluniau gofal gan Weithwyr Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol drwy weithredu'r Canllawiau Ymarfer. | | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 54 | Dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol o broffil plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y CAP.<br><br>Adolygu bob achos lle mae enwau plant wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am 12 mis + er mwyn penderfynu os y dylid eu trafod mewn Panel Porthgadw Cyfreithiol (achosion gofal). | • Mae'r Rheolwr Gwasanaeth, Ymyrraeth Ddwys wedi sefydlu Panel Sgriwtini Lleoliadau Maeth er mwyn monitro trefniadau camu i lawr, bod y lleoliadau'n cwrdd ag anghenion plant sy'n derbyn gofal a bod argymhellion yr adolygiad LAC yn cael eu blaenoriaethu.<br>• Sefydlwyd Panel i drafod plant sydd ar y gofrestr AP yn dilyn yr ail adolygiad (10 mis) gan y Rheolwr Gwasanaeth, Ymyrraeth Ddwys er mwyn penderfynu ar yr angen i drafod teuluoedd mewn cyfarfodydd cyn cymryd camau gofal (Panel Porth-gadw Cyfreithiol).<br><br>**<u>Tachwedd - Ionawr 2018</u>**<br>• Adolygiad o leoliadau preswyl yn mynd rhagddo.<br>• Mae Rheolwr Gwasanaeth yn cynnal cyfarfod bob mis gydag Arweinwyr Ymarfer i drafod y plant sydd wedi bod ar y Gofrestr am o leiaf 10 mis i benderfynu ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd, e.e. trafod yr achos mewn cyfarfod Porthgadw Cyfreithiol.<br>• Mae'r gwasanaeth yn edrych ar ddatblygu darpariaeth gofal yn lleol er mwyn cwrdd â'r pwysau cynyddol o ran Plant Sy'n Derbyn Gofal, e.e.:<br>**1.** Cartrefi i Grwpiau Bychan<br>**2.** Gofalwyr Maeth Cyflogedig; ac<br>**3.** Yr hyn a gynigir yn gyffredinol i ofalwyr maeth<br>Mae'r Aelodau Etholedig yn ffafrio hyn nid yn unig oherwydd cost ond, yn bwysiach, er mwyn sicrhau y gallwn gadw plant Ynys Môn yn eu cynefin, er na fyddant yn byw gyda'u teuluoedd genedigol.<br><br>Cwblhaodd y Gwasanaeth Hunanasesiad Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal ar 26 Ionawr 2018. Cynhelir y Cyfarfod Her ar 27 Mawrth 2018.<br><br>Yn ogystal, cwblhaodd y Gwasanaeth yr Adolygiad Mabwysiadu ar 25 Ionawr 2018 gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Rydym yn gweld tystiolaeth o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau – gan ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr AP o 102 ym mis Mawrth 2017 i 56 ar y gofrestr ar 31ain Awst 2017, gostyngiad o 55%.<br>• Mae gwaith wedi parhau mewn perthynas â threfniadau camu i lawr o ofal preswyl, nodwyd y bydd 3 o bobl ifanc | gwaith gweddilliol yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.<br><br>• Nod i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal drwy:<br>Ymgysylltu â theuluoedd, ffrindiau a'r gymuned yn gynt<br>Bod yn greadigol – cymorth /darpariaeth ychwanegol<br>Cwblhau Asesiadau Gofal a Chymorth manwl<br>Ymgysylltu â'r plentyn/unigolyn ifanc yn y broses Asesu<br>Gwrando ar blant a phobl ifanc<br>Cynllunio Gofal a Chymorth SMART<br>Ymyrraeth Teuluoedd Gwydn<br>• Angen symud i ffwrdd o feddwl mai'r modd gorau o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yw drwy eu rhoi mewn gofal.<br>• Mae angen mynd ati'n raddol i ddileu'r defnydd o seibiannau (dros nos) oddi wrth rieni.<br>• Pan fydd rhieni'n gofyn am gael rhoi eu plentyn/plant mewn gofal, rhaid dweud wrthynt bod rhaid gweithio drwy'r camau a nodir uchod*. | **Wedi cychwyn**<br>Gwaith dwys gyda phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd angen trefniadau 'camu i lawr' llwyddiannus yn arwain at well canlyniadau.<br><br>Y Cyngor yn cael sicrwydd bod lleoliadau yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Plant yn cael eu hadsefydlu'n ddiogel yn eu cartrefi trwy leoliadau gyda'u rhieni/cyflawni Gorchmynion Gofal.<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i argymhellion Adolygiadau LAC a bod y broses o gwblhau asesiadau a gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn digwydd yn gyflym ac yn cael ei chynnal.<br><br>Lleihad yn nifer y plant mewn lleoliadau preswyl erbyn diwedd mis Mawrth 2018 o ganlyniad i waith dwys a wnaed i'w symud i drefniadau 'camu i lawr'.<br><br>Costau a gwariant ar leoliadau costus wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i drefniadau 'camu i lawr' ar gyfer plant a phobl ifanc'.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod cynllunio gofal gan Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gwella'n sylweddol drwy weithredu'r Canllaw Ymarfer.<br><br>Mae adolygu'r plant sy'n derbyn gofal a'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn darparu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth o'u hanghenion. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r strategaeth atal a gwaith y Tîm Teuluoedd Gwydn. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | naill ai'n dychwelyd adref neu'n symud i drefniadau gofal amgen.<br>• Gwnaed gwaith pellach gan y Tîm Teuluoedd Gwydn i sicrhau dilyniant o ran atal plant rhag derbyn gofal a gwneud cynnydd o ran y trefniadau camu i lawr ar gyfer y 3 unigolyn ifanc y soniwyd amdanynt uchod.<br>• Mae camau ar waith i recriwtio i swydd gwaith cymdeithasol i ddirymu gorchmynion gofal.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Ymgymerwyd ag adolygiad o gofnodion Cynadleddau Achos ar gyfer 34 o blant – dangosodd, mewn cryn nifer o achosion nad oedd tystiolaeth i gyfiawnhau'r farn o ran niwed arwyddocaol pellach. Mae Arweinydd Ymarfer wrthi'n adolygu'r un cofnodion mewn ymgais i gadarnhau'r canfyddiadau.<br>• Atgyfeiriwyd un achos i sylw rheolwyr gan y bu'r plant ar y gofrestr am 4 blynedd. Roedd hyn yn gadarnhaol ac arweiniodd at wneud penderfyniadau, cyfeiriad a gweithredu cliriach.<br>• Mae proffil y plant ar y gofrestr AP wedi'i gwblhau, mae gwaith wedi mynd yn ei flaen i leihau nifer y plant ar y gofrestr. Nifer y plant ar y gofretsr ar 31ain Awst 2017 oedd 56, o gymharu â 102 ddiwedd Mawrth 2017, gostyngiad o 55%. Mae Arweinydd Ymarfer wedi'i ganfod i roi sylw i welliannau o ran ansawdd y gwaith mewn perthynas â chynadleddau AP a lleihau'r cyfnod amser y mae plant yn aros ar y gofrestr.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar ddeall a herio "cyfnodau rhybudd" a roir gan ddarparwyr gofal.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar herio Ansawdd y lleoliadau a gynigir.<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi'i benodi ac rydym wedi dechrau gweithio o dan y model Teuluoedd Gwydn gyda theuluoedd.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Yr holl blant sy'n derbyn gofal wedi'u hadolygu a phlant sydd angen trefniadau 'Camu i Lawr' wedi'u hadnabod.<br>• Y Pennaeth Gwasanaeth yn cadeirio grŵp – panel adolygu mewnol ar gyfer lleoliadau preswyl:<br>Sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cyflawni eu canlyniadau llesiant i sicrhau bod argymhellion adolygiadau LAC yn cael eu gweithredu ac i sicrhau gwerth am arian.<br>• Swyddi Tîm Teuluoedd Gwydn wedi cau erbyn hyn.<br>• Angen cryfhau cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drwy ddatblygu canllawiau ymarfer ychwanegol.<br>• Polisi Parhad yn cael ei adolygu ar hyn o bryd | | | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Rydym wedi cychwyn ymarfer yn wahanol ac yn fwy dwys efo nifer fechan o deuluoedd yn dilyn model tebyg i waith y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Dyma'r gwaith y bydd y Tîm Teuluoedd Gwydn yn ei wneud i roi cymorth i blant sy'n byw adref: gan atal yr angen am lety a rhoi cymorth ar gyfer cynlluniau i ddychwelyd adref.<br><br>**Mai 2017**<br>• Rheolwyr Tîm i gadarnhau erbyn Mawrth 2017 pa blant / pobl ifanc fydd yn cael cynlluniau gofal a chymorth 'camu i lawr'.<br>• Daethpwyd i gytundeb erbyn mis Mawrth 2017 ynghylch y tasgau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a'r gwaith dwys y mae angen ei wneud gyda phlant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod trefniadau 'camu i lawr' yn llwyddiannus.<br>• Swyddi o fewn y Tîm Teuluoedd Gwydn a phenodiadau wedi eu gwneud erbyn Mai 2017.<br>• Cryfhau'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy ddatblygu Canllawiau Ymarfer ychwanegol. | | | | | |
| 3 | Cryfhau ac ymgorffori'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd o fewn y Gwasanaeth, trwy:<br>1. SAA a CAP i adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o berfformiad gweithredol cynadleddau ac adolygiadau.<br>2. SAA a CAP i ddwyn sylw, ar sail thematig, at faterion yn ymwneud ag ansawdd a dysgu ar gyfer y Gwasanaeth.<br>3. Rheolwyr i gynnal archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>• Oruchwylio<br>• Cofnodi<br>• Asesu<br>• Ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant<br><br>Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr i gael eu monitro yn barhaus.<br><br>Argymhelliad 13 AGC: Mae angen gwreiddio trefniadau rheoli | **Chwefror - Mawrth 2018**<br>• Mae'r archwiliadau systematig a chynlluniedig wedi parhau: ac mae modd i ni ddangos sut mae'r rhain yn arwain at gamau cywiro a gwaith gwella.<br>• Mae elfennau eraill o'r fframwaith Ch1 wedi cael eu gweithredu – Arsylwi Ymarfer a Chyfarfodydd<br>• Parhau i ddarparu hyfforddiant a mentora ynghylch Modelau Risg<br>• Wedi cwblhau'r Safonau Ymarfer<br>• Wedi penodi i swydd allweddol – Swyddog Gwella Ansawdd ac Ymarfer a fydd yn gwella gallu'r uned i symud ymlaen yn gyflymach gyda'r gwaith dysgu a gwella – cylchoedd dysgu, cyfarfodydd proffesiynol dros ginio, setiau dysgu gweithredol ac ati<br>• Mae gan IRO/CPC rôl sicrwydd ansawdd well gyda hynny'n arwain at ddysgu a gwella ansawdd ymarfer<br>• Wedi adolygu Gweithdrefnau'r Gwasanaethau Plant a hynny wedi dangos bod angen eu hail-ysgrifennu mewn sawl maes<br><br>**Tachwedd - Ionawr 2018**<br>• Mae llai o gydymffurfiaeth ymysg rheolwyr ac Arweinwyr Ymarfer o ran yr angen i gwblhau archwiliadau mewn dull cynlluniedig.<br>• Mae'r Uned Ddiogelu wedi bod yn gweithio ar ddau o adroddiadau thematig yn ystod y cyfnod hwn – a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i adroddiad Ch3. Mae hyn | ▪ Adolygu Cynllun Archwilio mewn llinell efo Cynllun Gwella Gwasanaeth 2018/19<br>▪ Darparu teclynnau, cefnogaeth a hyfforddiant i staff i weithredu y fframwaith<br>▪ Symud ymlaen ar gyflymdra gwell y gwaith dysgu a gwella- cylchoedd dysgu, cyfarfodydd proffesiynol amser cinio, setiau dysgu gweithredu ayyb<br>▪ Penodi i'r 1.5 swyddi gwag yn yr uned<br>▪ Cwblhau'r safonau IRO/CPC<br>▪ Cytuno ar y modd yr ydym yn adolygu/ailysgrifennu'r Gweithdrefnau gan gynnwys a fedrai gweithio gyda Gweithdrefnau Ar Lein fod yn ffordd ymlaen er mwyn sicrhau mynediad a diwygio cyfredol ar sail barhaus<br><br>• Canllawiau i gael eu datblygu mewn perthynas â rheoli llwyth achosion i sicrhau bod digon o | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>WCCIS yn cefnogi rheoli perfformiad a rheoli llwyth achosion drwy nodweddion 'adrodd' hwylus sydd ar gael i Reolwyr.<br><br>Mae gan weithwyr gapasiti digonol i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd oherwydd bod Rheolwyr yn gweithredu'r Canllawiau llwyth achosion.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Mae adroddiadau sicrwydd andawdd ac archwiliadau o ddeiliau achos yn digwydd ac yn dangos bod ymarfer yn symud ymlaen tuag at wella er bod hynny'n anghyson.<br><br>Cynnydd o ran sicrhau bod gan yr IRO/CPC well rôl o safbwynt sicrwydd ansawdd gan arwain at ddysgu a gwelliant yn ansawdd yr ymarfer.<br>SA a'r Uned Ddiogelu i yrru gwelliant a newidiadau i ymarfer ar draws y Gwasanaeth drwy ddysgu o adroddiadau thematig ac ansoddol.<br><br>**Wedi Cyflawni**<br>Adroddiadau ansoddol rheolaidd ac amserol yn cael eu cyflwyno yn ddi-oed i'r tîm | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

Tudalen 56

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 57 | perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys sgriwtineiddio’r galw am wasanaethau ac archwiliadau rheolaidd o ansawdd ymarfer, fel bod rheolwyr ar bob lefel yn cael gwybodaeth amserol a pherthnasol o safon uchel am berfformiad a sicrwydd ansawdd i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau<br><br>Argymhelliad 14 AGC: Dylai Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr gael eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. | yn cryfhau’r trosolwg a’r adolygiad o swyddogion annibynnol ac yn rhoddi yn ei lle elfen arall o’r Fframwaith IQ.<br>• Mae cynllun gweithredu ar gyfer gweddill elfennau’r IQF wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rheolwyr ac arweinwyr ymarfer; a bydd angen i hyn gael ei gymeradwyo gan Dîm Rheoli’r Gwasanaeth yn ei gyfarfod nesaf.<br>• Mae rheolwr interim wedi cael ei benodi i ddarparu capasiti ychwanegol fel y gellir datblygu’r gwelliannau mewn modd cynlluniedig a systematig. Mae’r swydd Sicrwydd Ansawdd wrthi’n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.<br>• Bydd yr holl achosion a ddyfarnwyd yn ‘annigonol’ mewn archwiliadau blaenorol yn cael eu hadolygu gan y rheolwr interim.<br>• Canllawiau wedi cael eu datblygu i gefnogi Sylwebaeth Ymarfer: allan i ymgynghori gyda’r Arweinwyr Ymarfer ar hyn o bryd.<br>• Parhau i ddarparu Hyfforddiant a Mentora ar y Model Risg.<br>• Grŵp Ymarfer Da wedi cael ei sefydlu i yrru gwelliant a’r newidiadau i ymarfer ar draws y Gwasanaeth drwy ddysgu o adroddiadau thematig/ansoddol. Mae hyn angen amser i sefydlu a chael effaith.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Cymeradwywyd y Fframwaith Gwella Ansawdd gan y Tîm Rheoli Gwasanaeth yn dilyn cyfnod o ddatblygu, ymgynghori a chydweithredu. Nod y fframwaith yw’r ymagwedd y bydd y Gwasanaethau Plant yn ei gymryd i sicrhau eu bod yn<br>  • Darparu ymarfer diogel a phroffesiynol<br>  • Rhoi cymorth i’r plant/oedolion iawn, yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn<br>  • Gwerthuso p’un a ydyw’n gwneud gwahaniaeth i wella ymarfer<br>  • Darparu cyd-destun proffesiynol sy’n cefnogi dysgu, myfyrio, didwylledd a herio cefnogol<br>  • Mynd â’r agenda wella y tu hwnt i gydymffurfio gyda gweithdrefnau i ymrwymiad i wella ansawdd yr ymarfer gwaith cymdeithasol a ddarperir i blant, eu teuluoedd a’u gofalwyr.<br><br>• Mae sawl elfen allweddol o’r fframwaith yn ei lle –<br>  • Cyfathrebu a sicrhau deialog a rennir ynghylch ansawdd<br>  • Grŵp gwella ymarfer : rhannu Lledaenu: deialog a rennir<br>  • Cydgynhyrchu safonau | gapasiti i weithwyr fedru ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd –<br><br>**Camau nesaf**<br>▪ Mae risg ein bod yn canolbwyntio ar werthuso ar draul gwella. Rhaid i ni sicrhau capasiti digonol o fewn yr uned i fwrw ymlaen â’r gwaith o wneud gwelliannau mewn modd systematig sydd wedi’i gynllunio.<br>▪ Gweithredu’r elfennau sy’n weddill o broses Gwerthuso Ansawdd y fframwaith dros gyfnod o amser: gwreiddio bob elfen ac adeiladu ar y sylfaen hwnnw. Rhaid i ni sicrhau capasiti digonol o fewn yr uned i fwrw ymlaen â’r gwaith.<br>▪ Darparu offerynnau, cymorth a hyfforddiant i staff weithredu’r fframwaith.<br>▪ Cwblhau’r adolygiad o waith yr Uned Gwella Ansawdd i gefnogi gwella Ansawdd.<br>▪ Diwygio’r Cynllun Archwilio’n unol ag Adroddiad Gwerthuso Cryno Ch2.<br>▪ Parhau i ddarparu Hyfforddiant a Mentora yng nghyswllt y Model Risg.<br>▪ Ailymweld ag achosion mis Tachwedd/Rhagfyr y barnwyd eu bod yn annigonol mewn archwiliadau blaenorol. Angen capasiti. | arweinyddiaeth gan gynnwys aelodau. Rydym yn gallu dangos sut mae’r rhain yn arwain at gamau cywirol a gwaith gwella.<br><br>Fframwaith a thecylynnau ar gyfer llywodraethiant a threfniadau sgriwtini strwythuredig drwy archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achos.<br><br>Wedi cwblhau Canllawiau Ymarfer. | | | |

Tudalen 58

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu<br>• Darparu canllawiau a gweithdrefnau ymarfer<br>• Recriwtio a chadw'r bobl iawn<br>• Disgwyliadau o ran Goruchwyliaeth<br>• Disgwyliadau o ran Trosolwg gan Reolwyr<br><br>• Mae'r broses archwiliadau o ffeiliau achosion ac Archwiliadau Amlasiantaethol yn ymwreiddio o fewn y gwasanaeth.<br>• Mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi penderfynu sefydlu panel sgriwtini o fewn y gwasanaeth i gynnal trosolwg o ran cynllunio ar gyfer parhad.<br>• Mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd yn argymell sefydlu cofnod argymhellion a her SAA. Mae archwiliadau wedi dangos, mewn achosion lle cafwyd oedi o ran bwrw ymlaen â chynllun gofal a chymorth plentyn (o dan ran 6) y bu'r SAA yn argymell camau i gyflawni parhad. Ni wnaed cynnydd o ran yr argymhellion hynny.<br>• Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw asesiadau Gwaith Cymdeithasol - integreiddio'r model risg mewn ymarfer a sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gylchredeg o fewn y gwasanaeth.<br>• Mae Bruce Thornton wedi'i gomisiynu i ddarparu rôl fentora/hyfforddi o fewn y gwasanaeth i sicrhau bod y Model Risg yn cael ei wreiddio o fewn ymarfer.<br>• Cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus gyda staff yn ymrwymo i'r weledigaeth yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymagwedd wahanol. Roedd moral staff yn dda ac roeddynt o'r farn ei bod yn braf clywed am yr ymagwedd newydd. Rhoir sylw ar y swyddogion yn adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o'r perfformiad gweithredol drwy gynadleddau ac adolygu, gan amlygu, yn ôl themâu, y materion yng nghyswllt ansawdd a dysgu ar gyfer y Gwasanaeth. Maent wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar adroddiad ar y diffyg paratoi, adroddiadau a chynlluniau ar gyfer adolygiadau a chynadleddau. Byddant hefyd yn awgrymu camau gwella.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Wedi penodi Swyddog Cymorth Busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Chynadleddau Achos<br>• Wedi hysbysebu swydd y Cydlynydd Gwella Ymarfer, sef y 'Rheolwr Sicrwydd Ansawdd' gynt.<br>• Bu rheolwyr yn ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o'r meysydd sydd o dan sylw i fonitro ansawdd perfformiad gweithwyr. | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mae archwiliadau pellach o'r broses benderfynu yn dangos gwelliant o ran ymarfer. Gweler 2.1<br>• Archwiliadau – ffeiliau achosion a thematig – fesul gwasanaeth ac amlasiantaethol – wedi'u cynnal yn ystod y mis.<br>• Fframwaith ar gyfer Gwella Ansawdd Ymarfer wedi'i ddatblygu mewn ffurf drafft ar gyfer ymgynghori.<br>• UDRh yn ystyried canfyddiadau adroddiad ansawdd Ch1 – yn argymell blaenoriaethu gwelliannau o ran ymarfer asesu.<br>• Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>▪ Mae'r gwaith sicrwydd ansawdd yn Chwarter 1 wedi cynnwys:<br>Dadansoddiad proffil Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Awdit o Ffeiliau Achos<br>Dadansoddi Llwyth Achosion<br>• Recriwtio i'r swydd cefnogi busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Cynadleddau Achos erbyn diwedd mis Gorffennaf.<br>• Penodiad i'r swydd Swyddog Adolygu Annibynnol wedi'i wneud ym mis Gorffennaf.<br>• Mwy o ddatblygiadau wedi digwydd mewn perthynas â'r awdit sicrhau ansawdd amlasiantaethol efo Addysg a'r Bwrdd Iechyd i wella ansawdd cyfeiriadau a gwybodaeth sy'n cael eu rhannu efo asiantaethau sy'n bartneriaid.<br>• Mae arian ychwanegol wedi ei gytuno i ailsefydlu'r swydd Rheolwr Sicrhau Ansawdd, cafodd y swydd ei hysbysebu ond wedi methu penodi.<br>• Awdit o Achosion 'Public Law Outline' wedi ei orffen<br><br>**Mai 2017**<br>• Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Gwasanaethau Plant.<br>• Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd wedi cael ei gytuno ar gyfer y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>Oruchwylio<br>Cofnodi<br>Asesu<br>• Adroddiadau Sicrwydd Chwarterol i'w trafod yn y cyfarfod Rheoli Gwasanaethau Plant a Grŵp Gwella Ymarfer i'w sefydlu i fwrw ymlaen â gwelliannau o ran ymarfer.<br>• Rheolwyr i ddarparu adroddiadau misol i reolwyr gwasanaeth a'r PG ar y prif bwyntiau o ran ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | iddynt fedru ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. | | | | | |
| 3.3 | Datblygu'r fframwaith perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gynnwys:<br>1. Dangosyddion perfformiad Amlinellol wedi eu rhannu'n berfformiad Cenedlaethol, Corfforaethol a Gwasanaeth.<br>2. Trefniadau llywodraethu i gynnwys adrodd, atebolrwydd a mecanwaith i yrru gwelliant.<br>3. Gwelliant parhaus wedi ei ymgorffori yn y fframwaith.<br>4. Fframwaith i ddarparu tystiolaeth o ansawdd ymarfer a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth.<br>5. Angen gwelliant mewn meysydd perfformiad blaenoriaeth sydd y tu hwnt i'r lefel dderbyniol a thargedau:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant LAC<br>• Ymweliadau Plant LAC<br>• Ymweliadau plant ar y gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd<br>• Cynlluniau Llwybr<br>Byddir yn dod â'r rhain yn ôl o fewn y targed. | **<u>Chwefror-Mawrth 2018</u>**<br>• Mae'r Rheolwr Gwasanaeth a'r Arweinydd Ymarfer o'r Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys yn cyfarfod bob mis gyda'r swyddog data perfformiad er mwyn sicrhau bod y data'n gywir mewn perthynas â DP ac ymweliadau LAC a'r Grŵp Craidd.<br><br>• Grwpiau Ymarfer yn cyfarfod yn rheolaidd a Chyfarfodydd Gwasanaeth yn parhau i gael eu cynnal yn fisgol gyda staff er mwyn dweud wrthynt am yr angen i sicrhau bod gan yr holl achosion sydd ar agor:<br>• Gynllun Gofal a Chymorth<br>• Cynllun Amddiffyn Plant<br>• Cynllun Gofal LAC<br>• Cynllun Llwybr ac<br>• Asesiadau cyfredol<br><br>**<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Cynllun gweithredu yn parhau i fod yn ei le fel mesur dros dro i gasglu gwybodaeth ac adrodd ar DP<br>• Rydym yn parhau i weithio ar ddulliau o gael i mewn i adroddiadau ar WCCIS – mae hon yn broblem ar gyfer y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol sydd wedi mynd yn 'fyw' ar y system newydd ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Ceredigion yn benodol i'n cynorthwyo yn hyn o beth. Ymddengys bod problem yn genedlaethol i'r holl Awdurdodau Lleol o ran cysondeb dehongliad ac adroddiadau yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad newydd a gyflwynwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Derbyniwyd llythyr dyddiedig 25 Hydref gan Glyn Jones, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. Dygodd y llythyr hwn sylw at y ffaith bod dynodiad Ystadegau Cenedlaethol wedi cael ei dynnu'n ôl am gyfnod dros dro ar gyfer cyhoeddiadau Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data yr adroddwyd arno'n dilyn cyflwyno WCCIS.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>** | • Bydd Rheolwr Prosiect Allanol yn cychwyn gweithio gyda'r Gwasanaeth i sgopio'r hyn sydd ei angen o'r System ac i edrych ar y nodau tymor hir o ran y defnydd gorau o'r dechnoleg er enghraifft.<br>• Bydd Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Yn gyffredinol, gwelliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau ar gyfer plant/pobl ifanc.<br><br>Gwelliant o ran lefel dealltwriaeth y staff o ddangosyddion perfformiad a'r cysylltiad clir gydag ansawdd ac phrydlondeb ymarfer. Mae hyn yn arwain at welliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau i blant / pobl ifanc - un dangosydd yw gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Cryfhau'r trefniadau adrodd a monitro mewn perthynas â gwybodaeth am Berfformiad.<br><br>Gwybodaeth perfformiad yn dangos gwelliant mewn perfformiad i lefelau derbyniol:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Ymweliadau Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Ymweliadau plant ar y Gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd<br>• Cynlluniau Llwybr | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Mawrth 2017 | Hydref 2017<br><br>Oherwydd y Dangosyddion Perfformiad a'r problemau gydag adrodd o WCCIS |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 61 | | • Mae Cynllun Gweithredu yn ei le fel cam dros dro i adrodd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad hyd nes y gellir eu cael o'r system WCCIS. Buom yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Trawsnewid Corfforaethol ar y mater hwn mewn perthynas â chryfhau'r trefniadau adrodd a monitro.<br>• Rydym yn ysgrifennu'r sgriptiau i gael mynediad i adroddiadau o'r WCCIS – mae hyn yn broblem i'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol sydd wedi mynd yn 'fyw' ar y system newydd, ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Ceredigion yn arbennig i'n galluogi i wneud hyn.<br>• Buom yn edrych yn fanwl ar un o'r dangosyddion, % y plant sy'n derbyn gofal a welwyd o fewn amserlenni statudol, ac rydym yn amau efallai na fu'r data a gasglwyd gennym a'r dadansoddi yn gywir, sydd wedi arwain at berfformiad sy'n ymddangos yn waeth nag ydyw mewn realiti. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r materion hyn.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Rydym yn parhau i herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br>• Gwnaed cryn welliant o ran ymweliadau adolygiadau LAC ar gyfer Awst ar ôl adolygu sut yr oedd y dangosyddion yn cael eu mesur. Mae 86% o ymweliadau'n cael eu cynnal o fewn yr amserlen.<br>• Rydym bellach yn blaenoriaethu dangosyddion mewn perthynas ag Adolygiadau LAC, ymweliadau LAC, ymweliadau AP, cyfarfodydd grŵp craidd. Byddwn yn canolbwyntio ar Amserlenni, Pwrpas, Recordio a Pherfformiad.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Wedi herio a chefnogi gweithwyr unigol i wella ymarfer<br>• Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>• Mae safonau gwasanaeth yn cael eu datblygu i sicrhau arfer dda mewn perthynas â pherfformiad allweddol sydd y tu hwnt i'r lefel dderbyniol a thargedau.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>▪ Comisiynu arbenigedd allanol ym mis Mai 2017 / Mehefin i ddatblygu'r fframwaith perfformiad ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion<br>▪ Bydd system dracio fanylach yn cael ei datblygu, wedi ei selio ar arfer dda o fannau eraill; wedi'i chyfuno â | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | strwythur newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant, bydd yn galluogi Rheolwyr Timau/Arweinwyr Ymarfer i sicrhau fod ymweliadau'n cael eu cynnal pan fo staff yn absennol o'r gwaith (p'un a ydynt ar wyliau blynyddol neu'n absennol oherwydd salwch). | | | | | |
| 3.4 | Argymhelliad 2 AGC: Sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant amlasiantaethol i sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesiadau gwasanaethau plant statudol ac y glynir wrth trothwyon hynny'n gyson.<br><br>Datblygu protocol ar gyfer trothwyon amddiffyn plant amlasiantaethol a bod y protocol hwnnw'n ymgorffori canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - trothwy atgyfeirio y cytunwyd arno, trothwy asesu, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | **<u>Chwefror - Mawrth 2018</u>**<br>**<u>Gweler hefyd 2.1 & 2.2</u>**<br><br>• Rydym wedi cytuno i gadeirio Grŵp Archwilio ac Ansawdd Gwynedd a Môn (NWSCB) er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud o fewn y trefniadau llywodraethiant/partneriaeth perthnasol<br>• Wedi cytuno i ychwanegu at gapasitio'r uned a fydd yn cefnogi'r broses o gynnal gwerthusiadau amlasiantaethol<br>• Cyflwyno MAPF 1 & 2 i'r LDG – tystiolaeth o dryloywder a pharodrwydd i ddysgu y naill gan y llall<br>• NWSCB yn datblygu ymagwedd ranbarthol tuag at hyfforddiant JIT: rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn.<br><br>**<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Mae'r Rheolwr Gwasanaeth wedi cyflwyno papur i Grŵp Cyflawni Lleol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (NWSCB) o ran y modd y gall ddatblygu ei drefniadau i sefydlu systemau sicrwydd ansawdd amlasiantaethol. Mae'n hanfodol bod y datblygiadau hyn yn digwydd dan lywodraethiant y bwrdd.<br>• Wedi cynnal 2 MAPF yn ystod y cyfnod – sydd wedi nodi gwersi defnyddiol a ddysgwyd ar sail amlasiatnaethol. Caiff y rhain eu cyflwyno i Grŵp Cyflawni Lleol yr NWSCB yn ystod y Chwarter hwn.<br>• Canllawiau Ymarfer wedi cael eu datblygu ond heb eu cymeradwyo eto gan Grŵp Cyflawni Lleol yr NWSCB. Maent wedi eu cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio yn CSYM.<br>• Archwiliad CID16 gyda'r Heddlu – dangos y materion y mae angen eu datrys o ran y gwahaniaeth rhwng rhannu gwybodaeth/gwiriadau diogelwch/gwneud cyfeiriad. Angen cytuno ar yr adroddiad gyda'r Heddlu cyn ei gyflwyno i Dîm Rheoli'r Gwasanaeth.<br>• Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol wedi eu cytuno gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar 8 Rhagfyr 2017.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>** | **Camau nesaf**<br>▪ Datblygu Grŵp Archwilio a Sicrwydd Gwynedd a Môn yn unol â'r Cylch Gorchwyl newydd a fydd yn sicrhau bod gennym system sicrwydd ansawdd amlasiantaethol a fydd yn dangos gwelliant o ran ansawdd ac amseroldeb ymarfer<br>▪ Rhaid gwella cyfeiriadau i'r gwasanaeth | **Eto i'w wneud**<br>System sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cytunwyd arni yn arwain at welliant o ran ansawdd a phrydlondeb ymarfer.<br><br>Yr holl staff a phartneriaid allweddol wedi cael yr hyfforddiant a nodwyd ac mae tystiolaeth o welliant o ran lefel y ddealltwriaeth o drothwyon ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau ac amddiffyn plant a'r modd y dylid defnyddio'r trothwyon hynny. Mae hyn o ganlyniad i weithredu'r Canllawiau Ymarfer.<br>Mae gwybodaeth/atgyfeiriadau gan yr Heddlu i'r Gwasanaethau Plant yn cael eu craffu ymlaen llaw yn cynnwys crynodeb sy'n rhoi rheswm dros yr atgyfeiriad a'r camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt. Bydd hyn yn arwain at welliant yn ansawdd yr atgyfeiriadau a'r penderfyniadau ac yn gostwng yn sylweddol nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant wrth y drws ffrynt.<br><br>Mae ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i'r gwelliant yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid. Bydd hyn yn galluogi staff i ganolbwyntio ar sefydlu perthynas gadarnhaol gyda theuluoedd a darparu ymyriadau o ansawdd. | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd | Rhagfyr 2016 | Rhagfyr 2017 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 63 | | • Yn bwrw ymlaen gyda phartneriaid (yr Heddlu, Iechyd ac Addysg) i weithredu'r system sicrwydd ansawdd amlasiantaethol y cyfeirir ati isod.<br>• Darperir crynodeb o adroddiad Ch2 uchod - Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod tystiolaeth anghyson yn nhermau'r gwelliant o ran ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant. Daeth archwiliad o'r pellter a deithiwyd i'r casgliad y cafwyd gwelliant o ran presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth a bod y cyfarfodydd strategaeth yn amserol. Fodd bynnag, daeth Archwiliad o Ffeil Achosion (Gorffennaf) ac adolygiad rheoli i'r casgliad, mewn sawl achos, bod archwilwyr wedi mynegi pryder am drafodaethau neu gyfarfodydd strategaeth o ran:<br>    • Nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal mewn modd amserol – e.e. ni chynhaliwyd un tan 3 wythnos ar ôl gwneud penderfyniad i'w gynnal.<br>    • Mae cofnodion o'r trafodaethau'n annigonol – h.y. yn rhy gryno.<br>    • Ceir cyfeiriadau at yr angen am gyfarfodydd strategaeth dilynol ond heb dystiolaeth o'u cynnal.<br>• Adlewyrchir hyn yn Archwiliad Thematig Rhan 4, ynghyd ag adolygiad o blant sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Plant – mae prosesau penderfynu, oediadau a diffyg cynlluniau clir a'u dilyn trwodd yn faterion a nodwyd.<br>• Wrthi'n gweithio gyda'r Heddlu ac Iechyd - fforwm proffesiynol amlasiantaethol ynghylch dau adolygiad rheoli o achosion lle'r oedd yn well cynnal adolygiad o ymarfer yn amlasiantaethol – un wedi'i gwblhau: un ar y gweill. Mae'r adolygiad sydd wedi'i gwblhau yn dangos arferion gwael o ran rhannu gwybodaeth: diffyg sylw i risg a chyfleoedd wedi'u methu o ran ymyrryd yn gynharach.<br>• Rydym wedi ymgymryd ag adolygiad cyfaill beirniadol o achos ar y gofrestr CAP gyda Chyngor Gwynedd. Mae'r adolygiad a gwblhawyd yn dangos diffyg sylw i risg, cynlluniau amddiffyn plant gwael a cholli cyfleoedd i ymyrryd yn gynharach i asesu risg, ymgysylltu â'r teulu a chreu newid.<br>• Mae Ffurflen Atgyfeirio Ranbarthol wedi'i chymeradwyo a cheir trafodaeth yn y Bwrdd Diogelu Plant o ran cael Heddlu Gogledd Cymru'n cwblhau'r ffurflen hefyd.<br>• Datblygwyd atgyfeiriadau o dan y Canllawiau Ymarfer, cynhelir hyfforddiant rhanbarthol i sicrhau bod y trothwyon ar gyfer asesiadau i'r gwasanaethau plant statudol yn cael eu deall gan staff a phartneriaid a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson.<br>**<u>August 2017</u>** | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 64 | | • Dogfen Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 Gwaith archwilio ffeiliau achos wedi'i gwblhau ar y meysydd ymarfer a ganlyn: archwiliad camu i lawr LAC, adroddiad ar gyfer y panel lleoli, archwiliadau ffeiliau achos misol wedi'u cynllunio gan Reolwyr Timau, archwilio ymatebol (cwynion Cam 2) a phenderfynu cychwynnol, sgrinio, trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth ac asesu syml. Barnau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso adolygiadau rheoli a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae canlyniadau chwarter 1 wedi cael eu dadansoddi, gweler 2.1<br>• Yn gwneud cynnydd gyda phartneriaid (yr Heddlu, Iechyd ac Addysg) o ran gweithredu'r system sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cyfeirir ati isod.<br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Mae fframwaith sicrwydd ansawdd amlasiantaethol wedi'i ddatblygu i'w gymeradwyo rhwng y Gwasanaeth a'r Heddlu, y Gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth ac Addysg.<br>• Bydd canlyniadau'r archwiliadau a wnaed yn Chwarter 1 yn cael eu dadansoddi yn chwarter 1 ac yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cyflawni Lleol ar gyfer sicrwydd ansawdd.<br>• Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o ganllawiau yn debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>Partneriaid yn darparu cytundeb i ddatblygu a chefnogi / blaenoriaethu:<br>• Systemau sicrhau ansawdd amlasiantaethol<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid ar drothwyon ar gyfer asesu a rolau a chyfrifoldebau phartneriaid.<br>• Datblygu trothwy amddiffyn plant amlasiantaethol.<br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg i gynnwys pob maes gwaith lle mae angen gwneud gwaith datblygu. | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.5 | **Argymhelliad 11 AGC:**<br>Dylid gwella ansawdd a chysondeb cadw cofnodion; dylai'r holl staff a rheolwyr sicrhau bod eu cofnodion o ansawdd da, yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Staff i dderbyn hyfforddiant ar y safonau disgwyliedig o safbwynt cadw cofnodion.<br><br>Canllawiau ymarfer ar gadw cofnodion i gael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd. | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Mae'r gwaith wedi cael ei ailddiffinio'n brosiect i edrych ar ddatblygiad WCCIS<br>• Bydd Safonau Cadw Cofnodiadau'n cael eu cytuno fel rhan o'r gwaith o gytuno ar safonau ymarfer. Mae drafft ar gael o ran cofnodi. Wedi cael ei gyflwyno ar gyfer rhaglen yr SMT.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu i creu model Gweithredol o fewn WCCIS (MP yw'r Arweinydd Prosiect). Mae gennym gynhyrchion defnyddiol – geirfa termau, sesiwn heb jargon, safonau drafft y gellid eu datblygu.<br>• Cofnodi perfformiad o Ch2 -<br>Mae'r gwerthusiad cyffredinol yn dangos bod ymarfer o ran cofnodi yn anghyson, er bod tystiolaeth o welliannau mewn rhai archwiliadau.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Fel rhan o'r cofrestriad fel Gweithwyr Cymdeithasol, mae gan staff y cyfrifoldeb i sicrhau cofnodi o ansawdd da mewn modd amserol.<br><br>• Ymgymerir ac archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion i fonitro ansawdd ac amseroldeb y cofnodion a gedwir mewn perthynas ag achosion unigol.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Mae Cadw Cofnodion yn parhau i fod yn anghyson<br>• Cynnal archwiliad pellach o ffeiliau achosion sy'n agored i ganfod p'un a oes gwelliant yn ansawdd y cofnodi. | • Staff i dderbyn hyfforddiant ar yr arferion gorau o ran cadw cofnodion a'r Canllawiau Ymarfer. | **Wedi cychwyn**<br>Rheolwyr yn archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd gyda hynny'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion.<br><br>Cefnogaeth ac arweiniad i staff trwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn arwain at welliant yn ansawdd y cofnodion a gedwir. | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd a Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Medi 2017 Angen cysondeb o ran ble mae staff yn cofnodi |



**4. Gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli – treulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd yn eu helpu i newid fel bod y teulu yn lle diogel ar gyfer eu plant.**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sicrhau bod ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â'r ffordd wahanol o weithio gyda theuluoedd dan y Ddeddf Newydd ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, gan adeiladu ar gryfderau pobl a'u galluogi i gymryd rhan yn y broses o roi sylw i anghenion a chyflawni canlyniadau. | **<u>Tachwedd – Ionawr</u>**<br>• Derbyniwyd adborth/dysgu ar y newidiadau sydd wedi digwydd o fewn ymarfer gwaith cymdeithasol yn dilyn yr hyfforddiant y mae staff wedi ei gael yn ystod y flwyddyn (gweler 1.4 am restr o'r cyrsiau hyfforddiant a gafwyd). Mae'r adborth a gafwyd yn dangos bod staff yn gweithredu ar yr hyn y maent wedi ei ddysgu yn eu gwaith o ddydd i ddydd. | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Staff yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ac yn gallu gwneud mwy o ymyriadau uniongyrchol gyda theuluoedd.<br><br>Gwybodaeth bod mwy o blant yn cael eu cefnogi i barhau i fyw adref gyda'u teuluoedd. | Uwch Dîm Rheoli | Mawrth 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 66 | Hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn canolbwyntio ar:<br>1. Gwrs Cyfathrebu ar y cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br>2. Ymyriadau GICD<br>3. Newid diwylliant<br>4. Mesur perfformiad<br>5. Cyfweld ysgogiadol | **Medi a Hydref 2017**<br>• Cynhaliwyd cwrs Cyfathrebu Cydweithredol ar 28ain a'r 29ain o Fedi ac mae'r symud i weithio o dan y Ddeddf GCaLl yn parhau.<br><br>**Awst 2017**<br>• Rydym wedi parhau i roi cymorth i staff weithio gyda theuluoedd gan ganolbwyntio ar eu cryfderau, cael 'sgwrs beth sy'n bwysig', gofynion o ran eiriolaeth a chyd-gynhyrchu.<br>• Rydym yn gweld tystiolaeth o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau – gan ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y plant ar y gofrestr AP o 102 ym Mawrth 2017 i 56 ar 31ain Awst 2017, gostyngiad o 55%.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae'r hyfforddiant isod wedi digwydd<br>• Rydym yn parhau i roi ffocws ar ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn aliniedig efo'r dull gwahanol o weithio efo teuluoedd o dan y Ddeddf newydd fel: Y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', gofynion eiriolaeth a chyd-gynhyrchu, mae hyn oll yn parhau i fod yn sialens i'r gwasanaeth oherwydd bod teuluoedd yn amharod i ymgysylltu.<br><br>**Mai 2017**<br>• Hyfforddiant yn digwydd ar hyn o bryd ar Gyfweld Ysgogiadol a'r ymagweddau 'Teuluoedd Gwydn'.<br>• Cynhelir hyfforddiant cyfathrebu ar y cyd ym mis Mawrth ar gyfer yr holl Reolwyr.<br>• Hyfforddiant ar ymyriadau GICD yn cael ei ddarparu'n flynyddol.<br>• Hyfforddiant ar newid diwylliant a mesur perfformiad yn cael ei gynnal ym mis Mawrth ar gyfer Rheolwyr. | | Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth bod ansawdd ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Tystiolaeth bod y gweithlu yn ddigon medrus i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau - enghraifft o hyn yw gostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. | | | |
| 4.2 | Adolygu'r strwythur gwasanaeth presennol i fynd i'r afael â'r angen am ymyriadau ataliol ac ymyriadau dwys gwell.<br><br>Sefydlu timau llai gydag Arweinwyr Ymarfer i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth effeithiol i staff. | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br>• Mae'r strwythur newydd yn ei le ac mae'r Arweinwyr Ymarfer wedi cael eu lleoli gyda'u Grwpiau Ymarfer<br>• Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae hyn yn gweithio'n dda, staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn grwpiau llai<br>• Parhau i ddatblygu cefnogaeth a sefydlu hyn yn gadarn yn y strwythur | • Bydd adolygiad o'r Tîm Lleoli yn cychwyn yn Chwefror mewn ymgynghoriad â'r staff | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Bydd strwythur newydd y gwasanaeth yn cefnogi ac yn cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol ac ymyriadau dwys yn sylweddol, ac enghraifft o hyn fydd gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i ofal.<br><br>Rheolwyr yn dweud bod strwythur newydd y gwasanaeth yn cynyddu eu gallu i ddarparu | Uwch Dîm Rheoli | Ionawr 2017 | Mai 2017 |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Medi a Hydref 2017**<br>• Gweithredwyd strwythur newydd y gwasanaeth ar 4ydd Hydref pryd y cymerodd yr 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb dros eu Grwpiau Ymarfer.<br>• Ymgymerir â gwaith pellach i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i roi cymorth i deuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod cymorth gweinyddol yn briodol er mwyn i Grwpiau Ymarfer gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.<br><br>**Awst 2017**<br>• Dau Uwch Reolwr wedi cychwyn (Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys)<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Strwythur gwasanaeth newydd wedi'i weithredu.<br>• Yn parhau i benodi i'r swyddi i sefydlu timoedd llai efo Arweinwyr Ymarfer<br>• Yn parhau i adolygu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal o gwmpas y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'<br><br>**Mai 2017**<br>• Daw'r cyfnod ymgynghori gyda staff i ben ar 24.2.17.<br>• PG Dros Dro wedi darparu dadansoddiad o'r sylwadau a'r adborth yn yr adroddiad gydag argymhellion.<br>• Penderfyniad terfynol ac amserlenni i'w cytuno a'u rhannu yn y Gynhadledd staff ar 27.3.17. | | arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd.<br><br>Staff yn adrodd eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n ddigonol gan eu rheolwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos gwelliant amlwg yn ansawdd yr ymarfer o ganlyniad i'r llwybrau a systemau clir o fewn y Gwasanaeth a thrwy oruchwyliaeth reolaidd. | | | |
| 4.3 | Gweithredu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Ynys Môn | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br>• Mae Swyddog Ymgysylltu amser llawn wedi cychwyn yn Teulu Môn ym mis Ionawr ac mae hynny wedi cryfhau'r capasiti i 3.5 gweithiwr FTE yn y tîm hwnnw. Ymwelwyd â Theulu Môn ar 29.01.18 gan Jackie Drysdale, Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn arsylwi'r tîm ac ystyried yr angen am Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Cymru gyfan. Gwnaeth yr hyn a welodd argraff ar Jackie a dywedodd bod y tîm yn ymrwymedig, yn dangos gwytnwch yn wyneb rhai o'r rhwystredigaethau. Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu'r tîm hwnnw o ran sgiliau a chymorth TG. | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Defnyddwyr gwasanaeth yn dweud ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau a bod gofal cwsmer yn dda.<br><br>Gwell cydlyniant o ran gwasanaethau a strategaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Llai o ddyblygu ymdrech fel sy'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd bod nifer o 'ddrysau ffrynt' ar gael. | Rheolwr Gwasanaeth | Rhagfyr 2016 | Ebrill 2017 |

Tudalen 67

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Ers dechrau mis Hydref, mae'r gwasanaeth IAA o'r enw Teulu Môn, yn cael ei reoli gan 3 Arweinydd Ymarfer a Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal.<br>• Bellach mae swyddogion ymgysylltu Teulu Môn yn gallu bod yn fwy effeithiol fel pwynt cyswllt cyntaf – gyda'r cyfle i gael sgwrs fwy strwythuredig i gynorthwyo teuluoedd i gael mynediad i ddatrysiadau o fewn eu cylch eu hunain o adnoddau/adnoddau cymunedol.<br>• Bydd cyllid gan Teuluoedd yn Gyntaf yn cryfhau ein gwasanaethau IAA gyda recriwtio ar gyfer 1.5 swydd Swyddog Ymgysylltu arall.<br>• Wedi parhau i gefnogi ein staff i sicrhau eu bod yn mynd ati'n gyson i gael sgyrsiau o ansawdd da gan fod gan rai swyddogion fwy o hyder a sgiliau o ran yr ymagwedd hon.<br>• Gwnaed trefniadau ar gyfer cael gweithdai mewnol i staff ymarfer y sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' gyda Jackie Drysdale, y Rheolwr Datblygu Gwelliant ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Mae Swyddogion Ymgysylltu wedi dechrau yn eu swyddi.<br>• Mae Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn ei swydd.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Rheolwr Ymgysylltu Dros Dro wedi'i benodi.<br>• Hysbysebion allan ar gyfer y Swyddogion Ymgysylltu, dyddiad cau 12/07/17<br>• Deunyddiau hyrwyddo wedi'u cadarnhau.<br>• Nifer o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth wedi'u trefnu ar gyfer yr Eisteddfod, Sioe Môn ac ati ynghyd â nifer o ddiwrnodau hwyl/carnifals ac ati yn y gymuned.<br>• Archwiliadau Amlasiantaethol (Iechyd, Addysg a'r Heddlu) mewn perthynas ag ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir yn Teulu Môn<br>• Gwaith parhaus gydag asiantaethau sy'n bartnieriaid o ran rhannu gwybodaeth a chydweithio gyda Teulu Môn<br>• Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 o ran yr holl CID16's a dderbynnir yn Teulu Môn er | | | | | |

Tudalen 68

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor ac archwilio rhannu gwybodaeth.<br>• Bydd gwaith yn dechrau i sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Llunio, cymeradwyo a chyfieithu'r holl bolisïau, protocolau, trothwyon a'r templedi cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau.<br>• Cytuno ar fesurau llwyddiant<br>• Sgopio anghenion TGCh<br>• Cytuno ar y gofynion hyfforddi.<br>• Enw'r tîm 'Teulu Môn', y Cyfryngau Cymdeithasol, cytunwyd ar rif ffôn.<br>• Hyfforddi staff wedi cychwyn<br>• Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar fin symud i'r Pencadlys ddiwedd mis Ionawr<br>• Logo ar gyfer y gwasanaeth newydd wrthi'n cael ei ddylunio.<br>• Y bwrdd prosiect yn cyfarfod yn fisol<br>• Grŵp tasg a gorffen Marchnata yn cyfarfod ac yn datblygu allbynnau marchnata ar gyfer y gwasanaeth.<br>• Tîm newydd yn cychwyn ar gyfnod o 'adeiladu tîm'<br>• Staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar y newidiadau o fewn y Gwasanaeth a thrwy Sesiynau Gwybodaeth.<br>• Ymgynghori ar y strwythur diwygiedig wedi'i gwblhau.<br>• Un pwynt mynediad ar gyfer pob ymholiad o ran plant a theuluoedd wedi'i sefydlu ac yn weithredol erbyn 03.04.17 | | | | | |
| 4.4 | Datblygu Strategaeth Atal Gorfforaethol; rhaid i'r ALl ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.<br><br>Darparu gwasanaeth integredig a rhoi help a chymorth cynnar sydd, i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o ohirio'r angen am ofal a chymorth.<br><br>Bydd yr asesiad poblogaeth yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i nodi'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen. Cryfhau'r swyddogaeth gomisiynu o fewn y Gwasanaethau Plant ac | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Mae'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn gyfrifol am yrru'r gwaith yn ei flaen o ran y Strategaeth Ddiogelu gorfforaethol<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn yn gweithio gydag 8 o deuluoedd<br>• Yn dilyn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, bydd y Cynlluniau Rhanbarthol ar gael o Ebrill 2018 gan nodi'r amrediad o wasanaethau y bydd angen eu darparu<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Mae grŵp Strategaeth Atal Corfforaethol yr Awdurdod Lleol a arweinir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod yn | • Ymgysylltiad ac ymgynghoriad ystyrlon gyda theuluoedd, plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Byddwn yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br><br>Ailgomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ac Anghenion y Boblogaeth / Cynlluniau Ardal Lleol yn arwain at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd (gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal).<br><br>Lleihad yn nifer y plant sy'n dod i ofal a chynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu cefnogi i fyw adref efo'u teuluoedd. | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

Tudalen 69

| | **CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC** | **CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT** | **CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT** | **CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH** | **SWYDDOG ARWEINIOL** | **CYCHWYN** | **DIWEDD** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 70 | Oedolion i'n cefnogi i gyflawni'r agenda hon.<br><br>Argymhelliad 1 AGC.<br>Datblygu fframwaith ar gyfer gwneud gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig ac yn rhoi help a chymorth cynnar gyda hynny i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o ohirio'r angen am ofal a chymorth.<br><br>**Argymhelliad 12 AGC:**<br>Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hyn i lywio'r broses o lunio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol. | rheolaidd. Cyflwynodd y grŵp bapur i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn amlinellu'r hyn a fynnir i sicrhau cyflawni strategaeth atal yn llwyddiannus ac mae gwaith yn parhau i yrru hyn yn ei flaen.<br>. Mae'r Awdurdod Lleol wedi blaenoriaethu datblygiad gwasanaethau atal corfforaethol a chymorth i deuluoedd fel rhan o'i Gynllun ar gyfer 2017 – 2022 o ran **''***Darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal cynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cymorth fel eu bod yn cael cyn lleied â phosib o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.''*<br>• Sefydlwyd gweledigaeth glir o ran gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ac mae strategaeth ddrafft wedi'i datblygu a'i rhannu gyda AGC.<br>Ymgynghorwyd â staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid ac rydym wedi trefnu i gael sesiynau ymgynghori pellach gyda grwpiau cymunedol a gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc a fydd yn gallu rhoi barn o ran yr hyn sydd wedi gweithio ac nad yw wedi gweithio yn y gorffennol, ynghyd â pha wasanaethau ataliol y dylid eu datblygu yn y dyfodol.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Mae Strategaeth Darpariaeth Gwasanaeth yn ei lle.<br>• Mae LlC wedi cytuno i ariannu 3 o staff cymorth i deuluoedd ychwanegol o fewn TAF ynghyd ag 1.5 o Swyddogion Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn. Bydd hyn yn cryfhau'r gwasanaethau ataliol er mwyn gohirio'r angen am ofal a chymorth.<br>• Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer Ynys Môn. Mae briff wedi cael ei ddrafftio ar gyfer ymgynghori gyda grwpiau cymunedol plant a theuluoedd ac asiantaethau sy'n bartneriaid ar Ynys Môn. Mae strategaeth ddrafft wedi cael ei llunio. Lluniwyd hon gan wybod bod gennym wybodaeth o ran anghenion teuluoedd Ynys Môn drwy'r asesiad anghenion lleol, ein data ein hunain ac ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Cordis Bright. Mae gwaith yn cael ei wneud ar ffurfio cysylltiadau â grwpiau cymunedol fel Caru Amlwch. Cynhaliwyd trafodaethau gyda darparwyr presennol o ran sut y gallant ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol yn y dyfodol. | | **Wedi cychwyn**<br>Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar Ynys Môn.<br><br>'Teulu Mon', y gwasanaeth GCCh (IAA) newydd ar gyfer Ynys Môn yn weithredol ac yn rhan allweddol o'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar / atal. | Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes<br><br>Melanie Jones, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 71 | | Bydd strategaeth yr adran o ran gwaith ataliol yn bwydo i mewn i broses y strategaeth ataliol ehangach ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Bydd canfod ACE'au yn ffurfio rhan o'n strategaeth. Gwnaed cysylltiadau ag Andrew Bennet (Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research') a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno ymarfer sy'n ymwybodol o ACE'au mewn meddygfeydd ar yr ynys. Cynhaliwyd trafodaethau i gynnwys y maes hwn o fewn ysgolion yn y gobaith y gallwn ddatblygu ysgolion sy'n ymwybodol o ACE'au ym Môn. Gwnaed cysylltiadau â grwpiau cymunedol a chanddynt ddiddordeb mewn defnyddio ACE'au o fewn eu hymagweddau.<br><br>• Mae archwiliad o achosion TAF wedi dechrau. Gwnaed hyn i wella ein dealltwriaeth o'r teuluoedd yr ydym yn gweithio â hwy. Mae angen i ni sicrhau bod y teuluoedd iawn yn cael mynediad i'r gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn yr archwiliad, mae'n ymddangos y gellir cau achosion o fewn y TAF a chyfeirio teuluoedd ymlaen i gael mynediad at wasanaethau penodol sydd wedi'u targedu.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Yn adolygu pob gwasanaeth a gomisiynir o dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Ymgynghori gyda staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid o ran canfod y bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.<br>• Cais i ailddosbarthu cyllid gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i anfon at LlC.<br>• Cais ar gyfer Grant Rhiantu Teuluoedd yn Gyntaf ychwanegol yn cael ei gyflwyno erbyn 14/07/17.<br>• Arian wedi ei gymeradwyo ar gyfer Rheolwr Atal Corfforaethol i sicrhau bod y strategaeth atal yn cael ei gwireddu ar draws yr Awdurdod Lleol.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Bydd adolygiad o'r gwasanaeth ataliol cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn fuan yn 2017.<br>• Ail-gomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth gyda hynny'n arwain at ganlyniadau o ansawdd oherwydd ymyrraeth gynnar. | | | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Swyddog comisiynu, cydlynu a monitro'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, wedi trosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant erbyn mis Ebrill 2017.<br>• Adolygu ac aildrefnu 'Gofal Ysbaid' sy'n cael ei gynnig drwy'r Gwasanaeth Arbenigol Plant i gefnogi teuluoedd. | | | | | |

**5.Gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u targedu tuag at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyflym ar adeg pan fydd teuluoedd yn chwalu mewn ymagis i gadw'r teulu gyda'i gilydd.**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Adolygiad o Wasanaethau Cefnogi Plant i ganolbwyntio ar:<br>1. Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>2. Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>3. Rôl y Swyddog Rhianta | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Oherwydd pwysau sy'n cystadlu ar Uwch Reolwyr, mae adolygiad hwn wedi cael ei ohirio. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2018<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Mae'r gwaith o adolygu Gwasanaethau Cymorth wedi dechrau gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i gefnogi teuluoedd.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>•Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygu achosion lle nad oes angen i'r awdurdod lleol oruchwylio cyswllt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall y capasiti sydd ar gael i'w drosglwyddo i'r Tîm Teuluoedd Gwydn. | Byddwn yn adolygu Gwasanaethau Cymorth i Blant yn Chwefror 2018 i ganolbwyntio ar:<br>• Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>• Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>• Rôl y Swyddog Rhianta<br>• Bydd gwaith yn dechrau ar hyn | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Mae'r gwasanaeth yn gwneud gwell defnydd o'i adnoddau ac yn canolbwyntio ar gefnogi plant i barhau i fyw o fewn eu teuluoedd.<br><br>Darparu cymorth rhianta 1: 1 ac / neu mewn Grŵp i rieni i gryfhau safon y gofal a gaiff eu plant.<br>Mwy o blant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>Gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |
| 5.2 | Gweithredu'r Tîm Teuluoedd Gwydn | **<u>Chwefror-Mawrth 2018</u>**<br>• Mae'r Tîm yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd (di-enw): | • Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu sgiliau yn cael ei llunio ar gyfer y Tîm newydd. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ymyrraeth y tîm hwn a nifer y plant a phobl ifanc y llwyddwyd i'w hadsefydlu'n ôl yn eu cartrefi. | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mai 2017 |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 73 | | **Stori Deulu 1:** Mae Tom yn ddisgybl ysgol gynradd sy'n byw gyda'i deulu. Mae Tom a'i deulu'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Arbenigol Plant oherwydd ei anghenion dysgu cymhleth ef a'i rieni. Roedd gan yr Awdurdod Lleol bryderon am yr effaith yr oedd cweryla ei rieni yn ei gael ar Tom. Roeddynt yn cweryla i'r graddau y byddai'r cymdogion weithiau yn galw'r Heddlu i fynd i'r tŷ. Yn ychwanegol at hyn, byddai Tom ar adegau yn dychwelyd adref o'r ysgol neu sesiynau gyda'i weithiwr cymorth ond ni fyddai oedolyn priodol adref i edrych ar ei ôl. Roedd hyn oll yn peri i Tom arddangos ymddygiad ymosodol a phryder ynghylch gwahaniad a hynny'n ei dro yn ei gwneud yn anodd i'w rieni ddeall ei anghenion a sut i ymateb iddynt (oherwydd eu lefel dealltwriaeth eu hunain a'u capasiti rhiantu).<br><br>Ystyriwyd rhoi Tom ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gyda'r tebygolrwydd y byddai pethau'n datblygu'n gyflym iawn i'r cam Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus oni bai y byddai'n pethau'n newid. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod angen efallai y byddai angen i Tom gael ei dynnu o ofal ei deulu petai argyfwng difrifol yn codi.<br>Gweithiodd y Tîm Teuluoedd Gwydn gyda'r teulu yn ystod cyfnod o 8 wythnos dwys (Cam 1). O ganlyniad, mae Tom yn parhau i fod adref gyda'i rieni, bu lleihad yn nifer yr achosion lle'r oedd teulu neu gymdogion yn rhoi gwybod am wrthdaro, ni chafwyd unrhyw adroddiadau pellach gan yr heddlu yn ystod cyfnod yr ymgysylltiad ac mae Tom yn llai ymosodol a phryderus yn y cartref; mae'n teimlo y gall gysgu yn ei wely ei hun yn hytrach nag yn ystafell ei rieni. Roedd y cynnydd mor ddramatig nes penderfynu nad oedd y teulu angen cymorth 'Cam 2' gan fod y gefnogaeth barhaus gan y Gwasanaeth Arbenigol Plant yn ddigon i gynnal y newidiadau a wnaed.<br><br>**Stori Deulu 2**: 3 o blant sy'n byw gyda'u mam. Mae'r rhieni wedi gwahanu; roedd gan y ddau riant dai ac roedd eu hymddygiad o ran hordio yn golygu nad oedd y tai hynny'n ddiogel. Roedd y plant wedi gweld camdriniaeth ddomestig pan oedd eu rhieni'n byw gyda'i gilydd. Roedd hyn wedi cael effaith ar ymddygiad y plant; daeth un plentyn yn ofalwr emosiynol ar gyfer ei fam, aeth plentyn arall yn | • Bydd angen gwneud gwaith i sefydlu sut y bydd y grant Teuluoedd Gwydn yn cael ei ddefnyddio. | Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos cyswllt uniongyrchol rhwng gwaith y tîm a lleihad yn yr angen am leoliadau maethu/preswyl costus.<br><br>Gall y tîm ddangos tystiolaeth o ymyrraeth yn seiliedig ar atal a dad-ddwysáu drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol.<br><br>Mae archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu teilwra o amgylch anghenion y teulu unigol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Mae'r tîm newydd yn weithredol ac yn darparu cefnogaeth ddwys i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 74 | | dawedog ac yn encilgar a daeth un arall yn ymosodol ac yn afreolus am oriau ar eu hyd. Rhoddwyd y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a chychwynnwyd camau cyfreithiol drwy'r Llys a'r cynllun oedd i roi'r plant mewn gofal maeth.<br>Gweithiodd y Tîm Teuluoedd Gwydn gyda'r teulu (y fam a'r tad ar wahân) yn ystod cyfnod dwys o 8 wythnos (Cam 1). Nid yw'r hordio yng nghartref y plant yn digwydd mwyach. Dywed y fam ei bod yn teimlo'n fwy hyderus i helpu'r plant ddeall a rheoli eu hemosiynau gan arwain at lai o wrthdrawiad rhwng y rhieni a'r plant a'r plant yn teimlo'n bryderus. Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapusach a'u bod wedi mwynhau'r cymorth a gawsant.<br>Er nad oedd y tad yn gallu gwneud yr un newidiadau i'w ymddygiad hordio (gan olygu na fedr y plant aros hefo fo dros nos), mae o'n awr yn gallu cynnal cyswllt cadarnhaol yn ddi-oruchwyliaeth gyda'i blant drwy'r cymorth a'r hwb a gaiff gan y Tîm Teuluoedd Gwydn. prompts of the Resilient Families Team.<br>Mae'r teulu yn awr yn derbyn cefnogaeth Cam 2 (ar hyd at flwyddyn) i'w helpu i atgyfnerthu a gynnal y newidiadau a wnaed.<br><br>**<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn bellach yn weithredol ac yn gweithio ar hyn o bryd gyda 9 o blant unigol o 8 teulu<br><br>Mae'r tîm yn gweithio gyda rhieni i'w cefnogi i fedru gofalu am eu plant a'u hatal rhag gorfod mynd i ofal. Maent hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn gofal ac mae cynlluniau adfer dwys wedi cael eu sefydlu ar gyfer y bobl ifanc hynny. Rydym yn gobeithio cynhyrchu adroddiad ym mis Mai 2018 i ddwyn sylw at beth o'r gwaith a gwblhawyd gan y tîm hwn.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi'i staffio'n llawn erbyn hyn ac wrthi'n gweithio ag 8 teulu i atal y teuluoedd rhag chwalu ac i roi cymorth i blant sy'n byw yn y cartref.<br>• Mae gan y tîm dri nod craidd:<br>  • Atat - atal plant rhag gorfod Derbyn Gofal<br>  • Lleihau – lleihau natur y llety gofal a ddarperir, o ofal preswyl i ofal maeth. | | | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Ailuno – ailuno plant sy'n derbyn gofal gyda'u teuluoedd.<br>• Mae'r Arweinydd Ymarfer ar gyfer y tîm hwn wedi derbyn gwobr genedlaethol yn ddiweddar gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) am ei gwaith yn datblygu cymorth i rai sy'n gadael gofal, ynghyd â threfniadau i roi cymorth i ofalwyr maeth atal lleoliadau rhag chwalu.<br><br>**Awst 2017**<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi'i benodi a bydd y staff i gyd yn eu swyddi erbyn dechrau mis Medi.<br>• Mae LlC wedi rhoi grant ychwanegol o £96,000 i roi cymorth pellach i sefydlu'r Tîm Teuluoedd Gwydn. Ceisir rhagor o arweiniad gan LlC mewn perthynas â sut y gellir defnyddio'r grant hwn.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Reciwtio i'r swyddi Arweinydd Ymarfer, Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth, wedi eu hysbysebu, cyfweliadau i'w cynnal erbyn diwedd Gorffennaf.<br>• Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>**Mai 2017**<br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod y plant a phobl ifanc y gellir gwneud gwaith dwys â hwy er mwyn eu galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel.<br>• Mae Disgrifiadau Swydd newydd wedi cael eu llunio a byddir yn cychwyn recriwtio i'r swyddi ddiwedd mis Mawrth 2017. | | | | | |
| 5.3 | Gwella cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Meysydd y dylid canolbwyntio arnynt:<br>• Adolygu'r gwasanaeth gadael gofal (ôl-ofal)<br>• Creu 'Polisi Llety â Chymorth' | **Chwefror-Mawrth 2018**<br>• Strategaeth LAC wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad tuag at ddiwedd mis Ebrill.<br><br>**Tachwedd – Ionawr 2018**<br>• Mae un cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi cael ei gynnal ar 11 Rhagfyr 2018 ers i raglen y Panel gael ei hailstrwythuro. Mae hyn yn rhoi amser i'r | • Mae angen gwneud penderfyniad o ran cyllid grant ychwanegol gan LlC mewn perthynas â phrofiad gwaith a phrentisiaethau.<br>• Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol ar 18 Mawrth. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gwaith clir o ran cynllunio llwybr yn darparu amcanion yn y cynllun i baratoi'r unigolyn ifanc ar gyfer bod yn oedolyn.<br><br>Rhai sy'n gadael gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod yr awdurdod yn eu cefnogi yn y cyfnod trosiannol cyn gadael gofal. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

Tudalen 75

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 76 | • Cytuno ar 'Bolisi Ariannol Gadael Gofal'<br>• Trefniadau profiad gwaith a phrentisiaethau yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd<br>• Mynediad am ddim / am bris gostyngol i wasanaethau hamdden a gwasanaethau llyfrgell<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | aelodau graffu'r data a ddarperir a chael trafodaeth ystyrlon ar faterion rhiantu corfforaethol.<br>• Mae gwaith ar y Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal yn parhau i fynd rhagddo a gobeithir y bydd modd cynhyrchu Strategaeth ddrafft y gellir ymgynghori arni yn ystod Ebrill 2018.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Ym mis Medi, cymeradwyodd y Panel Rhiantu Corfforaethol gynllun gweithredu i ddatblygu "Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal" am gyfnod o dair blynedd 2018 - 2020. Byddai'r strategaeth hon yn darparu'r fframwaith i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol Plant sy'n Derbyn Gofal.<br>• Erbyn Mawrth 2018 rydym yn bwriadu ail-lansio gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn o ran Rhiantu Corfforaethol.<br>• Wrthi'n recriwtio ar gyfer swydd Cynghorydd Personol ychwanegol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a ariennir gan gronfa Dydd Gŵyl Dewi a'r grant Cymorth i Rai sy'n Gadael Gofal. Bydd hyn yn cryfhau ein gwasanaeth i ddarparu cymorth amserol i rai sy'n gadael gofal i'w helpu i gyflawni eu huchelgeisiau ac i drosglwyddo'n llwyddiannus i fod yn oedolion ac i fyw'n annibynnol.<br>• Bydd y Gwasanaethau Plant yn rhan o fenter newydd o fewn y Cyngor i gynnig profiad gwaith cyflogedig i bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer gwaith; cyfnod cyflogedig o hyd at 12 wythnos gyda'r Cyngor. Bydd pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth gyda chyfle iddynt fynychu sesiwn gynefino ffurfiol, cyrsiau mewnol perthnasol a chyfle i weithio ar brosiectau penodol o fewn y gwasanaeth.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br>• Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi paratoi adroddiad ar gyfer y panel rhiantu corfforaethol gydag opsiynau o ran sut i gryfhau rôl y panel rhiantu corfforaethol.<br>• Drwy grant Dydd Gŵyl Dewi LlC a'r grant Cymorth i Rai sy'n Gadael Gofal derbyniwyd £31,000. Mae gwaith wedi mynd yn ei flaen gyda chydweithwyr AD i ganfod cyfleoedd o ran lleoliadau gwaith o fewn yr Awdurdod Lleol. Bydd y grŵp prosiect ôl-ofal yn gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen. | | Mae plant sy'n derbyn gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau ar eu cyfer.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Canllawiau clir ar waith ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol drwy bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. | | | |

**Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Cyfarfu'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar 10/07/17, yr aelodaeth, yr agenda a'r Cylch Gorchwyl i'w hadolygu ac i gynnwys pobl ifanc.<br>• Digwyddiad Rhiantu Corfforaethol wedi'i gynllunio ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion ar 20/07/17<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr Plant sy'n Derbyn Gofal.<br>• Gwaith yn parhau i baratoi ar gyfer seremoni wobrwyo 'STARS' ym mis Tachwedd i ddathlu llwyddiannau plant sy'n derbyn gofal.<br><br>**Mai 2017**<br>• Sefydlwyd prosiect ôl-ofal gyda chynllun gweithredu cytunedig.<br>• Cymeradwywyd protocol ôl-ofal a thai ym mis Chwefror 2017<br>• Cynhaliwyd trafodaethau gydag AD a Hamdden ynglŷn â phrofiad gwaith a gwasanaethau hamdden.<br>• Wedi llunio drafft cynnar o'r polisi ariannol Ôl-ofal.<br>• Yn ystyried cynnal Digwyddiad Rhianta Corfforaethol ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion i gytuno ar gryfhau'r trefniadau presennol.<br>• Sefydlwyd grŵp ymgynghori gyda phlant sy'n derbyn gofal lle gallant roi eu barn am y gwaith datblygu y mae angen ei wneud. | | | | | |
| 5.4 | Datblygu a gweithredu Protocol ar gyfer Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan fyfyrio ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - Rhan 8 Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br>• Mae'r protocol wedi cael ei adolygu a bydd fersiwn ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghanol mis Chwefror.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br>• Dim cynnydd o ran adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas â rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr oherwydd materion capasiti.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Dim cynnydd o ran adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas â rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr oherwydd materion capasiti.<br><br>**Mai 2017** | | **Heb ei wneud hyd yma**<br>Cryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr Awdurdod Lleol. | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes | Hydref 2017 | Chwefror 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd gwaith yn dechrau ar gryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017. | | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 MEHEFIN, 2018** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2017/18)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **CARYS EDWARDS** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | Amherthnasol |

| **A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau** |
|---|

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*

**1.4** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant –

**1.4.1** Bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn parhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd gyda phwyslais arbennig ar wella amseriad yr asesiadau a gynhelir yn unol â'r rheoliadau (PM24/SCC/035).

**1.4.2** Bydd Gwasanaethau Oedolion yn gwella materion yn ystod y flwyddyn nesaf drwy

- Ddyfarnu Contract Gofal Cartref newydd a diwygiedig i ddarparwyr erbyn diwedd Chwarter 1 18/19 gyda'r disgwyl y bydd y gwaith o drosglwyddo'r contract yn cael ei gwblhau yn ystod Chwarter 2 18/19. O ganlyniad, dylid tracio gwelliannau wrth i 2018/19 fynd rhagddi.

- Cynyddu capasiti yn Garreglwyd i dderbyn unigolion sydd â phroblemau dementia dwys a symud unigolion o ysbytai mewn modd amserol.

**1.4.3** Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn gwella drwy:

- Fonitro ysgolion sy'n tanberfformio yn y Panel Cynnydd Ysgolion a'r Bwrdd Ansawdd Sirol bob pythefnos
- Parhau i weithio ar gau'r bwlch rhwng rhagolygon a pherfformiad gwirioneddol
- Parhau i geisio sicrhau gwell cysondeb ar draws y 5 ysgol o ran rhannu arfer dda, cysoni a sicrhau asesiadau cywir a defnyddio asesiadau i gynllunio ymyrraeth/addysgu priodol
- Parhau i roi cefnogaeth i athrawon er mwyn gwella Asesiadau Athro yn y Cyfnod Sylfaen
- Parhau i wella prosesau gosod targedau

**1.4.4** Defnyddio data salwch yn barhaus i flaenoriaethu a thargedu adnoddau i gynnal panelau herio salwch yn y gwasanaethau yn ystod 2018/19, sy'n parhau i fod yn elfen bwysig o ran rheoli salwch a bod targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul ALlC yn cael ei fabwysiadu unwaith eto ar gyfer 2018/19.

**1.4.5** Annog y Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant a Theuluoedd) i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion a'u bod yn sicrhau, drwy newid yr arferion gweithio cyfredol, bod ymatebion ysgrifenedig i gwynion Cam 1 yn cael eu cwblhau. Dylid gweithredu hynny drwy newid arferion gwaith presennol

**1.5** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 29 Mai ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Ar ôl craffu ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 ac wedi cael sicrwydd gan y wybodaeth a gyflwynwyd a'r esboniadau a ddarparwyd yn yr adroddiad gan swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y crynhoir ym mharagraffau 1.4.1 i 1.4.5 o fewn yr adroddiad ac i dderbyn ac i argymell y mesurau lliniaru yn yr adroddiad. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylchedd** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 4<br>Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 4<br>Atodiad C - Yr Alldro Refeniw ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 4 | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2017/18 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2018 ac a dderbyniwyd ganddo.) | | |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2018. Mae'n cyfleu'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni o ran ei fusnes fel gweithgareddau arferol gyda chanllawiau penodol wedi'u nodi ar gyfer gweithgareddau trawsnewidiol eraill a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn.

**1.2** Bydd adroddiad y cerdyn sgorio a'r cerdyn sgorio (Atodiad A) yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin 2018.

## 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Yn unol â 1.1. uchod, mae'n bwysig nodi fod y cerdyn sgorio eleni'n cynnwys -

**2.1.1.1** Y dangosyddion perfformiad MAC newydd (Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) a gesglir bob chwarter fel y gellir eu cynnwys yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad;

**2.1.1.2** Dadansoddiad fesul Gwasanaeth o rai o'r dangosyddion Rheolaeth Ariannol fel atodiad i'r adroddiad hwn (Atodiad D);

**2.1.1.3** Dadansoddiad o gyfraddau salwch yn yr ysgolion uwchradd a chynradd yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Pobl, fel yr argymhellwyd yn adroddiad Swyddfa Cymru ar reoli salwch; a

**2.1.1.4** Mae'r rhan Gwasanaethau Cwsmer o'r adroddiad sy'n rhoi sylw i ymateb i gwynion o fewn yr amserlen wedi ei rannu'n ddau erbyn hyn, Cwynion Corfforaethol a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 2.2 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.2.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn y dangosyddion a amlinellwyd ac y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**2.2.2** Ar derfyn blwyddyn heriol arall i'r sector cyhoeddus, mae'n galonogol nodi fod y rhan fwyaf o'r dangosyddion wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ac y dylid dathlu'r cyraeddiadau hynny wrth ddrafftio'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol y creffir arno yn ystod yr hydref. Fodd bynnag, oherwydd yr agwedd o welliant parhaus sydd wedi ei wreiddio yng ngwasanaethau'r Cyngor, bernir bod rhaid cynnig naratif ynglŷn â'r 8 dangosydd sydd wedi tanberfformio ac sy'n Oren neu'n Goch yn erbyn eu targedau ar gyfer y flwyddyn.

**2.2.3** Roedd un dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion yn GOCH yn erbyn ei darged ar gyfer y flwyddyn, sef -

(i) 04) – PM19 – Mae lefel yr oedi gyda throsglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 6.58 o gymharu â tharged o 1.5. Mae'r perfformiad wedi dirywio o gymharu â ffigyrau Ch3 sef 4.61, fodd bynnag mae'n debyg i'r perfformiad yn ystod 2016/17, sef ffigwr o 6.05.

Y mesurau lliniaru a nodwyd ar ddiwedd Ch3 yr oeddem ni fel Cyngor yn rhagweld y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y dangosydd hwn oedd:

- gweithio tuag at sicrhau bod contract Gofal Cartref yn cael ei sefydlu yn y 6 mis nesaf.
- gweithio i symud cleientiaid o'r ysbyty i'r gwelyau sydd ar gael yn Garreglwyd cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae gwaith ar y broses ddiwygiedig o gomisiynu ein Darpariaeth Gofal Cartref yn parhau ac er na chafodd hynny ei gwblhau yn 2017/18, rydym mewn sefyllfa i gwblhau'r broses yn Chwarter 1, 2018/19. O ganlyniad, dylid gweld gwelliant ym mherfformiad y dangosydd hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Camau lliniaru –** i gadarnhau felly, bydd y camau lliniaru canlynol yn ein cynorthwyo i wella'r perfformiad hwn yn ystod 2018/19:

- Dyfarnu Contract Gofal Cartref newydd a diwygiedig i ddarparwyr erbyn diwedd Chwarter 1 18/19 gyda'r disgwyl y bydd y gwaith o drosglwyddo'r contract yn cael ei gwblhau yn ystod Chwarter 2 18/19. O ganlyniad, dylid tracio gwelliannau wrth i 2018/19 fynd rhagddi.
- Cynyddu capasiti yn Garreglwyd i dderbyn unigolion sydd â phroblemau dementia dwys a symud unigolion o ysbytai mewn modd amserol.

**2.2.4** Mae pum dangosydd yn y <u>Gwasanaethau Plant a Theuluoedd</u> yn tanberfformio a heb gyrraedd y targedau gwreiddiol a nodwyd ar y cerdyn sgorio. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant mewn 4 o'r 5 dangosydd yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth a gwella polisïau a phrosesau -

(i) 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau yn GOCH ar y Cerdyn Sgorio gyda 63.32% wedi eu cwblhau o gymharu â tharged o 85%. Bydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro o fewn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn yr un modd, fel yr esboniwyd yn adroddiad chwarter 3, roedd cohort o blant a gafodd eu gweld, ond tu allan i'r amseroedd statudol. Er enghraifft, ym mis Chwefror gwelwyd 90% o blant, ond gwelwyd rhai ohonynt yn hwyr.

Mae'r manylion fel a ganlyn:

- 74% yn unol â'r Amserlen,
- 3% yn Hwyr,
- 13% Tu Allan i'r Amserlen a
- 10% heb eu cwblhau

Mae perfformiad yn Ch1 a Ch2 wedi cael effaith ar berfformiad y flwyddyn, perfformiad a ddigwyddodd cyn ail-strwythuro'r Gwasanaeth. Ar hyn o bryd rydym yn gwella'r System WCCIS newydd a gyflwynwyd yn ystod 2017/18 er mwyn cefnogi staff i wella perfformiad y DP hwn yn 2018/19.

(ii) 08) PM24 – Canran yr asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith) sy'n GOCH gyda pherfformiad yn 68% yn erbyn targed o 90% ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'r 89% yr adroddwyd arno yn ystod 2016/17.

Cwblhawyd gwaith sylweddol yn chwarter 4 mewn perthynas ag arferion gwaith yn gysylltiedig â chyraeddiadau yn erbyn y targed hwn. Mae perfformiad yn chwarter 4 yn 91%, o gymharu â 71% yn ystod chwarter 3. Fodd bynnag, mae tanberfformiad yn ystod y tri chwarter cyntaf yn cael effaith ar ffigwr cronnol diwedd y flwyddyn, sef 68%.

O'r herwydd, dylai'r arferion gwaith diwygiedig a nodwyd ac a wireddwyd yn ystod Ch4 gynnig sylfaen gref ar gyfer bwrw ymlaen i wella perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

(iii) 09) – PM32 – Canran (%) y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith (1) neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod mewn gofal nad oedd i'w briodoli i drefniadau trosiannol, sy'n GOCH gyda pherfformiad yn 32.39% o gymharu â tharged o 15%. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r 17.53% gafodd ei adrodd yn 2016/17.

Bu'n rhaid symud 3 o blant o'u hysgolion gwreiddiol yn chwarter 4, am nifer o resymau. Mae hwn yn ostyngiad sylweddol yn erbyn perfformiad y dangosydd hwn yn chwarter 2 lle'r oedd 17 o blant wedi symud. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar y sgôr cronnol ond, yn sgil arweinyddiaeth newydd a diwygio arferion gwaith sydd wedi arwain at wella perfformiad, fel y gwelwyd yn Ch4, rydym yn rhagweld gwelliannau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf.

(iv) 10) PM33 – Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn, sy'n AMBR ar y Cerdyn Sgorio gyda 9% o'i gymharu â tharged o 5%. Mae perfformiad wedi dirywio o gymharu â'r ffigwr o 5.04% a welwyd yn 2016/17.

Mae'r 9% sy'n cael ei adrodd yn ymwneud â 13 o blant.

Mae'n bwysig nodi yma nad ydym ni fel Cyngor yn symud plant o leoliad oni bai fod wirioneddol rhaid gwneud hynny oherwydd anghenion cymhleth rhai o'r plant. Yn achos rhai o'r plant a'r bobl ifanc hyn, efallai bod rhaid symud rhai ohonynt i leoliad pontio tra bod lleoliad sy'n addas ar gyfer eu hanghenion yn cael ei ganfod. Gan amlaf, mae hyn yn cael ei gynllunio a'i wneud drwy ymgynghori â'r plentyn a'r teulu.

Gwelwyd tystiolaeth o'r angen hwnnw yn 2017/18 ac o ganlyniad barnwyd fod symud lleoliad yn hanfodol.

(v) 11) PM28 – Yr amser ar gyfartaledd yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a ddad-gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn (dyddiau) sy'n GOCH gyda pherfformiad yn 326.5 o ddyddiau yn erbyn targed o 250 o ddyddiau. Mae hyn yn welliant ar y ffigwr o 375.5 diwrnod yn Ch3.

Mae'r DP hwn yn cyfeirio at blant a ddad-gofrestrwyd yn unig ac nid yw'n cyfeirio at gyfanswm y plant ar y gofrestr. O'r herwydd, mae'n rhaid cymryd gofal wrth ddadansoddi'r data.

Eleni, ac yn ystod y chwarter hwn yn arbennig, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith sylweddol gyda phartneriaid gwasanaeth sydd wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer y plant y bernir fod angen eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Rydym wedi gweld cyfnod lle yr oedd rhai plant a oedd wedi bod ar y gofrestr ers 4 mlynedd wedo cael eu dad-gofrestru. Croesewir y ffaith bod eu hamgylchiadau wedi gwella gan arwain at dynnu eu henwau oddi ar y gofrestr.

Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod y plant hynny a ddad-gofrestrwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn mynd ag oddeutu 1200 o ddiwrnodau yr un hefo nhw yn erbyn y dangosydd hwn ac o ganlyniad, mae hynny'n sgiwio'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn. Mae gwelliannau i'r ffigwr hwn ar sail chwarterol wedi gweld gostyngiad yn nifer y dyddiau o 376 i 326.

***Camau Lliniaru*** ar gyfer pob un o'r 5 DP uchod – er mwyn gwella materion yn ystod 2018/19, byddwn yn parhau i weithredu'r mesurau a nodwyd ar ddiwedd Ch3 a -

- Bydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd gyda phwyslais arbennig ar wella amseriad yr asesiadau a gynhelir yn unol â'r rheoliadau (PM24/SCC/035)

**2.2.5** Mae dau ddangosydd yn y Gwasanaeth Dysgu wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn. Trafodwyd y ddau ddangosydd yn adroddiad Ch3 y Cerdyn Sgorio a darparwyd naratif penodol ar gyfer pob dangosydd. Byddwn yn parhau i weithredu'r mesurau lliniaru a nodwyd yn yr adroddiad Ch3 er mwyn gwella perfformiad yn ystod y flwyddyn nesaf, a nodir y mesurau hynny fel a ganlyn –

- Monitro ysgolion sy'n tanberfformio yn y Panel Cynnydd Ysgolion a'r Bwrdd Ansawdd Sirol bob pythefnos
- Parhau i weithio ar gau'r bwlch rhwng rhagolygon a pherfformiad gwirioneddol
- Parhau i geisio sicrhau gwell cysondeb ar draws y 5 ysgol o ran rhannu arfer dda, cysoni a sicrhau asesiadau cywir a defnyddio asesiadau i gynllunio ymyrraeth/addysgu priodol
- Parhau i roi cefnogaeth i athrawon er mwyn gwella Asesiadau Athro yn y Cyfnod Sylfaen
- Parhau i wella prosesau gosod targedau

**2.2.6** Mae gweddill y dangosyddion yn yr adran ar reoli perfformiad yn WYRDD neu'n FELYN, sy'n galonogol i'w nodi. Er mwyn cymharu, ac **ar sail canlyniadau chwartelau 2016/17**, byddai ein perfformiad diwedd blwyddyn yn ein gosod mewn chwartel uwch mewn 4 o'n dangosyddion (ar hyn o bryd, dim ond 7 dangosydd y mae modd eu cymharu'n genedlaethol) –

Y 4 a fyddai'n dangos gwelliant o gymharu â'u chwartelau yn 2016/17 yw,

a) PAM/015 – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymer i gyflenwi'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl sydd wedi gwella i 177 Diwrnod yn ystod y flwyddyn. Byddai'r perfformiad hwn yn gosod y dangosydd yn y chwartel uchaf yn ystod 2016/17.
b) WMT/009b – % y gwastraff a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol ac a gafodd ei baratoi i gael ei ail-ddefnyddio a / neu ei ailgylchu sydd wedi gwella eto eleni i 72.2%. Byddai'r perfformiad hwn yn gosod y dangosydd yn y safle 1af yng Nghymru ac yn y chwartel uchaf yn ystod 2016/17.
c) WMT/004b - % y gwastraff dinesig sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi sydd wedi gwella eto eleni i 0.5%. Byddai'r perfformiad hwn wedi gosod y dangosydd hwn yn y chwartel uchaf yn ystod 2016/17.
d) LCS/0002b – Nifer yr ymwelwyr â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol, sydd wedi gwella i 508k o 464k ymweliad yn 2016/17. Byddai'r perfformiad hwn wedi arwain at welliant yn y dangosydd a'i osod yn y chwartel canol uchaf ar gyfer 2016/17.

**2.2.7** Cafodd canlyniadau DP (01-11) y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016/17 eu rhyddhau'n hwyr gan Lywodraeth Cymru yn ystod Ch3. Oherwydd anghysondeb yr ystadegau a ddarparwyd gan Awdurdodau ar draws Cymru, mae'r ystadegau hyn yn cael eu trin fel rhai arbrofol at ddibenion cymharu perfformiad. O'r herwydd, ni fydd modd cymharu ein data Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefel genedlaethol am y tro.

**2.2.8** Serch hynny, gallwn ddatgan fod y 5 dangosydd a fesurir yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi dirywio o flwyddyn i flwyddyn, tra bod perfformiad Gwasanaethau Oedolion wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn mewn perthynas â 4 o'r 6 dangosydd.

**2.2.9** Dengys tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn yr holl ddangosyddion y gellir eu cymharu fod 55% naill ai wedi gwella neu wedi aros yr un fath tra bod 45% o'r dangosyddion wedi dirywio o flwyddyn i flwyddyn.

**2.2.10** Er bod y darlun cyffredinol yn un cymysg, ni fyddwn yn gwybod yn swyddogol sut ydym ni wedi perfformio mewn cymhariaeth ag Awdurdodau eraill nes bydd Data Cymru'n cyhoeddi canlyniadau 17/18 ym mis Medi. Trafodir y darlun cyffredinol yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (fel y nodir yn 2.3.2), fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith cyn i'r Cyngor ei fabwysiadu yn yr hydref.

**2.2.11** *Er mwyn gwneud cynnydd a gwella ein safle fel cyngor sy'n cyflawni,* ***mae'r UDA yn argymell -***

**2.2.11.1** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chwblhau mesurau lliniaru er mwyn cyfrannu at welliant yn 2018/19.*

***2.2.11.2*** *Y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i barhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd, gyda phwyslais arbennig ar gynnal asesiadau amserol yn unol â'r rheoliadau (PM24 / SCC/025).*

**_2.2.11.3_** *Cynnal gweithdy gyda'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch2 i gadarnhau dangosyddion perthnasol i'w cynnwys ar gerdyn sgorio 2018/19.*

**_2.2.11.4_** *Adolygu targedau 18/19 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ac yn gyrraeddadwy ac os na chyrhaeddir y targed yn ystod y flwyddyn bod rhaid sicrhau gwelliant o flwyddyn i flwyddyn o leiaf.*

**2.2.12** Mae Atodiad B yn dangos y rhaglen waith gyfan y mae'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Er bod rhai o'r rhaglenni / prosiectau yn dangos yn GOCH mae'n bwysig nodi bod y materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u monitro drwy'r Byrddau.

**2.2.13** Yn ystod 2017/18 mae'r Cyngor wedi sicrhau cyflawniadau sylweddol mewn perthynas â'i rhaglen trawsnewid. Er enghraifft (nid yw hon yn rhestr gyflawn) rydym wedi -


**2.2.13.1** Cwblhau ac agor 2 ysgol gynradd newydd yn Ysgol Cybi / Ysgol Rhyd y Llan
**2.2.13.2** Dechrau adeiladu ysgol newydd yn Niwbwrch, Ysgol Santes Dwynwen, a gorffen y gwaith o ddiweddaru Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel
**2.2.13.3** Cwblhau y gwaith o drawsnewid y Gwasanaeth Ieuenctid ac mae hynny wedi arwain at arbedion ariannol
**2.2.13.4** Cael llwyddiant cenedlaethol gyda'n rhaglen Gweithio'n Gallach a derbyn cydnabyddiaeth ar lefel Brydeinig am y prosiect
**2.2.13.5** Bwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu ein darpariaeth gofal ychwanegol cyntaf – Hafan Cefni – ac mae'r gwaith bron iawn â'i gwblhau
**2.2.13.6** Sefydlu Cyswllt Môn fel ein darpariaeth blaen tŷ

## 2.3 RHEOLI POBL

**2.3.1** Mewn perthynas â Rheoli Pobl, nodir fod perfformiad cyfraddau salwch y Cyngor (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio o dan rheoli pobl*) ar ddiwedd 2017/18 wedi methu cyrraedd y targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul ALlC o drwch blewyn yn unig, gyda **9.96** Diwrnod o Salwch fesul ALlC. Mae'r perfformiad hwn yn cael ei ddangos yn **FELYN** ar y cerdyn sgorio oherwydd lefel uchel o salwch yn ystod Ch4, sefyllfa a welwyd yn genedlaethol hefyd.

Roedd perfformiad Ch4, 3.08 diwrnod o salwch fesul ALlC, yn ddirywiad o 0.51 diwrnod o gymharu â pherfformiad Ch4 2016/17 a fyddai, petai wedi cael ei wireddu, wedi arwain at berfformiad o 9.45 diwrnod o salwch fesul ALlC yn 2017/18.

Mae Tabl 1 yn dangos perfformiad yn ystod y 3 blynedd diwethaf ac yn amlygu'r brig a welwyd yn Ch4 2017/18.





Tabl 1

**2.3.2** Cafodd y cyfraddau salwch uwch na'r arfer effaith ar 6 allan o 9 o Wasanaethau'r Cyngor yn ystod Ch4, oedd yn ei hanfod yn golygu na chyrhaeddwyd y Targed Corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul ALIC.

**2.3.3** O gofio fod ein perfformiad yn Ch1, 2 a 3 2017/18 yn well na'r targed a'r gorau yr ydym wedi eu gweld yn ystod y 3 blynedd diwethaf, cafodd y cynnydd a welwyd yn Ch4 effaith ar ein perfformiad diwedd blwyddyn. O ganlyniad, rhagwelir y bydd ein perfformiad cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn ein gosod yn y Chwartel Canol Uchaf yn genedlaethol unwaith eto eleni, o gymharu â chanlyniadau 2016/17. Mae hyn yn galonogol ac yn dangos fod yr ymdrech a wnaed i reoli cyfraddau salwch o fewn y Cyngor yn cael effaith ar ein perfformiad.

**2.3.4** Er mwyn gwella cyfraddau salwch ymhellach yn ystod 2018/19 nodwyd targedau i'r gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn sy'n seiliedig ar dueddiadau 2017/18.

**2.3.5** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r ymarfer hwn ar draws ei wasanaethau ac erbyn diwedd 2017/18, roedd 2558 o'r Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith wedi cael eu cynnal o fewn yr amserlen (73%) ac yn cael ei ddangos mewn AMBR ar y cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn (Tabl 4). Mae hyn yn ddirywiad o gymharu â pherfformiad 2016/17 oedd yn 78%. Y rheswm dros y dirywiad yw'r perfformiad gwael yn Ch1 sydd wedi cael effaith ar y perfformiad blynyddol cronnol. Roedd cyfanswm y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd (o fewn yr amserlen a thu allan iddi) hefyd yn isel, sef 85% (2982 cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith) o'i gymharu â tharged o 95%.




Tabl 4

**2.3.6** Fodd bynnag, cynigir nad oes modd gwarantu cydberthynas rhwng Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a chyfraddau salwch. Mae Tabl 4 yn dangos fod ein perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn dirywio tra bod ein cyfraddau salwch yn gwella (heblaw am Ch4 yn ystod 2017/18), felly efallai fod angen cwestiynu a ddylai hwn barhau i fod yn ddangosydd ar ein cerdyn sgorio yn y dyfodol.

**2.3.7** Mae ffigyrau'r Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb ar gyfer Ch4, 69% (88 o'r 128 oedd angen eu cynnal), wedi dirywio o gymharu â 83% a welwyd yn Ch3 ac erbyn hyn mae'n GOCH ar y Cerdyn Sgorio (pwynt i'w nodi – nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys Ysgolion).

***2.3.8 Mae'r UDA yn argymell –***

***2.3.8.1*** *Defnyddio data salwch yn barhaus i flaenoriaethu a thargedu adnoddau i gynnal panelau herio salwch yn y gwasanaethau yn ystod 2018/19, sy'n parhau i fod yn elfen bwysig o ran rheoli salwch a bod targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul ALIC yn cael ei fabwysiadu unwaith eto ar gyfer 2018/19.*

## 2.4 GWASANAETH CWSMER

**2.4.1** Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd technoleg AppMôn i roi gwybod am 2k o faterion unigol (gan gynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni cronfeydd data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Daeth 81% o'r rhain drwy'r wefan.

**2.4.2** Mae'r dangosyddion sy'n weddill o fewn yr Adain Gwasanaethau Digidol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelwyd cynnydd o 80k yn nifer yr ymweliadau unigryw yn ystod y flwyddyn o gymharu â'r llynedd (621k yn 17/18 a 541k yn 16/17). Gwelwyd cynnydd o 5k yn ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ac mae cyfanswm o 26k o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ein dilyn ni ar Facebook (12k o ddilynwyr) a Twitter (14k o ddilynwyr). Mae gan y Cyngor yn awr bresenoldeb ar Instagram lle mae 670 o bobl yn dilyn y dudalen ar hyn o bryd, cynnydd o ffigwr Ch3, sef 332 o ddilynwyr. Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a

rhagdybir y bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r sianelau hyn yn cynyddu.

**2.4.3** Mewn perthynas â Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, erbyn diwedd y flwyddyn cafwyd 71 o gwynion (o gymharu â 71 yn 16/17) a 9 o gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (o gymharu â 5 yn 15/16). Mae pob un o'r cwynion wedi derbyn ymateb ac o'r cwynion hynny cafodd 18 eu cadarnhau yn llawn (Adnoddau [7], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [6], Tai [2], Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], Trawsnewid [1] a Gwasanaethau Cymdeithasol [1]), cadarnhawyd 5 yn rhannol (Tai [3], Adnoddau [1] a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1]) a ni chadarnhawyd y 48 arall. Adroddir ar y dangosyddion hyn i'r Bwrdd Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmer.

**2.4.4** Derbyniwyd 9 o Gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [5] a Gwasanaethau Oedolion [4] a 51 o gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [38], Gwasanaethau Oedolion [13]) yn ystod y flwyddyn.

**2.4.4.1** O'r 51 o Gwynion Cam 1 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ymatebwyd i 49% ohonynt yn ysgrifenedig o fewn yr amserlen, sy'n gynnydd bychan o gymharu â 47% yn Ch3. Roedd cyfanswm o 26 o ymatebion ysgrifenedig hwyr yn ystod 2017/18, gyda 17 yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 9 yn y Gwasanaethau Oedolion.

**2.4.4.2** Roedd perfformiad yn well o ran trafodaethau Cam 1, gyda thrafodaeth yn cael ei chynnig i'r achwynydd o fewn yr amserlen yn achos 31 o'r 38 o gwynion i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 8 o'r 13 o gwynion i'r Gwasanaethau Oedolion yn ystod 2017/18.

**2.4.4.3** Roedd y Cwynion i'r Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys 2 gŵyn a oedd yn gwynion ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, a thrafodwyd y cwynion hyn yn adroddiad Ch3, lle'r oedd dau o'r trafodaethau heb eu cynnal eto ar ddiwedd Ch3, ac o'r herwydd yn hwyr. Mae'r cwynion hyn wedi eu cwblhau yn awr a rhoddwyd ymateb ysgrifenedig i 1 o'r ddau gŵyn o fewn 5 diwrnod i gynnal y drafodaeth.

**2.4.4.4** Mae tanberfformiad yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ymwneud ag anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen (roedd 45%, neu 17 o'r 38 a dderbyniwyd, yn hwyr). Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith fod perfformiad Ch1 a 2 wedi cael effaith ar y canlyniad ar gyfer y flwyddyn a gwelwyd gwelliant, gyda 8 allan o'r 13 cwyn a dderbyniwyd yn ystod ail hanner y flwyddyn yn derbyn ymateb ysgrifenedig o fewn yr amserlen. Yn ogystal, dylid nodi fod nifer y cwynion wedi gostwng yn ystod ail hanner y flwyddyn – cafwyd 25 o gwynion yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ond gwelwyd gostyngiad yn ystod yr ail hanner, gyda 13 o gwynion.

**2.4.4.5** Mae tanberfformiad yn y Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â methiant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i 7 allan o 8 achwynydd rhwng mis Hydref a mis Mawrth o fewn yr amserlen. Ymatebodd y gwasanaeth i 31% o gwynion o fewn yr amserlen (4 allan o'r 13 a dderbyniwyd).

**2.4.4.6** Yn achos 39 o'r 51 (77%) o'r cwynion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion, a Phlant a Theuluoedd, cynigiwyd trafodaeth gyda'r achwynydd o fewn yr amserlenni.

**2.4.5** Ymatebwyd i 78% o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen erbyn diwedd 2017/18 o gymharu â 77% ar ddiwedd 2016/17. Er na chyrhaeddwyd y Targed Corfforaethol o 80% mae'n galonogol fod y Cyngor wedi delio gyda 7527 o gwestiynau yn 2017/18 o gymharu â 5700 o gwestiynau yn 2016/17.

**2.4.6** Roedd cyfanswm o 919 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn 2017/18 a 204 o ymatebion hwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion hwyr o Dysgu, oedd yn cyfateb i 32% o'r ymatebion hwyr (43% o'r 150 cais a dderbyniodd y gwasanaeth), 19% yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (39% o'r 101 cais a dderbyniodd y gwasanaeth), 16% yn Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (21% o'r 157 cais a dderbyniodd y gwasanaeth), 9% yn Trawsnewid (26% o'r 70 a dderbyniodd y gwasanaeth) ac 8% yn Adnoddau (13% o'r 129 a dderbyniodd y gwasanaeth). Mae ein hymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn bwysig ac mae'r UDA a Phenaethiaid Gwasanaeth yn parhau i fonitro perfformiad Rhyddid Gwybodaeth yn ofalus.

***2.4.7 Mae'r UDA yn argymell –***

***2.4.7.1*** *Annog y Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant a Teuluoedd) i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion a'u bod yn sicrhau, drwy newid yr arferion gweithio cyfredol, bod ymatebion ysgrifenedig i gwynion Cam 1 yn cael eu cwblhau. Dylid gweithredu hynny drwy newid arferion gwaith presennol.*

## 2.5 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.5.1** Mae gorwariant o £1.704m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn unol â'r disgwyliad a'r adroddiadau a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn.

**2.5.2** Mae £2.351m i'w briodoli i gyllidebau gwasanaethau, sy'n cynnwys nifer o achosion o orwariant a thanwariant. Mae'r Gwasnaethau sy'n parhau i fod dan bwysau ariannol sylweddol yn debyg i 2016/17 (Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i ostwng lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth. Roedd tanwariant o £0.655m mewn Cyllid Corfforaethol, yn rhannol oherwydd newid yn y dull o gyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Mae tanwariant y Cyngor yn 1.35% o gyllideb net y Cyngor. Mae'r ffaith nad oedd modd cadw gwariant refeniw'r Cyngor o fewn y gyllideb yn 2017/18 yn achos o bryder ond mae llwyddiant y Cyngor i gadw o fewn y gyllideb a chynyddu balansau cyffredinol mewn blynyddoedd blaenorol wedi caniatáu i'r Cyngor gyllido'r gorwariant ar yr un pryd â chynnal y Balansau Cyffredinol ar lefel dderbyniol.

**2.5.3** Fodd bynnag, os na fydd modd i wasanaethau ymateb i rai o'r trafferthion ariannol y maen nhw'n eu hwynebu yn ystod 2018/19, mae risg sylweddol y bydd gorwariant pellach yn 2018/19 fydd yn lleihau balansau cyffredinol y Cyngor i lefel annerbyniol a bydd rhaid rhoi sylw i hynny mewn cyllidebau yn y dyfodol er mwyn sicrhau fod y balansau'n cael eu codi'n ôl i'r lefel angenrheidiol.

**2.5.4** Mae'n bosib y bydd yr alldro dros dro yn newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r wyneb rhwng nawr ac adrodd ar y Datganiad o Gyfrifon terfynol ym mis Medi.

**2.5.5** Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 4' a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mai.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

***3.1.1*** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant -*

**3.1.1.1** Bydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd gyda phwyslais arbennig ar wella amseriad yr asesiadau a gynhelir yn unol â'r rheoliadau (PM24/SCC/035).

**3.1.1.2** Bydd Gwasanaethau Oedolion yn gwella materion yn ystod y flwyddyn nesaf drwy –

**3.1.1.2.1** Ddyfarnu Contract Gofal Cartref newydd a diwygiedig i ddarparwyr erbyn diwedd Chwarter 1 18/19 gyda'r disgwyl y bydd y gwaith o drosglwyddo'r contract yn cael ei gwblhau yn ystod Chwarter 2 18/19. O ganlyniad, dylid tracio gwelliannau wrth i 2018/19 fynd rhagddi.

**3.1.1.2.2** Cynyddu capasiti yn Garreglwyd i dderbyn unigolion sydd â phroblemau dementia dwys a symud unigolion o ysbytai mewn modd amserol.

**3.1.1.3** Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn gwella drwy:

**3.1.1.3.1** Fonitro ysgolion sy'n tanberfformio yn y Panel Cynnydd Ysgolion a'r Bwrdd Ansawdd Sirol bob pythefnos

**3.1.1.3.2** Weithio ar gau'r bwlch rhwng rhagolygon a pherfformiad gwirioneddol

**3.1.1.3.3** Parhau i geisio sicrhau gwell cysondeb ar draws y 5 ysgol o ran rhannu arfer dda, cysoni a sicrhau asesiadau cywir a defnyddio asesiadau i gynllunio ymyrraeth/addysgu priodol

**3.1.1.3.4** Parhau i roi cefnogaeth i athrawon er mwyn gwella Asesiadau Athro yn y Cyfnod Sylfaen

**3.1.1.3.5** Parhau i wella prosesau gosod targedau

**3.1.2** Defnyddio data salwch yn barhaus i flaenoriaethu a thargedu adnoddau i gynnal panelau herio salwch yn y gwasanaethau yn ystod 2018/19, sy'n parhau i fod yn elfen bwysig o ran rheoli salwch a bod targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul ALlC yn cael ei fabwysiadu unwaith eto ar gyfer 2018/19.

**3.1.3** *Annog y Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant a Theuluoedd) i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion a'u bod yn sicrhau, drwy newid yr arferion gweithio*

*cyfredol, bod ymatebion ysgrifenedig i gwynion Cam 1 yn cael eu cwblhau. Dylid gweithredu hynny drwy newid arferion gwaith presennol.*

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

# Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2017/18

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 71 | 71 | 71 | 59 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau | - | ↓ | 9 | - | 5 | 5 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↓ | 28 | - | 25 | 21 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 92% | 80% | 93% | 64% |
| 05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 112 | - | 191 | 261 |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 51 | - | 54 | 53 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↑ | 753 | - | 566 | 712 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↑ | 78% | 80% | 77% | 67% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 919 | - | 1037 | 854 |
| 10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | Gwyrdd / Green | → | 12% | 15% | 13% | 12% |
| 11) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd) | - | - | N/A | - | 78% | 67% |
| 12) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd) | - | - | N/A | - | 100% | 100% |
| 13) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd) | - | - | N/A | - | 83% | 77% |
| 14) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd) | - | - | N/A | - | 87% | 90% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 15) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | - | - | - | - | - |
| 16) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 2k | - | 1k | - |
| 17) Nifer o daliadau dros y we a ffôn | - | ↑ | 16k | - | 10k | - |
| 18) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | Gwyrdd / Green | → | 25k | 21k | 21k | - |
| 19) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 621k | - | 541k | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2252 | - | 2258 | 2310 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1244 | - | 1250 | 1303 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Melyn / Yellow | ↓ | 9.96 | 9.75 | 9.78 | 11.68 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.63 | - | 4.72 | 11.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.32 | - | 5.06 | 6.79 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 10.39 | 9.5 | - | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.85 | | - | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.55 | - | - | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Melyn / Yellow | ↓ | 9.67 | 9.5 | - | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.32 | - | - | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.35 | - | - | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Ambr / Amber | - | 73% | 80% | 78% | 84% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Coch / Red | - | 85% | 95% | 91% | - |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Coch / Red | - | 69% | 80% | 57% | - |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | ↓ | 11% | - | 10% | - |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↑ | 90.50% | 80% | 80% | - |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 91.40% | 98% |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | → | 12 | - | 15 | 26 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | ↓ | £126,157,000 | £127,860,940 | 1.35% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | ↓ | £126,157,000 | £127,860,940 | 1.35% | - | - |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | ↑ | £39,759,000 | £20,064,000 | -49.54% | - | - |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↓ | £1,954,000 | £1,555,000 | -20.40% | - | - |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£25,556,650 | -£29,050,430 | 13.67% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | ↑ | £12,377,000 | £6,445,000 | -47.93% | - | - |
| 07) Chost benthyca | - | ↑ | £4,257,000 | £4,004,650 | -5.93% | - | - |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | - | ↑ | - | 82.28% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 99.00% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | → | - | 98.80% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn/Yellow | ↑ | - | 97.40% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn/Yellow | ↓ | - | 100.50% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↓ | - | 101.15% | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Tuedd Bl i Fl Yr on Yr Trend | Chwartel 17/18** Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 17.44 | 22 | 20.51 | ↑ | - |
| 02) LI/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 96 | 93 | 94.4 | ↑ | - |
| 03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 93.25 | 90 | 90.48 | ↑ | - |
| 04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Coch / Red | ↓ | 6.58 | 1.5 | 6.05 | ↓ | - |
| 05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | → | 59.26 | 40 | 62.6 | ↓ | - |
| 06) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↓ | 62.65 | 62 | 33.3 | ↑ | - |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Coch / Red | ↑ | 63.32 | 85 | 79.35 | ↓ | - |
| 08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith) | Coch / Red | ↓ | 67.57 | 90 | 89.17 | ↓ | - |
| 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | Coch / Red | ↓ | 32.39 | 15 | 17.53 | ↓ | - |
| 10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↓ | 9 | 5 | 5.04 | ↓ | - |
| 11) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Coch / Red | → | 326.5 | 250 | 266 | ↓ | - |
| 12) Presenoldeb – Cynradd (%) | Melyn / Yellow | ↓ | 94.6 | 94.8 | 94.8 | n/a | - |
| 13) Presenoldeb – Uwchradd (%) | Ambr / Amber | ↓ | 93.3 | 94.6 | 94.6 | n/a | - |
| 14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd | - | - | 49 | - | - | n/a | - |
| 15) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd | - | - | 73 | - | - | n/a | - |
| 16) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ | Coch / Red | ↓ | 50.5 | 63.4* | 58.8* | ↓ | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 17) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | Melyn / Yellow | ↑ | 88.9 | 90.1 | 87.6 | ↑ | Canrif Uchaf / Upper Median |
| 18) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.4 | 91 | 89.4 | ↑ | Uchaf / Upper |
| 19) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS | Ambr / Amber | ↑ | 85.8 | 88.4 | 84.7 | ↑ | Isaf / Lower |
| 20) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 286k | 285k | 288k | ↓ | Uchaf / Upper |
| 21) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | | 259k | 260k | 272k | ↓ | - |
| 22) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol) | Gwyrdd / Green | → | 0 | 0 | 0 | → | - |
| 23) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | Melyn / Yellow | → | 89% | 92 | 90.2 | ↓ | - |
| 24) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol | Melyn / Yellow | ↓ | 79% | 80 | 80.1 | ↓ | - |
| 25) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↓ | 22.4 | 23 | 28 | ↑ | - |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 75 | 70 | - | n/a | - |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | - | - | 4 | - | - | n/a | - |
| 28) PAM/015 - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 177 | 200 | 238.8 | ↑ | Uchaf / Upper |
| 29) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | - | - | - | 94 | 93.4 | - | - |
| 30) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | Gwyrdd / Green | ↓ | 98.29 | 100 | 97.31 | ↑ | Uchaf / Upper |
| 31) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | Gwyrdd / Green | ↓ | 72.21 | 67 | 65.79 | ↑ | Uchaf / Upper |
| 32) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | Gwyrdd / Green | → | 0.5 | 5 | 6.6 | ↑ | Uchaf / Upper |
| 33) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 8.9 | 10 | 10.1 | ↑ | - |
| 34) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | Gwyrdd / Green | ↑ | 43.5k | 30k | 113k | ↓ | - |
| 35) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | Gwyrdd / Green | ↑ | 508k | 474k | 464k | ↑ | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 36) PAM/023 - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98 | 80 | 98 | → | Uchaf / Upper |

*** yn seiliedig ar yr hen gwricwlwm, ** pam yn cymharu hefo canlyniadau 16/17**

Atodiad B

Mae'r ddogfen yma wedi'i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i'r -

- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau, a'r**
- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes**

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi ei gwblhau | Prosiect wedi ei gwblhau |
| Ar y trywydd iawn | Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn |
| Ar ei hôl hi | Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thŷ ôl i'r amserlen ddisgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi dechrau |

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau | | |
|---|---|---|
| **Rhaglenni** | **Prosiectau Unigol** | **RAYG a Diweddariad** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | Mae'r amserlen ar gyfer adeiladu ysgol Santes Dwynwen yn Niwbwrch wedi llithro i Mawrth 2019<br><br>Mae gwaith paratoadol ar gyfer gwaith adnewyddu Ysgol Brynsiencyn dros gyfnod yr haf wedi digwydd dros y pasg. |
| | **Llangefni** | Penderfynwyd y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus naill ai drwy gynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu fel ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai'n rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn [h.y. erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2018/19] bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod cyflymder cyfredol y gwelliant yn cynyddu a bod y rhagolygon o ran niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi.<br><br>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol ar gyfer dyfodol Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn yn cael ei gynnal rŵan. |
| | **Seiriol De Ddwyrain** | Y broses ymgynghori ffurfiol yn cael ei gynnal rŵan |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Mae cynnydd da yn cael ei wneud efo'r gwaith adeiladu ac mae'r adeiladwyr yn hyderus eu bod yn cadw at yr amserlen a bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2018 |
| | **Gofal Ychwanegol Amlwch** | Mae darn o waith yn cael ei wneud gan yr Adran Dai i edrych ar anghenion tai yn fwy eang o fewn yr ardal sydd yn cynnwys ystyried TGY. |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Penderfynwyd y Pwyllgor Gwaith bod Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol. Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, dylid adeiladu'r datblygiad un ai tu ôl i'r ysgol fel rhan o ddatblygiad integredig gyda'r ysgol yn parhau ar agor neu dylid ei adeiladu gan ddefnyddio rhannau o adeilad yr ysgol petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol. |
| | **Tai a chefnogaeth mewnol** | Bwriad newydd y prosiect ydi i gadw'r gwasanaeth yn fewnol i'r Cyngor ond i ailfodelu er mwyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau arbedion ariannol. Esiamplau o sut y byddwn yn ail-fodelu yn cynnwys:<br><br>• ail-strwythuro'r cohort staffio,<br><br>• edrych ar lefelau gofal dros 24 awr<br><br>• cadarnhau bod yr oriau o gefnogaeth yn cefnogi annibyniaeth<br><br>• mwy o ddefnydd o offer telecare. |
| | **Tai a Chefnogaeth Allanol** | Bwriad y prosiect fydd i:<br><br>• Ailfodelu ac ail ddylunio'r gwasanaethau mewn ymgynghoriad agos gyda gofynion y Rhaglen Cefnogi Pobl<br>• Sicrhau bod y gwasanaeth byw â chymorth yn parhau i fod yn ariannol gynaliadwy yn y tymor hwy.<br>• Gwneud arbedion ariannol (o leiaf £255k) |
| | **Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref** | Mae'r tendr bellach wedi cau ac mae'r gwerthusiad wedi dechrau. Contractau newydd i fod ar waith erbyn diwedd Ch1 2018/19 |
| | **In house day Services** | Prosiect Arfaethedig yn cael ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Ebrill. |
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd, diwylliant a Market Hall** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Amserlen newydd wedi cytuno yn y bwrdd prosiect yn Q4.<br><br>Melin Llynnon a'r Tai Crynion– Cytundeb i hysbysebu'r ased mewn cylchgrawn arbenigol Mehefin 2018 i geisio denu diddordeb masnachol.<br><br>Carchar a Llys Biwmares – Gweithio mewn partneriaeth gyda Cyngor tref Biwmares ar amserlen i drosglwyddo'r asedau i Cyngor Tref Biwmares erbyn Hydref 2018 |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Gweithio ar y broses ail strwythuro staff i fod mewn lle erbyn Ch2<br><br>Gweithio ar y broses o drosglwyddo'r llyfrgelloedd cymunedol yn Biwmares a Rhosneigr erbyn Ch2<br><br>Gweithio ar materion cau Llyfrgelloedd Cemaes, Moelfre a Niwbwrch |
| | **Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid** | Y strwythur newydd yn weithredol yn Ch4. Adroddiad cau lawr wedi ei chyflwyno a'i derbyn gan y Bwrdd ar y 26 Mawrth 2018 |
| | **Market Hall** | Mae'r prosiect ar ei hol hi a mae'r dyddiad cwblhau nawr yn Rhagfyr 2018. Mae materion |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyllidol yn gysylltiedig gyda arian ERDF wedi gohirio'r prosiect. |
| **Hamdden** | | |
| **Ynys Ynni** | | Mae nifer o gyfarfodydd briffio Aelodau wedi'u cynnal o ran Wylfa Newydd a nifer yn y broses o gael eu trefnu o ran Grid Cenedlaethol. |
| **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | | Mae'r bwrdd Sipsiwn a Theithwyr yn adolygu'r amserlen ar gyfer y prosiect yn Ch1 18/19. Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y safle Star. |
| **Strategaeth Ataliol** | **Ymyrraeth gynnar** | |
| | **Gweithredu Strategaeth Taclo Tlodi** | |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | Gweler y Dangosyddion Perfformiad 31 + 32 ar y Cerdyn Sgorio i weld cyrhaeddiad |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | Mae'r digwyddiad llifogydd mawr ar 22/11/2017 wedi amlygu'r angen i ddyfalbarhau gyda chynlluniau o'r fath, gyda phroblemau ym Miwmares, Porthaethwy, Llanfairpwll, Llangefni, Dwyran nifer o lefydd eraill. Mae adroddiadau FLWMA yn cael eu paratoi ar gyfer yr holl ardaloedd lle mae eiddo wedi cael eu heffeithio. Gobeithir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gyllid i ddatrys rhai o'r materion hyn. |

| **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen / Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **RAYG a Diweddariad byr** |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | Recriwtio ar y We - Cafodd yr holl waith ffurfweddiad oedd yn eistedd yn TEST ei ddileu / oroesi oherwydd gwaith uwchraddio ar y server newydd. Mae'r peilot wedi ei atal dros dro.<br><br>Costau teithio - yn peilota hwn o Ch1 ymlaen, bydd y gwaith hyn yn cael ei rolio allan dros gyfnod. Dyddiad cwblhau Cam 1 o'r prosiect yn cael ei fwrw nol o ganlyniad i Rhagfyr 2018. |
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb Yn Wyneb** | Cytundeb ar ddau gynllun peilot. Mae'r oedi yn yr ail-strwythuriad o fewn y gwasanaeth llyfrgell yn golygu oediad i gychwyn y peilot. Oherwydd yr oedi yn agor Neuadd y Farchnad tan y gaeaf (Rhagfyr 2018), mae hyn yn galluogi ni i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgymryd a peilot mwy cynhwysfawr yn Amlwch dros gyfnod yr haf. |
| | **Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid** | Trafodaethau'n mynd rhagddynt i gyfuno'r canolfannau galwadau cyfredol. – mae'r gwaith wedi'i ohyrio am gyfnod o 18 mis. |
| | **Cyswllt Dros Y Ffôn + Newid Sianel** | Mae pob canolfan cyswllt wedi llwyddo mynd yn fyw heb unrhyw anhawster i'r cyhoedd  Mae yna welliant o'r niferoedd o alwadau sydd yn cael ei methu yn cael ei dystiolaethu yn y gwasanaethau hynny sydd wedi mynd yn fyw (hyd at 80% llai o alwadau yn cael ei methu).  Dim ond un canolfan gyswllt sydd yn eisiau bellach (Budd-daliadau), sydd ar hyn o bryd yn cael ei destio gan ddefnyddwyr. |
| | **CRM** | Gweithredwyd y Modiwl Gwastraff ac Ailgylchu. Mae oedi gyda sicrhau'r cyswllt AD ac integreiddio Teleffoni'n yn golygu bod y prosiect yn Goch - mae cynlluniau wedi cael eu sefydlu i fynd i'r afael â'r oedi hwn. |
| | **Gwella Prosesau Busnes** | Y grwp wedi cadarnhau eu bod yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o edrych ar VOIDS. Rheolwraig VOIDS wedi sgopio'r proses presennol allan i'w craffu gan y grwp yn eu cyfarfod nesaf sydd wedi'i ohirio dwy waith ond yn cyfarfod yn Ch1 18/19. |
| | **Cydymffurfiaeth a Boddhad** | |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Roedd y bid am arian cyfalaf yn llwyddiannus gyda £250,000 yn cael ei neilltuo tuag at yr achos gyda prosiectau tebyg i raglen Refit a prosiectau mewnol. Mae'r cytundebau 'Refit Cymru Client Support' yn ogystal a'r 'Local Partnership Access' wedi eu cyflwyno i'r gwasanaeth cyfreithiol er mwyn cael sel-bendith cychwynol.<br><br>Cyflwyniad ar y cynllyn 2018/19 i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ebrill / Mai 2018. |
| **Strategaeth TGCh** | | Strategaeth TG Digidol – 'Ynys Ddigidol' wedi cael ei chymeradwyo ac yn berthnasol i 2016-2020. Mae'r strategaeth yn cael eu adolygu yn dilyn Cynllun Y Cyngor. |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Ar y trywydd iawn |
| **Strategaeth Cyfathrebu** | | Strategaeth Cyfathrebu dywededig wedi ohirio tan Rhagfyr 2018 |

**ATODIAD C**

## Canlyniadau Refeniw Rhagdybiedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 4

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllideb sydd wedi ei datganoli i'r Ysgolion | 44,064 | 44,064 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 2,809 | 3,722 | 913 | - 23 | 890 |
| Diwylliant | 1,364 | 1,227 | -137 | -7 | -144 |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 22,541 | 22,687 | 146 | 68 | 214 |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,293 | 10,075 | 1,782 | -5 | 1,777 |
| | | | | | |
| **Tai** | 1,034 | 1,087 | 53 | -45 | 7 |
| | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | |
| Priffyrdd | 6,633 | 6,572 | -61 | -39 | -100 |
| Eiddo | 1,172 | 1,277 | 105 | -50 | 55 |
| Gwastraff | 6,294 | 6,083 | -211 | 148 | -63 |
| | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 2,006 | 2,069 | 63 | -46 | 17 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,269 | 2,260 | -9 | -9 | -18 |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Trawsnewid** | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,214 | 1,140 | -74 | 12 | -61 |
| TGCh | 1,817 | 1,861 | 44 | 1 | 45 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 901 | 744 | -158 | 0 | -158 |
| | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,933 | 3,096 | 163 | -166 | -3 |
| | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,571 | 1,752 | 181 | 0 | 181 |
| | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 2,212 | 2,005 | -207 | 1 | -207 |
| | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 737 | 656 | -81 | 0 | -81 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | **109,864** | **112,377** | **2,514** | **-162** | **2,351** |
| | | | | | |
| Ardollau | 3,335 | 3,333 | -2 | 0 | -2 |
| Cyllido Cyfalaf | 8,060 | 7,611 | -449 | 0 | -449 |
| Addasiad Corfforaethol ar gyfer Dibrisiant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhyddhad Ardrethol Dewisol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | -106 | 0 | 106 | 0 | 106 |
| Cyllido a defnydd o Arian wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogaeth CRT | -678 | -760 | -82 | 82 | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,682 | 5,372 | -310 | 0 | -310 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **16,293** | **15,556** | **-737** | **82** | **-655** |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Gwasanaeth / Swyddogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyfanswm 2017/18 | **126,157** | **127,933** | **1,775** | **80** | **1,696** |
| - | | | | | |
| **Cyllido 2017/18** | | | | | |
| Trethi Annomestig | -23,002 | -23,002 | -0 | 0 | -0 |
| Y Dreth Gyngor | -33,505 | -33,577 | -72 | 138 | 66 |
| Grant Cymorth Refeniw | -69,650 | -69,650 | -0 | 0 | -0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2017/18** | **-126,157** | **-126,229** | **-72** | **138** | **66** |
| | | | | | |
| **Net** | 0 | 1,704 | 1,703 | 58 | 1,762 |

*** NODYN – mae'r ffigyrau uchod wedi cael eu rowndio i fyny i'r mil agosaf.**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18.6.18** |
| **Pwnc:** | **Dogfen Cyflawni Blynyddol 18/19** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Dafydd Rhys Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Carys Edwards** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**752111**<br>**GethinMorgan@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor rhoi'r hawl i Swyddogion drwy law y Deilydd Portffolio i ymgymryd ar dasg o orffen y cynllun drafft ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu y Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 18/19 yn ei gyfarfod ar y 16eg o Orffennaf, 2018.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd gadarnhau pa mor ymarferol ydyw o'i gyflawni fel cynllun sydd yn cydnabod y meysydd hynny o waith sydd wedi'i amserlennu ar gyfer y flwyddyn gyfredol o dan flaenoriaethau Cynllun y Cyngor.<br><br>At ddibenion eglurder mae'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol yn cael ei adnobod fel arall fel y Cynllun Gwella (a amlinellir yn y Cyfansoddiad). |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oes unrhyw opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan fod hyn yn rhan o'r Fframwaith Polisi sy'n nodi'r angen i ddogfen o'r fath gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd ar gyfer gwella a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn ystod 2018-19 sydd yn clirio'n swyddogaeth ni o wellhad parhaol sy'n cael ei gydnabod yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol - Cymru 2009 a 2011. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** | Cytuno gyda'r cyfeiriad gweithredol ar gyfer 18/19 ond angen ei fireinio ymhellach i bwrpas cyhoeddi. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw pellach |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** | Dim sylw pellach |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Dim yn Berthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2018/19 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022 fel a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ym mis Medi 2017 |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL - 2018/19

DRAFFT

**V4 - 6.6.18**

## CYFLWYNIAD

Mae'n fraint gennyf gyflwyno ein dogfen cyflawni flynyddol sy’n canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i wireddu'r dyheadau uchelgeisiol a bennwyd yng Nghynllun y Cyngor Sir am y cyfnod 2017-22.

Mae’r cynllun yn gosod targed inni weithio tuag ato ac mae’n uchelgeisiol ond yn realistig. Datblygwyd a ffurfiwyd ein cynllun yn seiliedig ar farn pobl leol, ein partneriaid yn ogystal â blaenoriaethau gwleidyddol lleol a chenedlaethol megis yr agenda lles. Mae'r blaenoriaethau hyn yn sylfaen ac yn ganolbwynt i Gynllun y Cyngor sy’n gyrru ein disgwyliadau a’n gwaith strategol a dydd i ddydd hyd at 2022.

O ganlyniad i’r adborth a gafwyd mae’r Cyngor wedi mabwysiadu ei brif nod, sef ein bod.....” yn gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus” gyda’r thema allweddol sydd yn rhedeg drwy’n holl waith o ddydd i ddydd yw bod angen inni sicrhau gwasanaethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor wedi penderfynu ar amcanion penodol dros y blynyddoedd nesaf, sef:

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
    - Swyddi a Chyfleoedd Gwaith
    - Addysg a Sgiliau
    - Iechyd a Lles
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol a phosib
    - Cefnogaeth ar gyfer oedolion hyn a bregus
    - Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd a phlant
- Gweithio gyda’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol a newid datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol
    - Datblygu a Hyrwyddo
    - Trawsnewid

Hon yw’r flwyddyn gyntaf inni gynhyrchu Dogfen Gyflawni Flynyddol fel rhan o’r Cyngor presennol. Mae'r ddogfen (a elwir hefyd yn Gynllun Gwella) yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol dros y 12 mis nesaf ac yn amlygu ein cymhelliant i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau fel y disgwylir gan Lywodraeth Cymru. Mae’n bwysig nodi fod y ddogfen cyflawni blynyddol hon yn amlinellu’r gwaith y byddwn yn ymgymryd a yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae’r gwaith hyn a’r adnoddau cysylltiedig wedi cael eu hasesu a caent eu cyllido a’i gwireddu drwy -

- Adnoddau a geir yng nghyllideb refeniw y Cyngor neu drwy
- Arian sydd wedi ei gydnabod fel rhan o raglen cyfalaf y Cyngor

Mae unrhyw waith fydd angen ei gyllido ymhellach na 2018/19 wedi ei gysidro fel rhan o’r gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor neu raglen cyfalaf y Cyngor.

Byddwn hefyd yn gwneud y gwelliannau gan gadw mewn cof egwyddorion cynaliadwyedd a chydraddoldeb bob amser a hynny mewn amser o gynni ariannol eithriadol.

Mae gwrando ar yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud fel trigolion a busnesau lleol Ynys Môn wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses hon. Bydd ymgysylltu yn y fath fodd yn parhau i fod yn rhan allweddol o’n ffordd o weithredu.

Edrychwn ymlaen at ei gyflawni gyda’ch cydweithrediad chi.

**Llinos Medi** (Arweinydd y Cyngor)



DRAFT

**AMCAN 1 – SICRHAU BOD POBL YNYS MÔN YN GALLU FFYNNU A CHYFLAWNI EU POTENSIAL TYMOR HIR**

**SWYDDI A CHYFLOGAETH**

- Fel rhan o Fid Twf Gogledd Cymru byddwn yn cyd-weithio ag eraill i sicrhau'r buddsoddiad gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru i ddatganoli pwerau i Ogledd Cymru er budd creu 5000 o swyddi, cefnogi'r economi lleol a gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu
- Byddwn yn cefnogi'r economi lleol drwy adeiladu cyfanswm o 15 unedau busnes newydd yn
    - Llangefni a
    - Chaergybi

  gan hefyd ymestyn Canolfan Fusnes Môn ym Mryn Cefni i bwrpas ehangu'r gofod ar gyfer busnesau lleol.

- Byddwn yn cwblhau'r ffordd gyswllt yn Llangefni i alluogi gwell cyswllt rhwng yr A55 a Choleg Menai fydd o ganlyniad yn creu'r cyfle i weld datblygiadau sgiliau a hyfforddi pellach gan hefyd agor tir diwydiannol newydd.
- Byddwn yn cwblhau'r gwaith o adfywio Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi i bwrpas cartrefu busnesau lleol ag ail-leoli'r llyfrgell bresennol.

**ADDYSG A SGILIAU**

- Byddwn yn drafftio, ymgynghori ac yn mabwysiadu strategaeth moderneiddio ysgolion newydd fydd yn amlygu'r pwysigrwydd o ddatblygu amgylcheddau Dysgu newydd i bwrpas gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau a chyrhaeddiad ein plant dros y blynyddoedd i ddod gyda'r ffocws cynnar ar ddatblygu'r model addysgol yn nalgylch Amlwch.
- Byddwn yn gweithio ar gwblhau'r Ysgol newydd yn Niwbwrch – Ysgol Santes Dwynwen, fel ei fod yn adnodd cymunedol cynaliadwy i'r dyfodol
- Byddwn yn gwneud penderfyniadau ar ddyfodol ysgolion cynradd Llangefni a'r cyffiniau gan sicrhau ein bod yn cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru i'w gwireddu a chychwyn ar y gwaith o adeiladu.
- Byddwn hefyd yn penderfynu ar ddyfodol addysg yn ardal Seiriol drwy gysidro dyfodol ysgolion Llandegfan, Biwmares a Llangoed.
- Byddwn yn parhau i anwytho Penaethiaid newydd y Sir (13) drwy gynnig cynhaliaeth a chefnogaeth reolaidd gan hefyd ddatblygu ein Penaethiaid dros dro (3) ac adnabod darpar benaethiaid i'r dyfodol a'u cefnogi hwy drwy gynnig profiadau a chyfleoedd datblygol.
- Byddwn yn lansio rhaglen newydd ***Denu Talent Môn*** eleni fydd yn gyfle i 9/10 o bobl 16 oed neu drosodd i ymgymryd â hyd at 12 wythnos o brofiad o weithio gyda'r Cyngor gyda chyflog dros gyfnod yr haf. Bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i gael blas ar waith awdurdod lleol modern drwy ymgymryd â phrosiectau a thasgau penodol.

**IECHYD A LLES**

- Byddwn yn gweithio i gynyddu cyfranogiad ein trigolion (gyda phwyslais ar ein hifanc) mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- Byddwn yn cyd-weithio ag eraill ac yn defnyddio arian cyfalaf er mwyn sefydlu cae 3G cyntaf yr Ynys ym Mhlas Arthur, Llangefni gan hefyd fuddsoddi mewn offer ffitrwydd newydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.
- Byddwn yn gweithio ag eraill i ddod a 75 o dai gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r niferoedd o dai fforddiadwy sydd yn cael ei adeiladu

DRAFT

**AMCAN 2 - CEFNOGI OEDOLION A THEULUOEDD BREGUS ER MWYN EU CADW'N DDIOGEL, YN IACH AC MOR ANNIBYNNOL Â PHOSIBL**

**CEFNOGAETH AR GYFER OEDOLION HYN A BREGUS**

- Byddwn yn cwblhau'r datblygiad o'r tŷ gofal ychwanegol yn Llangefni - Hafan Cefni, fydd yn galluogi 63 person i fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cefnogol
- Byddwn yn cychwyn y gwaith paratoi o gynllunio ar gyfer tŷ gofal ychwanegol yn ardal Seiriol – Biwmares
- Byddwn yn cyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd yng Ngharreglwyd i ddarparu gofal dementia gwell gyda'r nod o atal trosglwyddiadau dianghenraid i leoliadau gofal amgen ac anaddas e.e. ysbytai neu ofal preswyl all-sirol
- Byddwn yn cwblhau'r gwaith mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd o ail-dendro'r cytundeb gofal cartref i leoliadau llai fel bod y ddarpariaeth yn well.
- Cynyddu'r niferoedd o hybiau cymunedol ar draws yr Ynys mewn ardaloedd tebyg i -
    - Amlwch
    - Llangefni
    - Cemaes
    - Porthaethwy
    - Niwbwrch a
    - Benllech

  fydd yn helpu'r agenda ataliol ac yn cadw unigolion yn actif ac yn brysur o fewn eu cymunedau.

- Adolygu a newid trefniadau gofal dydd sydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a gan ddarparwyr eraill fel bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar gyflawni dyheadau personol.
- Cwblhau'r datblygiad yn Llawr y Dref, Llangefni fydd yn rhoi'r cyfle i'r rhai hynny sydd gydag anawsterau dysgu i symud i fflatiau dros dro er mwyn cael eu hasesu, cefnogi a'u paratoi i fyw'n annibynnol.

**CEFNOGAETH AR GYFER TEULUOEDD A PHLANT**

- Byddwn yn edrych ar ffyrdd o gryfhau ein gwasanaethau ataliol a llesiant i blant, phobl ifanc a'r rhai bregus o fewn ein cymdeithas, gyda'r nod o gynyddu gwytnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau.
- Byddwn yn cyd-weithio ag eraill i godi oddeutu 60 o dai cymdeithasol newydd ar yr Ynys eleni yn yr ardaloedd a ganlyn –
    - Llanddeusant
    - Cemaes
    - Caergybi
    - Dwyran
    - Penysarn
    - Niwbwrch
- Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o hyrwyddo Teulu Môn fel bod gan holl deuluoedd yr Ynys fan penodol i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ymwneud â phlant, a theuluoedd sydd â phlant, rhwng 0-25 oed.
- Byddwn yn parhau i ddiogelu plant a phobl ifanc yr Ynys.

- Byddwn yn treialu lleoliadau ehangach i rai o'n plant mewn gofal drwy un ai gynnig mwy o wasanaethau, cynyddu'r lleoliadau gofal maeth neu ddarparu gofal mewn ffordd wahanol (amgen).

**AMCAN 3 – GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU ER MWYN SICRHAU EU BOD YN GALLU YMDOPI'N EFFEITHIOL Â NEWID A DATBLYGIADAU TRA'N GWARCHOD EIN HAMGYLCHEDD NATURIOL**

**DATBLYGU A HYRWYDDO**

Byddwn yn -

- Gwireddu'n cynllun rheoli cyrchfan drwy ganolbwyntio'n bennaf ar farchnata'r Ynys mewn cydweithrediad ag ymgyrch blynyddol Croeso Cymru - 'Year of the Sea'
- Croesawu 52 o longau mordeithio a dros 32,000 o ymwelwyr i Gaergybi gan ysgogi'r ymwelwyr i ymweld â chyrchfannau twristiaeth lleol i dderbyn croeso cynhenid Cymreig
- parhau gyda'n bwriad a'n cyflawniad o sicrhau bod dros 70% o'n gwastraff teuluol yn cael ei ailgylchu gan hefyd atal gwastraff aiff i bwrpas tirlenwi
- buddsoddi £250,000 mewn nifer o brosiectau effeithlonrwydd ynni ar draws stad y Cyngor gan ganolbwyntio ar ein hysgolion / canolfannau hamdden.
- ogystal yn cwblhau gwaith o ymchwilio i'r meysydd hynny o'r stad ac yn paratoi cynllun ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod lle bydd buddsoddiad pellach yn medru creu mwy o arbedion effeithlonrwydd ynni.
- Cydlynu'r rhaglen Ynys Ynni i liniaru effeithiau, a gwella'r buddion a geir yn sgil prosiectau ynni mawr.
- sicrhau bod y Cyngor Sir yn dylanwadu ar brosesau DCO a Chynllunio Pŵer Niwclear Horizon a'r Grid Cenedlaethol
- canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau atal llifogydd ym
    - Mhentraeth
    - Biwmares a
    - Bodffordd

  eleni ac yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer ceisiadau am gyllid i gynlluniau ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll yn 2019/20 (i bwrpas eu gwarchod i'r dyfodol o effeithiau amgylcheddol amrywiol)

DRAFT

**TRAWSNEWID**

- parhau i gyd-weithio gyda'n cymunedau i gynllunio lle gyda'r bwriad o'i harfogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros eu cymunedau eu hunain
- cyd-weithio gyda Chyngor Tref Biwmares i allanoli rheolaeth o'r Carchar a'r Llys i bwrpas cynnal yr atyniad twristiaeth hanesyddol yn y dref i'r dyfodol.
- peilota estyniad o'n cynnig Cyswllt Môn allan yn y gymuned mewn llyfrgelloedd i bwrpas hyrwyddo mynediad i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn fwy eang
- ysgogi ac yn cefnogi'r gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden i bwrpas cynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg ein gweithlu drwy gyd-weithio'n ddwys ac yn rhagweithiol ar ymyraethau llwyddiannus.
- ail-lunio'n gwefan corfforaethol i'w wneud yn haws i drigolion yr Ynys fedru derbyn / chwilio a chyfleu gwybodaeth angenrheidiol mewn ffordd ystyrlon newydd.

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Gwasanaeth Adnoddau Dynol & Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

Ebost :–

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:

www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol

Gallwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:

Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:

www.ynysmon.gov.uk

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Rheoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:

• Swyddfa Archwilio Cymru:

www.wao.gov.uk

• Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

www.cssiw.org.uk

• Estyn:

www.estyn.gov.uk

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 MEHEFIN 2018** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2017/18** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST.2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

- Nodi sefyllfa alldro ddrafft Rhaglen Gyfalaf 2017/18 yn amodol ar Archwiliad; a
- Cymeradwyo cario £9.348m drosodd i 2018/19 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2018/19 (Atodiad A – paragraff 4.2).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, yn amodol ar Archwiliad;
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth sydd wedi ei dynodi i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth UDA)** (gorfodol) | Dim sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151 (gorfodol)** | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Dim Sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Alldro Cyfalaf – 2017/18
Atodiad B - Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriad i 2018/19

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2017/18, fel y'i hargymhellwyd gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2017;
- Adroddiad Monitro Cyfalaf 2017/18 ar gyfer chwarter cyntaf 2017/18 a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 18 Medi 2017;
- 2017/18 Adroddiad Monitro Cyfalaf ar gyfer ail chwarter 2017/18 a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 27 Tachwedd 2017;
- 2017/18 Adroddiad Monitro Cyfalaf ar gyfer trydydd chwarter 2017/18 a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 19 Chwefror 2018.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad ar yr Alldro Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 sy'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn amodol ar Archwiliad.

**1.2** Ym mis Chwefror 2017, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf o £30.614m am 2017/18 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â thai a Rhaglen Gyfalaf o £9.889m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Roedd Ymrwymiadau Cyfalaf gwerth £6.435m wedi eu cario drosodd o 2016/17 ac roedd £1.758m yn ymwneud ag Ysgolion yr 21ain Ganrif a £2.984m yn ymwneud â’r CRT. Ychwanegwyd cynlluniau cyfalaf eraill gwerth £5.734m yn ystod y flwyddyn – gweler tabl 1.4 isod – gan gynnwys Cyfarwyddyd Cyfalafu gwerth £2.566m ar gyfer Tâl Cyfartal. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18 i £52.672m.

**1.3** Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 a'r ymrwymiadau a ddygwyd ymlaen o 2016/17:-

**Rhaglen Gyfalaf 2017/18 wedi ei gymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cronfa Cyffredinol** | £ |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi | 502,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau | 1,545,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Brynsiencyn | 217,000.00 |
| Lôn Newydd Wylfa Newydd | 4,097,000.00 |
| Cerbydau | 150,000.00 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 750,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont | 169,000.00 |
| Gweithredu CCIS | 65,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw | 3,591,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 166,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Llangefni, adeilad newydd | 675,000.00 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares | 800,000.00 |
| Datblygu Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 1,301,000.00 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir (arwyneb ffyrdd) | 761,000.00 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,414,000.00 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 5,001,000.00 |
| Buddsoddi i Arbed - Effeithlonrwydd Ynni yn y Canolfannau Hamdden | 111,000.00 |
| Buddsoddi i Arbed - Trin Carthffosiaeth | 75,000.00 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 2,523,000.00 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 100,000.00 |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 300,000.00 |
| Atgyweirio Adeiladau Addysgol | 500,000.00 |
| Atgyweirio Adeiladau nad ydynt yn Addysgol | 200,000.00 |
| Cartref Gofal Garreglwyd | 250,000.00 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 200,000.00 |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 150,000.00 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth | 800,000.00 |
| TGCh - Symud i Systemau Legacy | 50,000.00 |
| TGCh - Trwydded MS | 101,000.00 |
| Cartref Gofal Ychwanegol Seiriol | 1,000,000.00 |
| Porth Twristiaeth | 1,050,000.00 |
| | **30,614,000.00** |
| **CRT** | |
| Trawsnewid Uned Cynnal Tai - 5 Cerbyd | 144,000.00 |
| Atgyweiriadau a Gynlluniwyd | 4,635,000.00 |
| Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol | 2,800,000.00 |
| Ailfodelu Llawr y Dref, Llangefni | 250,000.00 |
| Contract Gwres Canolog | 600,000.00 |
| Gwaith Mewnol SATC | 600,000.00 |
| Gwaith Amgylcheddol | 400,000.00 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000.00 |
| Eiddo | 110,000.00 |
| | **9,889,000.00** |

**Llithriant a ddygwyd ymlaen o 2016/17**

| | |
|---|---|
| **Cronfa Cyffredinol** | £ |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 208,283.00 |
| Cynllu Tai fforddiadwy | 30,647.00 |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 174,618.00 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 84,750.00 |
| Cyllid Salix - Goleuadau LED | 5,194.00 |
| Meysydd Parcio | 12,920.00 |
| Canolfan Byron | 150,000.00 |
| Cerbydau | 196,395.00 |
| Caffael Telehandler a Phont Bwyso | 97,000.00 |
| System EDMS - Buddsoddi i Arbed | 57,860.00 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,777.00 |
| Neuadd y Farchnad | 410,669.00 |
| TGCh - Citrix | 90,782.00 |
| Adnewyddu Haulfre | 68,273.00 |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi | 656,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau | 957,000.00 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont | 145,000.00 |
| **CRT** | |
| Re-modelling of Llawr y Dref, Llangefni | 443,120.00 |
| Gwaith Mewnol SATC | 270,279.00 |
| Gwaith Amgylcheddol | 102,584.00 |
| Rheoli Risg Tân | 167,624.00 |
| Prynu Eiddo Presennol | 2,000,000.00 |
| | **6,434,775.00** |

**1.4** Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r cynlluniau a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn at Raglen Gyfalaf 2017/18 a'r modd y cawsant eu cyllido:-

| Cynlluniau Ychwanegol a Ychwanegwyd i'r Raglen Gyfalaf 2017/18 | | | |
|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol** | | **Cyllido gan:** | |
| Grant Tai Gwag | 10,000.00 | Grant Cyfalaf | 1,774,022.00 |
| Canolbwynt Cyflogaeth a Hyfforddiant Cymunedau'n Gyntaf Mon | 295,000.00 | Arian Wrth Gefn | 86,377.00 |
| Grant Galluogi | 86,790.00 | Benthyca | 1,001,240.00 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 18,622.00 | Derbyniadau Cyfalaf | 307,000.00 |
| Parc Morglawdd | 17,050.00 | Benthyca Di-gefnogaeth | 2,566,000.00 |
| Grant MALD Ynys Mon | 115,370.00 | | **5,734,639.00** |
| Cerbyd Newydd NRW | 7,400.00 | | |
| Teithio Actif | 4,000.00 | | |
| Grant Diogelwch y Ffyrdd | 163,000.00 | | |
| A454 Lon Biwmaris | 75,000.00 | | |
| Cyllido Salix - Goleuadau Stryd | 365,000.00 | | |
| Cyllido Salix - Goleuadau Stryd Rhan 2 | 636,240.00 | | |
| Morglawdd Caergybi | 40,000.00 | | |
| Mân-ddaliadau | 307,000.00 | | |
| Gorffen Gwaith Mynwentydd | 10,985.00 | | |
| Parhau i Weithio'n Gallach | 18,342.00 | | |
| Tal Cyfartal | 2,566,000.00 | | |
| Cam THI | 5,670.00 | | |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | 138,839.00 | | |
| Neuadd y Farchnad | 571,331.00 | | |
| Garreglwyd - Gwaith ychwanegol | 40,000.00 | | |
| Grant Cronfa Gofal Canolraddol | 243,000.00 | | |
| | **5,734,639.00** | | |

## 2. GWARIANT CYFALAF 2017/18

**2.1** Tabl yn dangos crynodeb o'r gwariant hyd at 31 Mawrth 2018:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gorwariant (£'000) | % Cyllideb Blynyddol a Wariwyd |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 2,882 | 1,224 | (1,658) | 42 |
| CRT Tai | 12,873 | 9,291 | (3,582) | 72 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,616 | 6,318 | (3,298) | 66 |
| Economaidd ac Adfywio | 8,907 | 788 | (8,119) | 9 |
| Priffyrdd | 11,522 | 6,004 | (5,518) | 52 |
| Rheoli Gwastraff | 172 | 66 | (106) | 39 |
| Eiddo | 518 | 786 | 268 | 152 |
| Trawsnewid | 674 | 587 | (87) | 87 |
| Adnoddau | 2,566 | 2,566 | 0 | 100 |
| Cynllunio | 1,126 | 1,031 | (95) | 92 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,816 | 694 | (1,122) | 38 |
| **Cyfanswm** | **52,672** | **29,355** | **(23,317)** | **56** |
| **Cyllido gan:** | | | | |
| Grant Cyfalaf | 24,818 | 12,959 | (11,859) | 52 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,866 | 2,456 | (410) | 86 |
| Benthyca a Chefnogaeth | 3,509 | 402 | (3,107) | 11 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 8,868 | 6,043 | (2,825) | 68 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,207 | 6,600 | (3,607) | 65 |
| Arian Wrth Gefn | 809 | - | (809) | - |
| Benthyca | 1,031 | 895 | (136) | 87 |
| Tanwariant o 2016/17 | 564 | - | (564) | - |
| **Cyfanswm Cyllido** | **52,672** | **29,355** | **(23,317)** | **56** |

**2.2** Roedd y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £39.800m ac roedd £20.064m wedi ei wario ar 31 Mawrth 2018, swm a oedd yn cyfateb i 50% o'r gyllideb. Y prif reswm am y tanwariant oedd y tanwariant mawr yn erbyn saith prosiect, sef Isadeiledd Strategol Caergybi, Isadeiledd Strategol Llangefni, Lôn Newydd at Wylfa Newydd, Ysgol Santes Dwynwen, Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Porth Twristiaeth a Gofal Ychwanegol yn Seiriol. Dim ond £0.012m o'r gyllideb o £5.001m a wariwyd ar Isadeiledd Strategol Caergybi a bydd yn awr yn cael ei gario drosodd i 2018/19, dim ond £0.623m o'r gyllideb o £2.523m a wariwyd ar Isadeiledd Strategol Llangefni ac ni chafodd unrhyw arian o gwbl ei wario o'r gyllideb o £4.097m ar gyfer y Lôn Newydd at Wylfa Newydd. Gwelir y rheswm am hyn ym mharagraff 3.1.13. Yn achos Ysgol Santes Dwynwen, dim ond £1.540m o'r gyllideb o £3.591m a wariwyd, dim ond £0.119m o'r gyllideb o £1.301m a wariwyd ar y Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a dim ond £0.005m yn erbyn cyllideb o £1.050m a wariwyd ar y Porth Twristiaeth. Ni wariwyd unrhyw arian o gwbl o'r gyllideb o £1.000m ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol a bydd y cyfan o'r cyllidebau cyfalaf hyn, ynghyd â'r cyllid ar eu cyfer, yn cario drosodd i 2018/19. Mae rhestr lawn o wariant y cynlluniau cyfalaf hyn yn erbyn y gyllideb i'w gweld yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 72% o'r gyllideb gyfan. Y prif reswm dros beidio â gwario'r cyfan o'r arian oedd oherwydd tanwariant o ran Prynu Eiddo Cyfredol lle gwariwyd £1.771m yn unig o'r gyllideb o £4.800m (37%), oherwydd y prynwyd llai na'r disgwyl o anheddau'r Cyngor. Ac eithrio'r cynllun hwn, roedd y cyfan o'r 93% arall o gyllideb y CRT wedi ei wario.

**2.4** Mae'r rhaglen mân-ddaliadau o welliannau, a ariennir o'r derbyniadau cyfalaf wedi'u neilltuo o werthu mân-ddaliadau ac incwm rhent, wedi cael ei ymestyn am flwyddyn arall. Dygwyd gwarged o £0.307m ymlaen o 2016/17, roedd derbyniadau cyfalaf at ddiwedd y flwyddyn ariannol o £0.197m ac roedd £0.582m wedi ei wario hyd at 31 Mawrth 2018. O ganlyniad, mae diffyg o £0.078m. Bydd y gorwariant hwn yn cael ei gyllido o werthiant mân-ddaliad. Cwblhawyd y gwerthiant ar 20 Ebrill 2018.

**2.5** Fel y gwelir o dabl 2.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca Di-gefnogaeth a Chyfraniadau Refeniw. Sonnir am y prif reswm dros y tanwariant mewn grantiau ym mharagraff 2.2, lle mae prosiectau Grantiau Cyfalaf mawr yn Isadeiledd Strategol Caergybi, Isadeiledd Strategol Llangefni a'r Lôn Newydd at Wylfa Newydd wedi tanwario'n sylweddol. Y prif reswm am y gwahaniaeth yn y Benthyca Di-gefnogaeth yw'r tanwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Dyma'r rheswm hefyd am y gwahaniaeth mewn Benthyca â Chefnogaeth ynghyd â'r tanwariant mewn perthynas â Gofal Ychwanegol Seiriol a'r tanwariant ar y Safleoedd Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr. Fel y dywedwyd ym mharagraff 3.1.16, derbyniodd yr Awdurdod gyllid grant ychwanegol ar gyfer priffyrdd yn 2017/18 yn lle cyllid lleol, a dyma'r rheswm pam na ddefnyddiwyd unrhyw arian wrth gefn i ariannu rhaglen gyfalaf 2017/18. I gloi, gellir priodoli'r gwahaniaeth mewn Cyfraniad Refeniw i'r tanwariant yn y CRT a ariennir yn bennaf o gyfraniadau refeniw.

## 3. <u>CYLLIDO</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18. Cwblhawyd rhai cynlluniau blynyddol yn ystod y flwyddyn, megis Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd, y Grant 'Galluogi' a'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae rhai cynlluniau ar y gweill a fydd yn parhau yn 2018/19, megis Ysgolion yr 21ain Ganrif a Ffordd Gyswllt Llangefni. Dyfarnwyd cynlluniau Grantiau Cyfalaf newydd hefyd yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Isadeiledd Strategol Caergybi ac Isadeiledd Strategol Llangefni.

**3.1.2 Neuadd y Farchnad, Caergybi -** Drwy ymarfer peirianyddol i sefydlu gwerth, llwyddwyd i ostwng y costau i lefel haws ei rheoli, gyda chodiad bychan yng ngostau'r prosiect yn gyffredinol. Llwyddwyd i gwrdd â'r gost hon drwy gyfuniad o grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a chyllid cyfatebol drwy gyfraniad ariannol gan y Cyngor ei hun. Yn amodol ar gadarnhau'r cyllid grant ERDF, bydd y Cyngor mewn sefyllfa i ymrwymo i gontract ar gyfer Cam II y gwaith yn y dyfodol agos iawn a fydd yn canolbwyntio ar drawsnewid yr adeilad o fod yn gragen sydd wedi cael ei hatgyweirio i fod yn strwythur y gellir ei ddefnyddio.

**3.1.3 Ffordd Gyswllt Llangefni –** Parhaodd y gwaith ar Ran 3 yn ystod chwarter 4. Cwblhawyd y gwaith cychwynnol i glirio'r safle a chychwynnwyd ar y prif waith adeiladu. Rhagwelir y bydd wedi'i chwblhau erbyn Ionawr 2019.

**3.1.4 Isadeiledd Strategol Llangefni** – Mae'r cynllun yn cynnwys codi unedau diwydiannol newydd ar safle'r hen Hyfforddiant Môn ac ymestyn y swyddfeydd yn y Ganolfan Fusnes ar gyfer eu gosod. Cychwynnodd gwaith ar y ddau safle yn ystod hanner olaf y flwyddyn ac mae'r contractwyr ar y safle ar hyn o bryd. Gwariwyd £0.623m yn ystod 2017/18, a bydd yn cael ei gyllido drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

**3.1.5 Morglawdd Caergybi** – Cwblhawyd gwaith ar y comisiwn cychwynnol yn yr hydref ac fe ddarparwyd y cyllid ar gyfer y cam ymgynghoriaeth eleni gan Stena Port. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cam nesaf y cynllun.

**3.1.6 Ysgolion yr 21ain Ganrif –** Cafodd y cyllid ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan ei dynnu i lawr yn llwyr fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif 2016/17. O'r herwydd, cafodd y gwaith gweddilliol a gwblhawyd ar y ddwy ysgol yn 2017/18 ei ariannu drwy fenthyciadau ac adnoddau'r Cyngor fel rhan o gyfraniad 50% y Cyngor tuag at y prosiect. Mae gwaith adeiladu wedi parhau ar Ysgol Santes Dwynwen yn ystod y flwyddyn, ac fe gwblhawyd y gwaith atgyweirio ar Ysgol Parc y Bont. Bwriedir cwblhau'r gwaith yn Ysgol Brynsiencyn ym mis Medi 2018. Ail-broffiliwyd y cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod wario'r lefel ofynnol o gyllid erbyn 31 Mawrth 2018 yn dilyn oedi ar Ysgol Santes Dwynwen. Cafodd cyllid cyfatebol yr Awdurdod ar gyfer Ysgolion Cynradd y De Orllewin ei gario drosodd i 2018/19 a chafodd £2.275m o'r Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif ei dynnu i lawr yn llawn.

**3.1.7 Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd –** Roedd y cynllun hwn yn golygu gwneud gwaith cyfalaf ar ffordd y B5110 o Langefni i Farianglas. Cwblhawyd y gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol ac fe dynnwyd y Grant Cyfalaf i lawr yn llawn.

**3.1.8 Grant MALD Oriel Ynys Môn –** Cwblhawyd gwaith ar atgyweirio'r toiledau, y goleuadau, y drws ffrynt a'r lloriau newydd erbyn diwedd Mawrth. Yn ychwanegol at hyn, roedd gwaith tirlunio i fod i gychwyn a chael ei gwblhau yn ystod Chwarter 4, fodd bynnag, bydd y gwaith yn mynd rhagddo i 2018/19. Hawliwyd y grant yn llawn erbyn 9 Mawrth 2018. Mae cyfran o'r grant MALD wedi cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol i sicrhau grant ychwanegol gan y Cynllun Buddsoddiad mewn Twristiaeth a Mwynderau fel y gellir gwneud gwaith pellach ar yr Oriel, gwella Nant y Pandy a Llwybr 566 Lôn Las.

**3.1.9 Lliniaru Llifogydd Biwmares** – Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares yn eu rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, i gael cynnig ffurfiol, bydd angen i'r Awdurdod gyflwyno cais unwaith y bydd yr holl ganiatadau a'r prisiau tendrau yn eu lle fel y gellir cychwyn ar y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rhain wedi eu sicrhau erbyn mis Medi ac, ar yr amod y caiff y cyllid ei gymeradwyo, gobeithir y gellir cychwyn gwaith ym mis Hydref. Bydd y rhain yn rhedeg i'r flwyddyn ariannol nesaf a rhagwelir y bydd wedi ei gwblhau ym mis Mai 2019.

**3.1.10 Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth** – Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Pandy, Pentraeth yn eu rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, i gael cynnig ffurfiol, bydd angen i'r Awdurdod gyflwyno cais unwaith y bydd yr holl ganiatadau a'r prisiau tendrau yn eu lle fel y gellir cychwyn ar y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rhain wedi eu sicrhau erbyn mis Medi ac, ar yr amod y caiff y cyllid ei gymeradwyo, gobeithir y gellir cychwyn gwaith ym mis Hydref. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd wedi ei gwblhau ym mis Mawrth 2019.

**3.1.11 Isadeiledd Strategol Caergybi** – Cynllun yw hwn i godi unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi, gyda golwg ar gychwyn gwaith ar y safle yn ystod 2018/19. Cafwyd cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a sefydlwyd menter newydd ar y cyd â Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun.

**3.1.12 Porth Twristiaeth** – Cymeradwywyd bid ar gyfer cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ystod Chwarter 4. Bydd y prosiect yn cynnwys buddsoddi yn y cyfleusterau ym Mhorthladd Caergybi gan gynnwys y Rheilffordd, gwelliannau i safle eglwys Sant Cybi a'r Gaer Rufeinig a gwella'r profiad i ymwelwyr mewn cyrchfannau iconig i ymwelwyr megis Mynydd Twr. Bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn 2018/19.

**3.1.13 Lôn Newydd at Wylfa Newydd** – Dim gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y gwaith ar-lein yn parhau i fynd rhagddo ond nid yw'n debygol o gychwyn tan Chwarter 3 2018/19 ar y cynharaf ac mae'n bosib y bydd oedi tan Chwarter 1 2019/20 yn dibynnu ar y cynnydd a wneir o ran cwblhau'r Gorchmynion Prynu drwy Orfodaeth.

**3.1.14 Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr** – Nid oedd y Gwasanaeth Tai yn rhagweld unrhyw wariant a oedd yn gysylltiedig â gwaith adeiladu ar y safle yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn dilyn adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2017, penderfynwyd y byddai Ceisiadau Cynllunio ffurfiol yn cael eu cyflwyno ar gyfer Man Stopio Dros Dro yn Star a Safle Parhaol ym Mhenhesgyn. Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2017/18 wedi'i gyfyngu i ffioedd proffesiynol mewn perthynas â dylunio'r safle, comisiynu adroddiadau arbenigol ar addasrwydd y safle a chyflwyno'r ceisiadau cynllunio a'r costau cysylltiedig.

**3.1.15 Cyllid Adfywio** – Cymeradwywyd £0.424m o Gyllid Adfywio ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Neilltuwyd y cyllid ar gyfer costau ychwanegol Rhan II Neuadd y Farchnad, Hyb Cyflogaeth a Hyfforddiant Cymunedau'n Gyntaf Môn a'r Fenter Cartrefi Gwag. Cafodd £0.417m ei wario a'i hawlio erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

**3.1.16 Grant Priffyrdd Ychwanegol** – Yn hwyr ym mis Chwefror, fe ddyfarnwyd i'r Awdurdod £0.910m o gyllid grant ychwanegol ar gyfer gwella ffyrdd ar yr ynys. Oherwydd bod hyn wedi digwydd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, ni chafodd unrhyw arian ei wario cyn 31 Mawrth 2018 a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn 2018/19. Defnyddiwyd yr arian grant i gyllido grantiau cyfalaf eraill yn 2017/18, yn lle defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd yr arian a arbedodd yr Awdurdod o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i wneud gwaith atgyweirio pellach ar y priffyrdd yn 2018/19.

**3.1.17 A545 Biwmares** - Yn dilyn y llifogydd ym mis Tachwedd, derbyniodd yr Awdurdod £0.075m o gyllid grant ychwanegol drwy'r Gronfa Drafnidiaeth Leol i wneud gwaith ar yr A545 ym Miwmares. Cafodd y cyfan o'r arian hwn ei wario a'i hawlio.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/18:-

| | Cyllideb 2017/18 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Mawrth-2018 £'000 | Amrywiant (O dan) / Uwchben y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 530 | 197 | 333 |
| Cyffredinol | 2,925 | 2,477 | 448 |
| Diwydiannol | 275 | 105 | 170 |
| Ysgolion | 640 | 0 | 640 |
| Ad dalu Grantiau Gwelliant | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4,370** | **2,779** | **1,591** |

**3.2.2** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer 2017/18 yn £2.779m yn erbyn rhagamcan o £4.370m, sy'n 64% o'r gyllideb. Y prif reswm pam na dderbyniwyd yr holl Dderbyniadau Cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd na chwblhawyd gwerthiant cyn 31 Mawrth 2018 o ased yn Llangefni gwerth £0.500m, dwy ysgol gwerth £0.640m a mân-ddeliad gwerth £0.260m. Disgwylir y bydd y cyfan o'r asedau hyn yn cael eu gwerthu yn ystod 2018/19. Yn gyffredinol, bu'n flwyddyn weddol lwyddiannus o ran Derbynebiadau Cyfalaf ac fe dderbyniwyd £2.779m a oedd yn cynnwys gwerthu Parc Mownt (£0.350m) a hen safle Ysgol y Graig (£1.672m).

**3.2.3** Fel y gwelir yn Atodiad B, bydd rhai cynlluniau cyfalaf yn cael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf a bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2018/19. Methwyd â chwblhau gwerth £0.715m o asedau'r Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn ac, o'r herwydd bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhywfaint o'r llithriad Cyfalaf i 2018/19. Mae £0.640m yn gysylltiedig ag ysgolion ac yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer Addysg a byddant yn cael eu gwerthu yn 2018/19 ac, unwaith eto, bydd y cyllid yn llithro hefyd i 2018/19. Hefyd, methwyd â gwerthu un mân-ddaliad cyn 31 Mawrth 2018 a bydd yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gorwariant y sonnir amdano ym mharagraff 2.4 ac i wneud gwaith pellach ar y mân-ddaliadau yn 2018/19. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd dros ben, ar ôl cyllido'r gorwariant a'r gwaith pellach yn cael eu trosglwyddo i Dderbyniadau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol.

## 4. Y DYFODOL

**4.1** Cafodd yr Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2018/19 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018. Mae'r rhaglen gyfalaf gyfan ar gyfer 2018/19 (yn cynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yn £49.434m. Gellir torri hyn i lawr i Ymrwymiad Cyfredol o Raglen Gyfalaf 2017/18 (£23.399m), Buddsoddi mewn Asedau Cyfredol (£2.518m), Buddsoddi i Arbed (£0.258m), Ailwynebu Priffyrdd (£1.592m), Cynlluniau Hamdden (£0.400m), Ysgolion yr 21ain Ganrif (£8.850m) a'r CRT (£12.417m). Y cyllid arfaethedig fydd £30.324m (61%) o ffynonellau cyllido allanol megis Grantiau Cyfalaf a £19.110m (39%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.471m o fenthyca â chefnogaeth, £4.084m o fenthyca digefnogaeth, gyda'r £11.555m sy'n weddill yn cael ei gyllido o Dderbyniadau Cyfalaf ac o arian wrth gefn y Cyngor ei hun.

**4.2** Fel y gellir gweld yn Atodiad B, cynigir y bod £9.348m yn cael ei gario drosodd i 2018/19 fel llithriad ar gyfer cynlluniau cyfalaf na chawsant eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Mae 18 o gynlluniau i gyd yn y Gronfa Gyffredinol sy'n werth £5.767m a 6 chynllun CRT sy'n werth £3.581m. Bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn llithro i 2018/19 ac, yn achos y Gronfa Gyffredinol, mae hyn yn cynnwys £1.035m o Dderbyniadau Cyfalaf, £0.105m o fenthyciad, £2.689m o Grantiau Cyfalaf, £1.762m o fenthyca â chefnogaeth a £0.175m o Arian Wrth Gefn gyda'r elfen CRT yn cynnwys Cyfraniad Refeniw o'r CRT. Fel y gwelir yn nhabl 2.1 a pharagraff 2.5 yr adroddiad hwn, mae digon o danwariant yn erbyn y ffrydiau ariannu hyn y gellir ei gario drosodd i 2018/19.

**4.3** Os bydd y llithriad yn Atodiad B yr adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, bydd cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 yn £58.782m, a bydd £42.784m o hwnnw yn dod o'r Gronfa Gyffredinol a £15.998m o'r CRT. Gellir ychwanegu cynlluniau i'r Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2018/19 os daw cyllid grant ychwanegol ar gael.

## 5. YR EFFAITH AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

**5.1** Roedd y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2018 yn £135.971m, a dyma pam mae'n rhaid i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol ar hyn o bryd yn £117.029m, sy'n golygu, i bob pwrpas, fod angen i'r Awdurdod fenthyca £18.942m, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os byddir yn benthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn y terfynau benthyca awdurdodedig a bennir yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 (Atodiad 11 y datganiad hwnnw).

## 6. CASGLIAD

**6.1** Er bod lefel y tanwariant yn sylweddol (44% o'r cyllid sydd ar gael), mae'r rhan fwyaf ohono'n ymwneud â gwariant ar brosiectau mawr, lle nad yw amseriad y gwaith wedi dilyn yr amserlen a fwriadwyd (Ysgolion yr 21ain Ganrif, Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, prosiectau Isadeiledd, a gwaith lliniaru llifogydd) neu gynlluniau lle mae rhaglen y gwaith y tu allan i reolaeth y Cyngor (gwelliannau i'r lôn at Wylfa). Yn achos prosiectau cyfalaf mawr, mae'n arferol i gael oedi annisgwyl ac nid yw'n anarferol gweld gwariant ar brosiectau o'r fath yn llithro. Ym mhob achos, llwyddwyd i sicrhau'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn a bydd yn cael ei gario drosodd i 2018/19, sy'n golygu na fydd y Cyngor yn colli unrhyw adnoddau.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriad i 2018/19

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£'000) | Cyfanswm Gwariant (£'000) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£'000) | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | % Amrywiad | Gorwariant i'w gario ymlaen i 2018/19 (£'000) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Tai Gyffredinol** | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 958,280 | 701,490 | (256,790) | 73 | 27 | 256,790 | Llithriant wedi ei gyllido gan Derbyniadau Cyfalaf a Benthyca a Chefnogaeth |
| Datblygu Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 1,301,000 | 119,465 | (1,181,535) | 9 | 91 | 1,181,535 | Llithriant wedi ei gyllido gan Grant Cyfalaf, Benthyca a Chefnogaeth a Derbyniadau Cyfalaf |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 200,000 | 905 | (199,095) | 0 | 100 | 199,095 | Llithriant wedi ei gyllido gan Derbyniadau Cyfalaf |
| Grant Tai Gwag | 10,000 | 20,000 | 10,000 | 200 | (100) | | Gorwariant wedi ei gyllido gan Grant Allanol |
| Canolbwynt Cyflogaeth a Hyfforddiant Cymunedau'n Gyntaf Mon | 295,000 | 295,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Galluogi | 86,790 | 87,109 | 319 | 100 | 0 | | |
| Cynllu Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | (30,650) | 0 | 100 | 30,650 | Llithriant wedi ei gyllido gan Fenthyca a Chefnogaeth |
| **Cyfanswm** | **2,881,720** | **1,223,968** | **(1,657,752)** | **42** | **58** | **1,668,071** | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 600,000 | 557,828 | (42,172) | 93 | 7 | 42,172 | Llithriant wedi ei gyllido gan Gyfraniadau Refeniw CRT |
| Atgyweiriadau a Gynlluniwyd | 4,635,000 | 4,820,819 | 185,819 | 104 | (4) | | Gorwariant wedi ei gyllido gan Gyfraniad Refeniw CRT. Mae cyfanswm llithriad CRT ar gynlluniau eraill wedi ei leihau gan y gorwariant yma |
| Trawsnewid Uned Cynnal Tai - 5 Cerbyd | 144,000 | 157,607 | 13,607 | 109 | (9) | | Gorwariant wedi ei gyllido gan Gyfraniad Refeniw CRT. Mae cyfanswm llithriad CRT ar gynlluniau eraill wedi ei leihau gan y gorwariant yma |
| Gwaith Amgylcheddol | 502,580 | 32,752 | (469,828) | 7 | 93 | 228,104 | Llithriant wedi ei gyllido gan Gyfraniadau Refeniw CRT |
| Ailfodelu Llawr y Dref, Llangefni | 693,120 | 697,362 | 4,242 | 101 | -1 | | Gorwariant wedi ei gyllido gan Gyfraniad Refeniw CRT. Mae cyfanswm llithriad CRT ar gynlluniau eraill wedi ei leihau gan y gorwariant yma |
| Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol | 4,800,000 | 1,771,219 | (3,028,781) | 37 | 63 | 3,028,781 | Llithriant wedi ei gyllido gan Gyfraniadau Refeniw CRT |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 344,433 | (5,567) | 98 | 2 | 5,567 | Llithriant wedi ei gyllido gan Gyfraniadau Refeniw CRT |
| Rheoli Risg Tân | 167,620 | 53,791 | (113,829) | 32 | 68 | 113,829 | Llithriant wedi ei gyllido gan Gyfraniadau Refeniw CRT |
| Gwaith Mewnol SATC | 870,280 | 707,457 | (162,823) | 81 | 19 | 162,823 | Llithriant wedi ei gyllido gan Gyfraniadau Refeniw CRT |
| Eiddo | 110,000 | 148,056 | 38,056 | 135 | -35 | | Gorwariant wedi ei gyllido gan Gyfraniad Refeniw CRT. Mae cyfanswm llithriad CRT ar gynlluniau eraill wedi ei leihau gan y gorwariant yma |
| **Cyfanswm** | **12,872,600** | **9,291,323** | **(3,581,277)** | **72** | **28** | **3,581,277** | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 474,620 | 377,289 | (97,331) | 79 | 21 | 97,331 | Llithriant wedi ei gyllido gan Fenthyca a Chefnogaeth a Derbyniadau Cyfalaf |
| Atgyweirio Adeiladau Addysgol | 500,000 | 456,051 | (43,949) | 91 | 9 | 43,949 | Llithriant wedi ei gyllido gan Fenthyca a Chefnogaeth |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi | 1,158,000 | 977,882 | (180,118) | 84 | 16 | | Cynllun Cyfalaf wedi ei gwblhau yn 2017/18, dim llithriad |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau | 2,502,000 | 2,160,814 | (341,186) | 86 | 14 | | Cynllun Cyfalaf wedi ei gwblhau yn 2017/18, dim llithriad |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont | 314,000 | 550,218 | 236,218 | 175 | (75) | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw | 3,591,000 | 1,540,451 | (2,050,549) | 43 | 57 | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 166,000 | 0 | (166,000) | 0 | 100 | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Brynsiencyn | 217,000 | 228,755 | 11,755 | 105 | (5) | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Llangefni, adeilad newydd | 675,000 | 3,789 | (671,211) | 1 | 99 | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg Jesse Hughes | 18,622 | 22,534 | 3,912 | 121 | (21) | | |
| **Cyfanswm** | **9,616,242** | **6,317,783** | **(3,298,459)** | **66** | **34** | **141,280** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£'000) | Cyfanswm Gwariant (£'000) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£'000) | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | % Amrywiad | Gorwariant i'w gario ymlaen i 2018/19 (£'000) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,050,000 | 5,022 | (1,044,978) | 0 | 100 | 1,044,978 | Llithriant wedi ei gyllido gan Grantiau Allanol |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 5,001,000 | 11,917 | (4,989,083) | 0 | 100 | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 2,523,000 | 622,974 | (1,900,026) | 25 | 75 | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Parc Morglawdd | 17,050 | 17,050 | 0 | 100 | 0 | | |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 84,750 | 15,404 | (69,346) | 18 | 82 | 69,346 | Llithriant wedi ei gyllido gan Arian Wrth Gefn |
| Cyllid Salix - Goleuadau LED | 5,190 | 0 | (5,190) | 0 | 100 | | |
| Buddsoddi i Arbed - Effeithlonrwydd Ynni yn y Canolfannau Hamdden | 111,000 | 0 | (111,000) | 0 | 100 | | |
| Grant MALD Oriel Ynys Mon 2017/18 | 115,370 | 115,667 | 297 | 100 | (0) | | |
| **Cyfanswm** | **8,907,360** | **788,034** | **(8,119,326)** | **9** | **91** | **1,114,324** | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 12,920 | 0 | (12,920) | 0 | 100 | 12,920 | Llithriant wedi ei gyllido gan Derbyniadau Cyfalaf |
| Cerbydau | 346,400 | 348,186 | 1,786 | 101 | (1) | | |
| Cerbyd NRW | 7,400 | 7,400 | 0 | 100 | 0 | | |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir (arwyneb ffyrdd) | 761,000 | 820,237 | 59,237 | 108 | (8) | | Gorwariant wedi ei gyllido gan Grant ychwanegol |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmaris (LlC) | 800,000 | 45,712 | (754,288) | 6 | 94 | 754,288 | Llithriant wedi ei gyllido gan Grant Allanol a Benthyca a chefnogaeth |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth | 800,000 | 0 | (800,000) | 0 | 100 | 800,000 | Llithriant wedi ei gyllido gan Grant Allanol a Benthyca a chefnogaeth |
| Lôn Newydd Wylfa Newydd | 4,097,000 | 0 | (4,097,000) | 0 | 100 | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,414,000 | 3,604,171 | 190,171 | 106 | (6) | | |
| Teithio Actif | 4,000 | 1,440 | (2,560) | 36 | 64 | | |
| Grant Diogelwch y Ffyrdd | 163,000 | 163,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| A454 Lon Biwmaris | 75,000 | 75,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Cyllido Salix - Goleuadau Stryd | 365,000 | 364,320 | (680) | 100 | 0 | | |
| Cyllido Salix - Goleuadau Stryd Rhan 2 | 636,240 | 531,113 | (105,127) | 83 | 17 | 105,127 | Llithriant wedi ei gyllido gan Benthyca |
| Morglawdd Caergybi | 40,000 | 43,089 | 3,089 | 108 | (8) | | |
| **Cyfanswm** | **11,521,960** | **6,003,667** | **(5,518,293)** | **52** | **48** | **1,672,335** | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Caffael Telehandler a Phont Bwyso | 97,000 | 66,410 | (30,590) | 68 | 32 | 30,590 | Llithriant wedi ei gyllido gan Derbyniadau Cyfalaf |
| Buddsoddi i Arbed - Traeth Coch | 75,000 | 0 | (75,000) | 0 | 100 | | |
| **Cyfanswm** | **172,000** | **66,410** | **(105,590)** | **39** | **61** | **30,590** | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Atgyweirio Adeiladau nad ydynt yn Addysgol | 200,000 | 193,066 | (6,934) | 97 | 3 | 6,934 | Llithriant wedi ei gyllido gan Derbyniadau Cyfalaf |
| Gwaith Mynwentydd | 10,985 | 10,986 | 1 | 100 | (0) | | |
| Mân-ddaliadau | 307,000 | 581,875 | 274,875 | 190 | (90) | | Gorwariant wedi ei gyllido gan Derbyniadau Cyfalaf |
| **Cyfanswm** | **517,985** | **785,926** | **267,941** | **152** | **(52)** | **6,934** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£'000) | Cyfanswm Gwariant (£'000) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£'000) | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | % Amrywiad | Gorwariant i'w gario ymlaen i 2018/19 (£'000) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| Parhau i Weithio'n Gallach | 18,342 | 18,342 | 0 | 100 | (0) | | |
| TGCh - Prosiectau | 90,790 | 105,186 | 14,396 | 116 | (16) | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 150,000 | 141,189 | (8,811) | 94 | 6 | | |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 100,000 | 99,792 | (208) | 100 | 0 | | |
| TGCh - Symud i Systemau Legacy | 50,000 | 18,575 | (31,425) | 37 | 63 | 11,701 | Dyma gyfanswm net y tanwariant ar gyfer TGCh. Llithriant wedi ei gyllido gan Dderbyniadau Cyfalaf. |
| TGCh - Trwydded MS | 101,000 | 115,348 | 14,348 | 114 | (14) | | |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,770 | 127 | (105,643) | 0 | 100 | 105,643 | Llithriant wedi ei gyllido gan Arian Wrth Gefn |
| System EDMS - Buddsoddi i Arbed | 57,860 | 88,704 | 30,844 | 153 | (53) | | |
| **Cyfanswm** | **673,762** | **587,263** | **(86,499)** | **87** | **13** | **117,344** | |
| **Adnoddau** | | | | | | | |
| Tal Cyfartal | 2,566,000 | 2,566,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| **Cyfanswm** | **2,566,000** | **2,566,000** | **0** | **100** | **0** | | |
| **Cynllunio** | | | | | | | |
| THI Rhan 2 | 5,670 | 5,670 | 0 | 100 | (0) | | |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri - REFCUS | 1,029 | 1,030 | 1 | 100 | (0) | | |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | 137,810 | 137,810 | 0 | 100 | 0 | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad Caergybi | 982,000 | 886,543 | (95,457) | 90 | 10 | | Cyllideb Cyfalaf Newydd yn 2018/19, nid oes angen llithriad |
| **Cyfanswm** | **1,126,509** | **1,031,053** | **(95,456)** | **92** | **8** | **0** | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | |
| Gweithredu CCIS | 65,000 | 30,427 | (34,573) | 47 | 53 | | |
| Canolfan Byron | 150,000 | 151,750 | 1,750 | 101 | (1) | | |
| Adnewyddu Haulfre | 68,270 | 0 | (68,270) | 0 | 100 | | |
| Seiriol | 1,000,000 | 0 | (1,000,000) | 0 | 100 | 1,000,000 | Llithriant wedi ei gyllido gan Fenthyca a Chefnogaeth |
| Garreglwyd | 290,000 | 274,576 | (15,424) | 95 | 5 | 15,424 | Gorwariant wedi ei gyllido gan Dderbyniadau Cyfalaf |
| Maes William Williams GCG | 218,400 | 219,979 | 1,579 | 101 | (1) | | |
| Rectory GCG | 24,600 | 17,149 | (7,451) | 70 | 30 | | |
| **Cyfanswm** | **1,816,270** | **693,880** | **(1,122,390)** | **38** | **62** | **1,015,424** | |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **52,672,408** | **29,355,307** | **(23,317,101)** | **56** | **44** | **9,347,580** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Mehefin 2018** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn –Symud dyddiad gweithredu'r rhybuddion statudol ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Brynsiencyn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Dafydd Roberts**<br>**Y Cynghorydd Eric W. Jones**<br>**Y Cynghorydd Peter Rogers**<br>**Y Cynghorydd Bryan Owen** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**

Er mwyn cydymffurfio â’r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion, cyhoeddodd yr Awdurdod ynghŷd ag Esgobaeth Bangor (Yr Eglwys yng Nghymru) ddau **Rybudd Statudol** o’u bwriad i:

1. gyfuno pedair ysgol - Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Llangaffo ac Ysgol Niwbwrch - mewn un ysgol newydd ar safle yn Niwbwrch ac i'r ysgol newydd fod yn ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.
2. beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont fel ysgol dan reolaeth gwirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed ac i ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall.

Cyhoeddwyd y **Rhybuddion Statudol** ar 17 Mehefin 2016 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu’r cynigion yn dilyn a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 15 Gorffennaf, 2016. Derbyniwyd un gwrthwynebiad i gynnig 1 uchod i adeiladu ysgol gynradd newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Paratowyd adroddiad ar y gwrthwynebiad a penderfynodd y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2016 i gymeradwyo’r cynnig gwreiddiol. Ers hynny, penderfynodd Corff Llywodraethu Cysgodol yr ysgol gynradd newydd ei henwi’n Ysgol Santes Dwynwen.

Er hynny, dyddiad gweithredu'r cynigion oedd 1 Medi 2018. Mae nifer o ffactorau wedi gwthio dyddiad cychwyn y ddau gynnig yn ôl am y rhesymau canlynol:

a. Bu'r boses pryniant tir yn hirach na'r disgwyl
b. Bu'r broses o gael caniatâd cynllunio hefyd yn hirach na'r disgwyl ac ni chafwyd caniatâd cynllunio tan 5 Gorffennaf 2017.
c. Ychwanegodd Etholiad Cyngor Sir Ynys Môn ar 4 Mai 2017 6 wythnos at y broses oherwydd y cyfnod cyn etholiadol
ch. Ychwanegodd yr Etholiad Cyffredinol ar 8 Mehefin 2017 6 wythnos arall i’r broses oherwydd y cyfnod cyn etholiadol
d. Mae'r Awdurdod hefyd wedi dysgu o'r profiadau wrth agor Ysgol Rhyd Y Llan e.e. fod angen mwy o amser rhwng yr adeiladwyr yn gorffen ar y safle a'r staff yn symud i fewn i’r ysgol newydd.

Dywed rhan 6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013: "Pan fydd cynigion wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol ... caiff y cynigwyr benderfynu gohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu yn ei flaen neu roi'r gorau iddo. Rhaid i unrhyw gais o'r fath am gytundeb gael ei wneud yn ysgrifenedig gan nodi rhesymau'r cynigydd yn glir. Rhaid hysbysu partïon perthnasol ... o unrhyw benderfyniad i ohirio cynnig ... cyn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad hwnnw."

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith mai dyddiad cyflawni gwreiddiol y rhybudd statudol oedd 1 Medi 2018 ond oherwydd y rhesymau restrwyd uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ymestyn y cyfnod am 8 mis i 1 Ebrill 2019. Yn unol â hyn, mae angen i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, fel cynigydd y bwriad yn y rhybudd statudol benderfynu ohirio dyddiad gweithredu'r cynnig i 1 Ebrill 2019.

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**

i. Yn cymeradwyo oedi dyddiad gweithredu cynnig 1 i gwblhau Ysgol Santes Dwynwen i 1 Ebrill 2019.
ii. Yn cymeradwyo oedi dyddiad gweithredu cynnig 2 i newid statws Ysgol Parc y Bont i 1 Ebrill 2019.

Yn amodol ar i. uchod, bydd swyddogion yna'n hysbysu'r "partïon perthnasol" o'r penderfyniad i ohirio dyddiad gweithredu'r cynigion ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Brynsiencyn.

**Cefndir:**

Yn ei gyfarfod ar **Hydref 19 2015**, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:
"Gymeradwyo opsiwn B4a fel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer darparu addysg gynradd yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw fel y caiff ei amlinellu yn yr adroddiad, sef

- Ysgol newydd dan RW yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo
- Parc y Bont i ddod yn ysgol gymunedol a

Ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oes opsiwn arall dan sylw oherwydd nid yw cadw at yr amserlen wreiddiol a osodwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn bosib oherwydd y rhesymau sydd wedi eu rhestru yn rhan A uchod. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Cytunwyd yr amserlen wreiddiol gan y Pwyllgor Gwaith ac felly mae tu hwnt i bwerau dirprwyedig swyddogion i newid yr amserlen. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw – Mae'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| 6 | **Eiddo** | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| 8 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Mae’r aelodau lleol yn ymwybodol o’r oedi. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Mae Corff Llywodraethu Cysgodol Ysgol Santes Dwynwen yn ymwybodol o’r oedi. |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| 4 | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Cwblhawyd asesiad effaith cydraddoldeb fel rhan o'r broses ymgynghori statudol ar gyfer y ddau gynllun |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| |

**G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Rhagfyr 10, 2012, Chwefror 11, 2013 a Tachwedd 3, 2014.
2. Dogfennau Ymgynghori Statudol
3. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
4. Llythyr gan Lywodraeth Cymru ddyddiedig Ionawr 31 2014.
5. Gwerthusiadau Opsiynau Ar Gyfer Safle i Ysgol Gynradd Newydd yn ardal Bro Rhosyr.
6. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.
7. Adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith dyddiedig 19 Medi 2016 am y gwrthwynebiad i’r Rhybudd Statudol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **16.6.2018** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Jodie Davies**<br>**01248 752171**<br>**Jodiedavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dd/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Y dull o ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol gyda phwyslais ar ganlyniad yn digwydd wrth lunio'r cynllun gwaith ar lefel rhanbarthol a lleol, rhan 2 a 3 o'r adroddiad hwn

**A2.** Dull o gyfathrebu wrth ddatblygu'r cynllun gwaith gyda phartneriaid sydd yn arwain at gyfnod ymgynghori a chymeradwyaeth terfynol

**1.0 Cefndir**

**1.1 Cyd-destun Cenedlaethol**

Mae Rhan II Deddf Tai (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru. Mae Deddf 2014 yn datgan fod rhaid i'r holl Awdurdodau Lleol fabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd yn 2018 er mwyn cyflawni'r amcanion a ganlyn:

- Atal digartrefedd
- Darperir llety addas ar gyfer pobl ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref;
- Mae cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

Cyn cynhyrchu'r strategaeth mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ymgymryd ag adolygiad lleol yn unol ag adran 51 Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd fel yr amlinellir isod.

Adnabod:-

*(a)* *lefelau, a lefelau tebygol digartrefedd yn y dyfodol, yn ardal yr awdurdod tai lleol;*

*(b)* *y gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni yn ardal yr awdurdod tai lleol er mwyn cyflawni'r amcanion fel y'u nodir uchod.*

(c) *yr adnoddau sydd ar gael i'r awdurdod (gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael wrth ymgymryd â swyddogaethau heblaw ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol), awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol a phersonau eraill ar gyfer gweithgareddau o'r fath.*

### 1.2 Dull rhanbarthol

Cytunodd Penaethiaid Gwasanaeth Gogledd Cymru i gynhyrchu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol.

Bydd sefydlu cyd-ddealltwriaeth a dull rhanbarthol ar gyfer atal digartrefedd yn arwain at y buddion a ganlyn:


1. Gwella cyfleoedd i ddatblygu trefniadau gwaith mwy effeithiol gyda sefydliadau partner, megis y Gwasanaeth Iechyd, sy'n gweithredu ar sail ranbarthol i fynd i'r afael â rhai o'r pethau sy'n achosi digartrefedd.
2. Bydd awdurdodau lleol yn gyson wrth ddehongli a gweithredu deddfwriaeth ddigartrefedd a darparu gwasanaethau digartrefedd ar draws ardal Gogledd Cymru. Bydd hyn yn helpu i leihau'r posibilrwydd o wahaniaethau o ran argaeledd gwasanaethau a'r modd y'i cyflwynir ar draws y rhanbarth.
3. Bydd mwy o gyfleoedd i awdurdodau rannu eu hadnoddau, arbenigedd a gwasanaethau arbenigol.

Bydd y Strategaeth Ranbarthol yn cynnwys dogfen ranbarthol gyffredinol a Chynllun Gweithredu 12 mis ar lefel Ranbarthol a Lleol.

Mae'r chwe Awdurdod Lleol yn cynnwys: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Wrecsam, Dinbych a Fflint.

Isod, disgrifir y rhaglen i ddatblygu strategaeth ranbarthol sy'n cael ei hwyluso gan Brif Swyddog Gweithredol y Sefydliad Tai Siartredig (CIH).

Yr amserlen ar gyfer cyflawni hyn yw:




Yn seiliedig ar y siart llif uchod mae'r naratif isod yn dangos cynnydd hyd yma.

**Cam 1: Adolygiad Lleol**

Comisiynwyd yr ymgynghoriaeth Project Development Workshop Ltd (PDW) i gynnal adolygiad lleol ar gyfer Ynys Môn.

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018 gan ddilyn y Côd Canllawiau. Yn ogystal, edrychodd PDW ar y canlynol:

- A yw gwasanaethau'n addas i bwrpas?
- Sut mae contractau a chysylltiadau'n cael eu rheoli?
- Pa mor dda mae'r gwasanaeth digartrefedd yn cael ei ddarparu ar y cyd â phartneriaid?
- A yw'r capasiti o fewn timau'n briodol ac a yw swyddogaethau tîm yn cyflawni eu targedau a deilliannau disgwyliedig?

**Dull**

Fel adolygiad annibynnol o wasanaethau digartrefedd cynhaliwyd yr asesiad mewn modd cynhwysol, gan weithio gyda staff a rhanddeiliaid allweddol i geisio nodi'r meysydd sydd angen eu gwella ac i gydnabod cryfderau ein gwasanaethau.

Aseswyd y meysydd darparu gwasanaeth a ganlyn:

- Atal digartrefedd a digartrefedd
- Y defnydd o lety argyfwng a dros dro, yn cynnwys gwely a brecwast
- Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â'r Sector Rhent Preifat
- Sut mae cronfeydd atal digartrefedd yn cael eu defnyddio, yn cynnwys sut mae blaendaliadau rhent a bondiau'n cael eu rheoli

Dull a ddefnyddiwyd:

- Adolygiad desg o ddogfennau allweddol
- Ymarferiad cwsmer cudd o'r gwasanaethau
- Cyfweliadau gyda rheolwyr, staff a sefydliadau partner sy'n cynorthwyo'r Cyngor i atal digartrefedd ac i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â digartrefedd
- Grwpiau ffocws gyda grwpiau o staff, partneriaid a chwsmeriaid
- Arsylwi cyfarfodydd a gwaith maes ehangach i asesu effaith gwasanaethau digartrefedd yn Ynys Môn.

**2.0 Deilliant**

Mae'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella a nodwyd yn yr adolygiad yn cael eu hamlinellu yn y tabl isod o dan themâu allweddol y strategaeth ranbarthol:

| | ***Cryfderau*** | ***Meysydd sydd angen eu gwella*** |
|---|---|---|
| **1. Pobl** | | |
| ***Digartrefedd ymysg pobl ifanc*** | • Ymgysylltu'n rheolaidd â phobl ifanc sydd yn / wedi bod / mewn perygl o fod yn ddigartref – mae dealltwriaeth o'u hanghenion ac mae pobl ifanc yn cefnogi gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth.<br>• Mae gwasanaethau penodol ar gael i bobl ifanc drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl. | • Codi ymwybyddiaeth am fudd-daliadau ymysg pobl ifanc 16 – 25 oed<br>• Ateb arloesol i oresgyn y rhwystr a grëir oherwydd fod y Lwfans Tai Lleol yn is na rhenti yn y Sector Rhent Preifat.<br>• Adolygu protocol ar y cyd ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac Opsiynau Tai<br>• Angen heb ei gwrdd am lety ar y cyd |
| ***Pobl sy'n cysgu ar y stryd*** | • Mae pecynnau ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd ar gael yng Nghaergybi a Llangefni | • Adolygu'r protocol tywydd oer er mwyn asesu beth weithiodd yn dda a gwneud |

| | | |
|---|---|---|
| | (y prif drefi).<br>• Mae Un Pwynt Mynediad yn casglu gwybodaeth am ddigartrefedd cudd posib, lle mae pobl yn cysgu ar soffas teulu neu ffrindiau.<br>• Mae Digartref yn darparu gwasanaeth aros dros nos sy'n cynnig llety mewn argyfwng i bobl ifanc<br>• Polisi tywydd oer mewn lle.<br>• Mae cefnogaeth yn ymwneud â thai ar gyfer pobl ddigartref dros 25 oed, yn cynnwys pobl sy'n cysgu ar y stryd a phobl sy'n profi digartrefedd dro ar ôl tro, yn flaenoriaeth comisiynu i Cefnogi Pobl. | unrhyw welliannau.<br>• Defnyddio manylion o Un Pwynt Mynediad i fapio'r angen a nodi'r galw tebygol gan bobl sy'n cysgu ar y stryd. |
| ***Anghenion dwys*** | | • Ni chasglwyd data am achosion cymhleth, mae angen ei gasglu yn y dyfodol a'i ddefnyddio i gynllunio gwasanaethau a datblygu ymyraethau. |
| ***Pobl sy'n gadael carchar*** | • Swyddog Llwybr Carcharorion wedi ei benodi<br>  ○ Cysylltiadau cyfathrebu da gyda phartneriaid perthnasol.<br>  ○ Trefniadau effeithio ar gyfer gweithio mewn partneriaeth agos. | • Parhau i gyllido'r llwybr carcharorion<br>  ○ Ymyrraeth gynnar, asesiad ac ymyrraeth i wneud y gorau o atebion tai. |
| **2. Cartrefi** | | |
| ***Tai yn Gyntaf*** | • Mae'r Wallich yn rhedeg prosiect Tai yn Gyntaf llwyddiannus yn Llangefni. | |
| ***Gwell mynediad at lety*** | Tai Cymdeithasol<br><br>• Cynllun llety ar gyfer pobl dan 35 oed yn cael ei ddatblygu (unedau | Tai Cymdeithasol<br><br>• Angen heb ei gwrdd am lety ar y cyd ar gyfer pobl dan 35 oed ac eiddo mwy (4+ |

| | | |
|---|---|---|
| | annibynnol) mewn partneriaeth â phobl ifanc.<br><br>Sector preifat<br><br>• Swyddog Cyswllt Landlordiaid Preifat wedi ei benodi<br>    ○ Pwynt cyswllt ar gyfer landlordiaid preifat.<br>• Mae'r Fforwm Landlordiaid yn cyfarfod yn rheolaidd:<br>    ○ Cyfle i rannu gwybodaeth berthnasol gyda landlordiaid preifat.<br>    ○ Cynnig rhwydwaith gefnogaeth.<br>• Rhentu Doeth Cymru.<br>    ○ Cymryd camau i annog landlordiaid i gofrestru a chymryd camau gorfodaeth.<br>• Prosiect Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria<br>    ○ Rhoddwyd cefnogaeth i ailsefydlu 3 theulu.<br><br>• Mae gan y tîm Opsiynau Tai record gref o ddod o hyd i lety.<br>• Mae'r Strategaeth Tai Gwag wedi helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn y sector tai preifat a chymdeithasol. | ystafell wely)<br>• Mae angen lleihau'r bwlch yn y farchnad dai gyda:<br>    ○ Llety canolradd<br>    ○ Cynlluniau rhannu ecwiti<br>• Mae angen datblygu a chytuno ar brotocol adran 95 'dyletswydd i gydweithredu' gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn helpu i ailgartrefu ymgeiswyr digartref yn fwy teg ar draws y stoc tai rhent cymdeithasol.<br>Sector preifat<br><br>• Cynllun cymhelliad Landlordiaid megis:<br>    ○ Cynlluniau blaendal<br>    ○ Cymorth ariannol ar gyfer mân welliannau<br>    ○ Rhent gwarantedig ar gyfer eiddo gwag tra bod tenantiaid addas yn cael eu canfod.<br>• Gwasanaethau i gefnogi landlordiaid preifat megis:<br>    ○ Dod o hyd i denantiaid<br>    ○ Gwasanaeth Rheoli<br>    ○ Swyddfa Budd-daliadau Tai dynodedig i ddarparu cyngor / cymorth ynglŷn ag ymholiadau budd-daliadau<br>• Cefnogi tenantiaid<br>    ○ Negodi / eirioli i aros yn y Sector Rhent Preifat.<br>• Mae angen mwy o lety yn y Sector Rhent Preifat ar gyfer y prosiect ailsefydlu ffoaduriaid o Syria. |
| ***Llety dros dro*** | | • Gwella'r broses asesu risg (Gwely a Brecwast). |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynorthwyo cwsmeriaid sydd mewn llety Gwely a Brecwast fel eu bod yn symud i lety sefydlog cyn gynted â phosib.<br>• Datrysiad arloesol er mwyn cynyddu'r llety dros dro sydd ar gael.<br>• Monitro'r defnydd o Wely a Brecwast, yn cynnwys tueddiadau. |
| **3. Gwasanaethau** | | |
| ***Atal*** | Mynediad at wasanaethau<br><br>• Ciosgau yn y gymuned yn darparu mynediad digidol.<br>• Ymweliadau cartref yn cael eu cynnig gan staff O'Toole sy'n darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar a chefnogaeth.<br>• Bydd y Tîm Opsiynau Tai profi system 'flaenoriaethu' o fis Mai 2018.<br>• Partneriaid yn cynnig cefnogaeth ariannol achlysurol i gynorthwyo pobl mewn ardaloedd gwledig i gael mynediad at wasanaethau.<br><br>• Defnyddio gwasanaethau cyfryngu yn llwyddiannus. | Mynediad at wasanaethau<br><br>• Gwefan<br>  ○ Hunanasesiad ar-lein<br>  ○ Mapio darparwyr eraill sy'n cynnig gwasanaethau atal digartrefedd a darparu'r wybodaeth honno.<br>• Amser disgwyl am yr ymweliad cyswllt cyntaf.<br>• Cyfathrebu a chysylltiad yn ystod y cyfnod darparu gwasanaeth.<br>• Monitro'r galwadau ar y gwasanaeth.<br>• Ciosgau<br>  ○ Cyfyngedig o ran eu defnydd (mynediad i Word, pwynt USB)<br>• Hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi pobl sydd mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref.<br>• Rhwystrau gwledig megis cost cludiant yn cael effaith ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau. |
| ***Lliniaru effaith Diwygio Budd-*** | • Gwell perthynas rhwng Gwasanaethau Tai a Budd- | • Rheolwr prosiect Diwygio Budd-daliadau |

| | | |
|---|---|---|
| ***daliadau*** | daliadau Tai.<br>• Perfformiad mewn perthynas â cheisiadau Budd-dal Tai newydd.<br>• Hyb Credyd Cynhwysol wedi ei sefydlu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i reoli cyflwyniad y Credyd Cynhwysol yn yr ardal. | • Mynediad digidol.<br>• Cymorth i wneud y gorau o incwm<br>• Rheoli effaith Diwygio Budd-daliadau<br>• Ymyrraeth gynnar<br>  o Cyngor ariannol ac ynglŷn â dyledion<br>  o Datrys problemau budd-daliadau a budd-daliadau tai<br>  o Adnabod tenantiaid bregus cyn iddynt fynd i ddyledion. |
| ***Parhau i gydweithio*** | • Mae'r Fforwm Atal Digartrefedd yn monitro effaith Wylfa (mewnlifiad gweithwyr).<br>• Mae elfennau o brif ffrydio'r gwasanaeth digartrefedd a gweithgareddau i'w gweld ar draws y tîm Gwasanaethau Tai.<br>• Gwnaethpwyd gwaith i asesu'r angen am lwybr iechyd meddwl.<br>• Mae sefydliadau partneriaid yn perfformio'n dda o ran atal digartrefedd<br>• Un Pwynt Mynediad mewn lle.<br>  o Cyfeirio cyfeiriadau at ddarparwr priodol. | • Safon sail gyfartal<br>• Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Tai a Budd-daliadau Tai<br>• Datblygu ffurflen pwynt cyswllt cyntaf a chynlluniau tai personol gyda phartneriaid er mwyn dangos fod camau rhesymol yn cael eu cymryd<br>• Parhau â rôl y Swyddog Adolygu.<br>• Llwybr ysbyty<br>• Datblygu'r llwybr Iechyd Meddwl<br>  o Cymorth i gael mynediad at wasanaeth er mwyn cynnal tenantiaeth.<br>• Protocol cyn troi allan gyda darparwyr tai cymdeithasol. |

## 3.0 Cynllunio Rhanbarthol

Yn seiliedig ar adolygiadau unigol gan bob Awdurdod Lleol mae prif themâu wedi cael eu hadnabod sydd yn rhoi sail ar gyfer strategaeth ranbarthol a fydd yn cael ei ddatblygu i fod yn gynllun gwaith lleol gydag ymgynghoriad pellach gyda phartneriaid lleol a phrif rhanddeiliaid.

*Prif themâu'r Strategaeth Ranbarthol yw:*

**1) Pobl**

- Digartrefedd Pobl Ifanc
- Cysgu ar y stryd
- Anghenion cymhleth
- Pobl yn gadael carchar

**2) Cartrefi**

- Housing First
- Gwella mynediad i lety
- Llety dros dro

**3) Gwasanaethau**

- Atal
- Lliniaru Diwygio Lles
- Iechyd
- Parhad cydweithio
- Cyfathrebu / codi proffil

Yn seiliedig ar Allbynnau sydd wedi ei hadnabod yn rhan 2.0 o'r uchod bydd y Cynllun Gwaith Lleol yn edrych ar yr isod:

- Gwasanaethau i helpu pobl sydd yn ddigartref a dan fygythiad o ddigartref
- Helpu atal a lliniaru digartrefedd
- Cyflenwad tai a gwasanaethau cefnogol
- Adnoddau
- Rheoli perfformiad a rheoli cynlluniau
- Sector rhentu breifat
- Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol
- Impact Wylfa Newydd ar y farchnad dai
- Fforwm Digartrefedd

**Rhan 4: Ymgynghori â phartneriaid lleol a rhanddeiliaid allweddol**

Mae'n rhaid i bob Llywodraeth Leol ymgynghori â'u partneriaid lleol a rhanddeiliaid rhanbarthol ynglŷn a chanlyniad cam 2.

**4.0 Cynllun Cyfathrebu**

Nod yr ymgynghoriad yw derbyn adborth ar y strategaeth ddigartrefedd ac adnabod sut gellir cyflawni hyn gyda parterniaid gyda'r bwriad o.

- Atal digartrefedd
- Darparu llety addas ar gyfer pobl sydd yn ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref;
- Mae cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sydd yn ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref

**Cynulleidfa Darged:**

a) Y Fforwm Atal Digartrefedd, sydd yn cynnwys y partneriaid a ganlyn, sy'n darparu gwasanaethau atal digartrefedd:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Budd-daliadau Tai
- Shelter Cymru
- Landlordiaid Cymdeithasol Gwledig; Tai Gogledd Cymru, Pennaf a Grŵp Cynefin
- Darparwyr Cefnogi Pobl; y Wallich, Digartref Ynys Môn, CAIS
- Cyngor ar Bopeth
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Iechyd Meddwl Cymunedol

b) Y Fforwm Defnyddwyr Gwasanaeth Atal Digartrefedd, sy'n cynnwys cwsmeriaid sydd wedi bod yn ddigartref neu sydd yn ddigartref ac wedi derbyn gwasanaethau atal digartrefedd.
c) Cwsmeriaid sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ddigartrefedd.
d) Aelodau Etholedig
e) Swyddogion y Cyngor, yn cynnwys Uwch Reolwyr

<u>Ymgysylltu:</u>

| | Disgrifiad | Dull | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. | Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith | Cytuno ar y wybodaeth a ddarperir o dan 'cam 2' yr adroddiad hwn a'r cynllun cyfathrebu. | Mehefin |
| 2. | Cynnal gweithdy gyda'r Fforwm Atal Digartrefedd (gweler isod), yn cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth. | Digwyddiad unwaith ac am byth. Sesiynau rhyngweithiol i gasglu barn partneriaid ar y cynllun gweithredu arfaethedig. | Mehefin |
| 3. | Ymgynghoriad cyhoeddus drafft terfynol | Ar gael ar-lein. Copïau papur ar gael yn 'Cyswllt Môn', Canolfan JE O'Toole, Llyfrgelloedd.<br><br>4 sesiwn galw i mewn yn y gymuned. | Awst - Medi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gofynnir i bartneriaid annog cwsmeriaid i gymryd rhan. | | |
| 4. | Drafft terfynol i’w gymeradwyo gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dilyn yr ymgynghoriad. | | Hydref | |
| 5. | Cymeradwyaeth gan Bwyllgor Gwaith | | Rhagfyr | |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gofynion Deddf Tai, 2014 i gynnal adolygiad o’r gwasanaeth a strategaeth ddilynol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Cymeradwyaeth o’r Strategaeth ei angen dan y Ddeddf Tai, 2014 |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwyo 29/5 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cymeradwyo 29/5 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cymeradwyo 29/5 |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid Syria

**Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 12, 13 & 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972** / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 12,13 & 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

**12. Gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol** / Information relating to a particular individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn** / Information which is likely to reveal the identity of an individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth)** / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)
**Nid yw gwybodaeth sydd dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig dan y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru dan:-** / Information falling within paragraph 14 is not exempt information by virtue of that paragraph if it is required to be registered under:-
**Deddf Cwmnïau 1985** / the Companies Act 1985 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974** / the Friendly Societies Act 1974 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992** / the Friendly Societies Act 1992 **Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978** / the Industrial and Provident Societies Acts 1965 to 1978 **Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986** / the Building Societies Act 1986; **neu** / or **Deddf Elusennau 1993** / the Charities Act 1993
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| *Bod y cyhoedd yn ymwybodol bod ffoaduriaid wedi eu cartrefu yno.* | *Llai o debygolrwydd i'r ffoaduriaid gael eu hadnabod a wynebu casineb neu thrais.* |

**Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.
**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

# Eitem 12 ar y Rhaglen

Document is Restricted

This page is intentionally left blank